

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil cymdeithasol
Social research


Rhif: 29/2013



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir gan Nacro Cymru i Lywodraeth Cymru



Gwerthusiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir gan Nacro Cymru i Lywodraeth Cymru

ARCS (UK) Limited

Barn yr ymchwilydd sy'n cael ei fynegi yn yr adroddiad hwn ac nid barn
Llywodraeth Cymru o anghenraid

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Robert Willis

Gwasanaethau Dadansoddol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Swyddfa Merthyr Tydfil

Merthyr Tydfil

CF48 1UZ

Ffôn: 0300 062 8138

E-bost: Robert.willis@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013

ISBN 978-0-7504-8171-7

© Hawlfraint y Goron 2013

TABL CYNNWYS

1	CYFLWYNIAD	1
2	Y GWERTHUSIAD	2
2.1	NODAU AC AMCANION	2
2.2	FFRYDIAU ALLWEDDOL	3
2.2.1	Casglu a dadansoddi'r dogfennau/data sydd ar gael	3
2.2.2	Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol	4
3	CANFYDDIADAU ALLWEDDOL	6
3.1	Gwaith a gyflawnwyd gan Nacro Cymru	6
3.1.1	Hyfforddiant	8
3.1.2	Prosiectau	11
3.1.3	Gwaith i gefnogi Timau Troseddau Ieuenctid	16
3.1.3.1	Cymorth "yn ôl y galw"	16
3.1.3.2	Rhaglenni â phwyslais penodol i gynorthwyo Timau Troseddau Ieuenctid unigol 18	18
3.1.4	Gwaith gyda grŵp Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru	19
3.1.5	Gwaith strategol	25
3.1.6	Gwaith rhwydweithio/lledaenu gwybodaeth	28
3.2	Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, grŵp Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru a Nacro Cymru – disgrifio swyddogaethau	28
3.3	Gwaith Nacro Cymru – asesu ansawdd	30
3.4	Asesu effaith gwaith Nacro Cymru	32
3.4.1	Ymarfer cyfiawnder Ieuenctid	34
3.4.2	Cydgysylltiad strategol	37
3.4.3	Tueddiadau ym maes troseddau Ieuenctid a phenderfynu achosion	37
3.5	Gwerth am arian	39
4	CRYNODEB O GANFYDDIADAU A GOBLYGIADAU AR GYFER DARPARIAETH YN Y DYFODOL	42
4.1	Darparwyr eraill	43
4.2	Y posibilrwydd o ddarparu'r gwaith yn fewnol	45
4.3	Tendro agored	46
4.4	Darpariaeth gymysg	51
4.5	Parhau â'r trefniadau presennol	52
4.6	Dewisiadau ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol – crynodeb	53
	Atodiad 1 – Crynodeb o'r prosiect	55
	Atodiad 2 – Canllaw i bynciau'r cyfweiliadau	58
	Atodiad 3 – Gwaith Nacro Cymru: amserlen gryno ynghyd â ffrydiau gwaith, 2009-2011	62
	Atodiad 4 – Ymyriadau yn ôl Timau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru, fesul blwyddyn	71
	Atodiad 5 - Nifer y rhai a dderbyniwyd am y tro cyntaf fesul ardal awdurdod lleol yng Nghymru, fesul blwyddyn	74
	Atodiad 6 – Enghreifftiau o brosiectau ymchwil a gafodd eu caffael ar y farchnad agored, ynghyd â chostau	75
	CYFEIRIADAU	81

Tablau

Tabl 1 – Ymatebwyr ymchwil, fesul grŵp a math o ymgynghoriad.....	6
Tabl 2 – Amcangyfrif o gostau sampl o brosiectau Nacro Cymru ar y farchnad.....	40
Tabl 3 – Dewisiadau allweddol ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol, yn ôl cost, manteision ac anfanteision	54
Tabl 4 – Cyfanswm yr ymyriadau “cyn llys” a “haen gyntaf”, yn ôl Timau Troseddau Ieuenctid Unigol, a fesul blwyddyn rhwng 2007-08 a 2009-10 (a % y newid wedi'i ddangos fesul blwyddyn, ac ar gyfer y cyfnod cyfan).....	71
Tabl 5 - Cyfanswm yr ymyriadau “cymunedol” a “dalfa”, yn ôl Timau Troseddau Ieuenctid Unigol, a fesul blwyddyn rhwng 2007-08 a 2009-10 (a % y newid wedi'i ddangos fesul blwyddyn, ac ar gyfer y cyfnod cyfan).....	72
Tabl 6 – Dadansoddiad o gategorïau ymyriad, fesul blwyddyn.....	73

1 CYFLWYNIAD

Mae Nacro Cymru wedi bod yn weithgar ym maes cyfiawnder ieuenctid a gwaith cysylltiedig yng Nghymru ers blynyddoedd lawer bellach, ar ôl ei sefydlu ym 1998 i'w wahaniaethu oddi wrth ei riant-sefydliad, Nacro (a ffurfiwyd ym 1966). Bu Nacro yn weithgar iawn mewn gwaith cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru cyn hyn hefyd, yn y 1980au a'r 1990au, ac roedd ganddo bresenoldeb staff cymharol fawr ar rai adegau (â nifer o gannoedd o aelodau staff), yn ymwneud â darparu amrywiaeth o brosiectau "ar lawr gwlad" yn ogystal â gwaith polisi, ymchwil a lledaenu gwybodaeth gyda chymorth cyllid o amrywiaeth eang o ffynonellau.

Mae Nacro Cymru¹ wrthi'n darparu amrywiaeth eang o brosiectau ledled Cymru ar hyn o bryd, gan ganolbwyntio ar feysydd sy'n cynnwys:

- tai â chymorth,
- adsefydlu pobl ifanc,
- atal digartrefedd,
- mentora,
- cyngor ar addysg a chyflogaeth, a
- chymorth pontio (h.y. cymorth adsefydlu mewn sefydliadau gwarchod ac yn y gymuned).

Mae Nacro Cymru (a'r Uned Troseddau Ieuenctid yn benodol) ei hun wedi bod yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i wneud amrywiaeth o waith ym maes cyfiawnder ieuenctid ers dros 10 mlynedd. Yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod hwnnw, mae'r sefydliad wedi dilyn rhaglen waith flynyddol a ariannwyd gan grant treigl gan Lywodraeth Cymru, a chafodd cynnwys ac amserlen y rhaglen hon eu cytuno a'u monitro gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru.

Ym mis Ionawr 2012, dyfarnwyd contract i ARCS LTD (gyda chymorth ymgynghori cryf gan Brifysgol Aberystwyth) i werthuso gwasanaethau a ddarperir gan Nacro Cymru i Lywodraeth Cymru.² Nid oedd gwaith Nacro Cymru a ariennir gan y Llywodraeth wedi cael ei werthuso o'r blaen, ac roedd y cyllidwyr o'r farn y byddai archwiliad cryno ond trylwyr yn ddefnyddiol er mwyn llywio penderfyniadau ynglŷn â'r ddarpariaeth yn y maes hwn yn y dyfodol.

Darparwyd adroddiad interim ar y gwaith ymchwil i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Chwefror 2012. Mae'r adroddiad terfynol hwn yn cyflwyno canfyddiadau allweddol y gwerthusiad.

¹ Cyfeirir ato fel "NC" ar bwyntiau amrywiol drwy'r adroddiad.

² Sefydlwyd Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru fel sefydliadau ar wahân gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a chyfeiriwyd at y Llywodraeth fel Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r pwynt hwnnw. Ym mis Mai 2011, dechreuodd y weinyddiaeth ddatganoledig gael ei hadnabod fel Llywodraeth Cymru – nod y newid oedd osgoi dryswch o ran swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth, er bod yr ymadrodd "Llywodraeth Cynulliad Cymru" yn parhau i gael ei ddefnyddio i ryw raddau, ac fe'i defnyddiwyd gan lawer o'n hymatebwyr hefyd.

2 Y GWERTHUSIAD

2.1 NODAU AC AMCANION

Nodau allweddol y gwerthusiad oedd:

- *“Darparu disgrifiad manwl o’r gwasanaethau a ddarperir gan Nacro Cymru i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhai a nodir yn y cynllun gwaith a gwaith arall.*
- *Archwilio gwerth y gwasanaeth hwn o safbwyntiau Llywodraeth Cymru, Nacro Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys Timau Troseddau Ieuenctid).*
- *Archwilio’r effaith y mae’r gwaith a wnaed gan Nacro Cymru wedi ei chael ar atal a lleihau trosedd ieuenctid yng Nghymru, gan gynnwys amrywiaeth eang o feysydd blaenoriaeth cysylltiedig fel tlodi plant, iechydd meddwl, cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau”.*

Bwriad y gwerthusiad hwn oedd cyfrannu tuag at benderfyniadau sydd i’w gwneud am ddarpariaeth gwasanaethau yn y maes hwn yn y dyfodol, asesu’n fanwl nifer o ddewisiadau ar gyfer eu darparu yn y dyfodol (gan gynnwys peidio â’u darparu neu eu darparu’n fewnol, mabwysiadu proses dendro agored neu barhau â’r drefn bresennol gyda newidiadau neu hebddynt), a chynnig argymhellion ynglŷn â’r dewisiadau hyn.

Yn gryno, bwriad y gwaith ymchwil oedd cynhyrchu disgrifiad ac asesiad cynhwysfawr o wasanaethau a ddarparwyd gan Nacro Cymru hyd yn hyn, a myfyrdod gofalus yn seiliedig ar dystiolaeth ar y dewisiadau ar gyfer eu darparu yn y dyfodol, yng ngoleuni amgylchiadau’r farchnad a gofynion y cyllidwr. Ni fwriadwyd i’r gwerthusiad ganolbwyntio ar bopeth yr oedd Nacro wedi ei wneud ers ei sefydlu. Yn hytrach, roedd yn canolbwyntio’n fwy penodol ar y rhaglenni gwaith a ariennir gan y Llywodraeth y cyfeiriwyd atynt yn gynharach, ac ar y rhai a ddarparwyd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn benodol.

Cysylltwyd y nodau a’r amcanion hyn ag amrywiaeth o gwestiynau ymchwil perthnasol, gan gynnwys:

- Pa waith y mae Nacro Cymru wedi ei gyflawni yn rhan o’i drefniant ariannu gyda Llywodraeth Cymru?
- Pa effaith y mae’r gweithgareddau hyn wedi ei chael ar:
 - feysydd ymarfer perthnasol;
 - cysoni polisiâu cyfiawnder ieuenctid a pholisiâu cysylltiedig;
 - prosesau’r prif randdeiliaid ar gyfer gwneud penderfyniadau a’u canfyddiad o faterion allweddol;
 - canlyniadau troseddau ieuenctid a/neu adsefydlu (os gellir dangos hyn), a
 - agweddau at waith ataliol?

- O ran pob un o'r ffrydiau gwaith allweddol a ddarperir gan Nacro Cymru, beth yw'r posibilrwydd y gallai darparwyr eraill gyflawni gwaith o'r fath yn unol â'r safonau gofynnol yn y dyfodol (ac y byddant yn gwneud hynny am bris cystadleuol)?
- Beth yw manteision ac anfanteision caniatáu i un sefydliad ddarparu amrywiaeth o weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyfiawnder ieuenctid, yn hytrach na chael gwahanol sefydliadau i'w darparu dros amser neu fesul ffrwd gwaith?
- Beth yw manteision ac anfanteision comisiynu arbenigedd hyblyg "yn ôl y galw" ym maes cyfiawnder ieuenctid a meysydd cysylltiedig, o'i chymharu â darpariaeth "fewnol"?
- Pa brofion ddylid eu defnyddio i benderfynu a ddylid comisiynu mathau penodol o wasanaeth yn y maes hwn trwy broses dendro agored?

2.2 FFRYDIAU ALLWEDDOL

Er mwyn cyflawni'r nodau ac amcanion uchod a mynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil allweddol, dilynodd y tîm ymchwil nifer o ffrydiau gwaith allweddol (yn dilyn cam cynllunio rhagarweiniol). Roedd y rhain yn cynnwys:

- disgrifiad manwl o'r gwaith a gyflawnwyd gan Nacro Cymru;
- asesiad o ansawdd, gwerth am arian ac effaith y gwaith uchod; ac
- ystyriaeth o fanteision ac anfanteision dewisiadau allweddol o ran darpariaeth y dyfodol.

Defnyddiwyd nifer o ddulliau casglu data, fel y nodir yn yr adrannau ar wahân isod.

2.2.1 *Casglu a dadansoddi'r dogfennau/data sydd ar gael*

Roedd un o ffrydiau cychwynnol allweddol y gwerthusiad yn cynnwys casglu ac asesu deunydd dogfennol a chyfresi data yn gysylltiedig â gwaith presennol a blaenorol Nacro Cymru. Roedd deunydd perthnasol yn ymwneud â rhaglenni gwaith blynyddol (sydd gan Lywodraeth Cymru a Nacro Cymru) yn cynnwys:

- cynlluniau gwaith blynyddol/tri misol;
- adroddiadau ar gynnydd (yn gyffredinol ac yn ymwneud â phrosiectau unigol penodol a ddarparwyd yn rhan o drefniadau ariannu gyda Llywodraeth Cymru);
- cofnodion cyfarfodydd adolygu rheolaidd;
- adroddiadau ar waith ymchwil penodol a phrosiectau eraill a gyflawnwyd;
- adroddiadau yn cynnwys dadansoddiadau o ddata perthnasol yn ymwneud â materion penodol y canolbwyntiwyd arnynt yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd (e.e. cyfraddau dedfrydu yn y gwahanol Dimau Troseddau Ieuenctid);
- papurau briffio a deunydd arall yn deillio o rywfaint o'r gwaith uchod (e.e. ar ddefnydd o'r ddalfa), a

- manylion ariannol yn ymwneud â grantiau blynyddol Nacro Cymru.

Casglwyd amrywiaeth eang o ddata a deunydd dogfennol o ffynonellau eraill hefyd, gan gynnwys:

- grŵp Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru (e.e. papurau sefyllfa, ymatebion i ymgynghoriadau, deunydd cefndir);
- Llywodraeth Cymru (e.e. dogfennau allweddol fel *Strategaeth Troseddau Ifanc Cymru Gyfan*³ a *Chynllun Cyflenwi 2009-11* a luniwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, ynghyd â pholisïau/strategaethau perthnasol eraill, ac amrywiaeth o adroddiadau yn ymwneud â gweithrediad a datblygiad y rhain);
- y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a'r Archifau Gwladol (ar gyfer Arolygiadau Achosion Craidd blaenorol o Dimau Troseddau Ieuenctid Cymru, ac Adroddiadau Arolygu Timau Troseddau Ieuenctid cynharach);
- ffynonellau cenedlaethol eraill fel y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (e.e. y cyfresi data sydd ar gael ar droseddau ieuenctid a thueddiadau ym maes cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr), a
- deunydd polisi, arferion ac ymchwil ehangach yn ymwneud â chyfiawnder ieuenctid yng Nghymru.

Casglwyd y rhan fwyaf o'r wybodaeth hon yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2012, er bod y broses hefyd yn barhaus trwy gydol y prosiect.

2.2.2 Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol

Roedd adborth gan rhanddeiliaid allweddol o bwys mawr i'r gwerthusiad ac ymdrechodd y tîm i ganfasio barn mor eang â phosibl yn unol â'r amserlen a'r gyllideb a oedd ar gael.

Roedd y gwaith ymgynghori hwn yn cynnwys cymysgedd o gyfweiliadau trylwyr a chwestiynau "llenwi bylchau" a/neu ddilydol wedi'u targedu'n ofalus i rhanddeiliaid allweddol.

Cynlluniwyd y cyfweiliadau trylwyr i gynhyrchu "hanesion" llawn gweithgareddau Nacro Cymru a'u heffeithiau dros y blynyddoedd, fel y'u gwelwyd o safbwynt buddiannau/sefyllfaoedd rhanddeiliaid allweddol. Cynhaliwyd y cyfweiliadau trylwyr ag unigolion yr oedd eu profiad yn rhoi golwg strategol gref iddynt o gyfiawnder ieuenctid a gwaith cysylltiedig yng Nghymru, a gwybodaeth am gyfranogiad Nacro Cymru mewn gwaith o'r fath dros amser.

Roedd y cyfweiliadau trylwyr yn cynnwys trafodaethau wyneb yn wyneb a thros y ffôn, er y cynhaliwyd mwyafrif y rhain a'r trafodaethau dilynol / â phwyslais penodol iddynt dros y ffôn. Trawsgrifiwyd yr holl gyfweiliadau yn rhannol ar adeg eu cynnal, ar gyfer dadansoddiad ansoddol dilynol.

³ Talfyrwyd fel "STICG" trwy lawer o'r adroddiad hwn.

Cysylltwyd â'r holl ymatebwyr posibl trwy e-bost yn gyntaf, a rhoddwyd crynodeb o'r prosiect a nodyn eglurhaol iddynt. Dogfen dwy dudalen oedd y crynodeb o'r prosiect (sydd ynghlwm yma fel *Atodiad 1*) yn amlygu diben y gwaith ymchwil, y prif ddulliau i'w defnyddio ac aelodau allweddol y tîm a oedd yn gwneud y gwaith. Dilynwyd y cysylltiadau cychwynnol hyn wedyn gyda sgysiau ffôn a/neu negeseuon e-bost, i drefnu amseroedd cyfleus i gynnal cyfweiliad. Cynhaliwyd trafodaethau rhagarweiniol ar y pwynt hwn weithiau, ac ychwanegwyd adborth o'r rhain at y gyfres ddata ansoddol hefyd. Mae'r canllaw i bynciau'r cyfweiliadau ynghlwm i'r adroddiad hwn fel *Atodiad 2*.

Gwnaeth cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru awgrymiadau cychwynnol i'r tîm gwerthuso o ran pwy ddylid eu cynnwys yn y sampl cyfweiliadau (gan gynnwys cynrychiolwyr o sampl o Dimau Troseddau Ieuenctid o amrywiaeth briodol o leoliadau daearyddol), a darparwyd manylion cyswllt i'r tîm. Roedd yr ymatebwyr posibl yn cynnwys:

- aelodau'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid ac unigolion allweddol eraill yn Llywodraeth Cymru; y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (Cymru);
- aelodau tîm Nacro Cymru (gan gynnwys rhai cyn-aelodau);
- cynrychiolwyr Timau Troseddau Ieuenctid (gan gynnwys aelodau staff o lefelau amrywiol);
- arbenigwyr cyfiawnder ieuenctid o'r cymunedau academiaidd ac ymchwil yng Nghymru; a
- rhanddeiliaid o feysydd polisi ac ymarfer cysylltiedig allweddol gan gynnwys tlodi plant a gwaith gyda theuluoedd, diogelwch cymunedol, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau ac ati.

Nod y tîm ymchwil oedd cynnwys yr holl Dimau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru yn hytrach na sampl. Rhoddir dadansoddiad o ymatebwyr fesul ardal a math o ymgynghoriad yn y tabl canlynol.

Tabl 1 – Ymatebwyr ymchwil, fesul grŵp a math o ymgynghoriad

	Cyfweliadau trylwyr	Trafodaethau rhagarweiniol, dilynol, â phwyslais penodol iddynt	Cyfanswm
Tîm Cyfiawnder Ieuenctid, cynrychiolwyr eraill Llywodraeth Cymru, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid	4	3	7
Aelodau staff Nacro	3	6	9
Cynrychiolwyr Timau Troseddau Ieuenctid	16	8	24
Cynrychiolwyr o feysydd polisi eraill; arbenigwyr Cyfiawnder Ieuenctid eraill; gweithwyr caffael proffesiynol	4	6	10
Cyfanswm	27	23	50

Dechreuodd y gwaith cyfworld ym mis Chwefror a pharhaodd trwy gydol y prosiect. Roedd lefelau cydweithrediad yn uchel iawn ac roedd yn ymddangos bod cynrychiolwyr o bob grŵp (ac efallai Timau Troseddau Ieuenctid Cymru yn benodol) yn awyddus i rannu eu safbwyntiau ac ymateb i'n cwestiynau.

3 CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Er bod y cyfnod ymchwil yn gymharol fyr, cynhyrchodd y gwerthusiad gyfres ddata hynod gyfoethog ac a ddefnyddiwyd yn yr adrannau dilynol.

Cyflwynir canfyddiadau yn crynhoi ffrydiau gwaith allweddol Nacro Cymru yn adran 3.1, sy'n ddisgrifiadol ar y cyfan. Mae adran 3.2 yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â "swyddogaethau" ac mae'n cynnwys sylwadau ar sut y penderfynir ar raglen waith flynyddol NC. Mae gweddill rhan hon yr adroddiad yn ymdrin â materion ansawdd (adran 3.3), effaith (adran 3.4), a gwerth am arian (adran 3.5).

3.1 Gwaith a gyflawnwyd gan Nacro Cymru

Casglwyd manylion o sawl ffynhonnell ynglŷn â'r gwaith a gyflawnwyd gan Nacro Cymru yn rhan o'r rhaglenni gwaith blynyddol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd dogfennau a gedwir gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â gwaith o'r fath yn ystod y cyfnod o 2009 i'r presennol eu darllen a'u crynhoi gan y tîm (e.e. adroddiadau ar gynnydd, cofnodion o gyfarfodydd adolygu ac ati). Roedd bron pob un o'r dogfennau hyn ar gael yn electronig.

Roedd cofnodion yn ymwneud â rhaglenni gwaith Nacro Cymru ar gyfer blynyddoedd blaenorol ar gael fel copïau caled yn mynd yn ôl tua 10-12 mlynedd, er y cytunwyd ar ddechrau'r gwaith ymchwil na fyddai angen darllen a dadansoddi'r holl ddeunydd hwn.

Defnyddiwyd rhywfaint o'r dogfennau o ffynonellau eraill hefyd, fel y rhai a restrir yn adran 2.2.1, i lunio darlun cyffredinol o waith Nacro Cymru ac, yn olaf, roedd adborth gan ymatebwyr i'r cyfweiliadau yn rhan allweddol o'n gwybodaeth am waith Nacro Cymru.

Gyda'i gilydd, roedd y ffynonellau gwybodaeth hyn yn galluogi'r tîm i ddisgrifio'r gwaith hwnnw dros amser â chryn hyder, er bod gan bob un o'r ffynonellau hyn ei gwendidau ei hun yn unigol.

Roedd adborth y cyfweiliadau weithiau'n anghyson â'r cofnodion ffurfiol, ac unwaith eto, nid yw hyn yn synod o ystyried bod adborth o'r fath yn dibynnu mwy ar y cof. Yn fwy cyffredinol, roedd cynrychiolwyr Timau Troseddau Ieuencid yn benodol yn tueddu i roi disgrifiad rhy gyfyng o'u hymgysylltiad â Nacro, mewn rhai achosion, oherwydd swm mawr y gwaith y maent wedi ei wneud gyda'r sefydliad dros flynyddoedd lawer. Byddai rhai rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid, er enghraifft, yn rhoi rhestr faith o brosiectau neu hyfforddiant yr oeddent wedi cymryd rhan ynddynt gyda Nacro, ac yna'n cofio mwy wrth i'r cyfweiliad fynd yn ei flaen. (Neu, byddai tystiolaeth bod yr ymgysylltiad wedi bod yn ehangach yn ymddangos yn y dogfennau.)

Weithiau, gwnaed sylwadau fel y canlynol gan Reolwyr Timau Troseddau Ieuencid yn benodol:

Rwyf wedi dod ar eu traws ar sawl gwahanol ffurf dros flynyddoedd lawer.

ymatebwr 19

Rwy'n cael trafferth cofio'r cwbl a dweud y gwir.

ymatebwr 18

Wel! – eitha' lot dros y blynyddoedd.

ymatebwr 15

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau hefyd ar waith yr oedd yn eglur nad oedd yn rhan o raglenni gwaith blynyddol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru - briffiau cenedlaethol Nacro er enghraifft, neu ei ymatebion i ymgynghoriadau cenedlaethol neu ddatblygiadau polisi eraill. Yn fwy cyffredinol, nid oedd y dystiolaeth yn ymwneud â manylion penodol rhaglenni gwaith Nacro Cymru yn eglur bob amser. Roedd safbwyntiau'r rhai a gyfwelwyd, yn arbennig, yn amrywio'n fawr yn hyn o beth (- gweler adran 3.1.4 yn benodol, lle'r ydym yn trafod y mater hwn yn fwy manwl).

Gan ddefnyddio'r holl ffrydiau gwybodaeth hyn, lluniodd y tîm ymchwil ddisgrifiad cryno o waith Nacro Cymru fesul "ffrwd" (e.e. hyfforddiant, prosiectau ymchwil ac ati) dros amser, rhwng 2009 a diwedd 2011 (hepgorwyd chwarter cyntaf 2012 gan mai gwybodaeth rannol yn unig oedd gan y tîm ymchwil ar gyfer y cyfnod hwnnw tra bod y gwaith ymchwil yn cael ei gynnal). Mae'r crynodeb hwn wedi'i gynnwys ar ffurf tabl yn *Atodiad 3 - Gwaith Nacro Cymru: amserlen gryno ynghyd â ffrydiau gwaith, 2009-2011*.

Mae colofnau'r tabl hwnnw yn cynrychioli mathau allweddol o waith - “prosiectau”, “gwaith gyda Thimau Troseddau Ieuenctid a “hyfforddiant arall, digwyddiadau, rhwydweithio”. Bwriedir i'r categori cyntaf gynnwys manylion darnau o waith a oedd â briffiau ar wahân ac oedd yn gymharol annibynnol, er bod y gwahaniaeth rhwng “prosiect” a mathau eraill o waith yn amlwg braidd yn fypwyl. Cynrychiolwyd pob prosiect gan far lliw, a dyddiadau cychwyn a gorffen y gwaith (fel y'u cymerwyd o ddogfennau swyddogol a sylwadau ymatebwyr) sy'n pennu hyd y bar. Mae digwyddiadau penodol o fewn pob bar prosiect wedi'u mapio ar draws chwarteri a blynyddoedd wedyn. Mewn rhai achosion, lle'r oedd y disgrifiadau o ddarn penodol o waith braidd yn amwys yn y cofnodion a oedd ar gael ac yn sylwadau'r ymatebwyr, ni chawsant eu cynrychioli yn y tabl.

Heb os, ceir cysylltiad rhwng natur anffurfiol rhai o gyfraniadau Nacro Cymru a rhai o'r bylchau yn ein disgrifiad o'r gwaith hwn (gweler adran 3.1.3.1 yn benodol), a chafwyd rhai trafferthion amlwg hefyd wrth nodi dyddiadau cychwyn a gorffen rhai ffrydiau gwaith. Gall prosiect ymchwil gynnwys cyfnod hir o drafodaethau rhagarweiniol sy'n golygu ei fod yn ymddangos yn y cofnod ffurfiol ymhell cyn cychwyn y gwaith gwirioneddol “ar lawr gwlad”, er enghraifft, a gall gwaith ymgynghori sy'n ategu adroddiad terfynol hefyd ei gwneud yn aneglur pryd y mae darn penodol o waith wedi dod i ben mewn gwirionedd. Cymhlethir y sefyllfa ymhellach gan y ffaith bod amrywiaeth o ddarnau eraill o waith wedi deillio o lawer o brosiectau unigol Nacro Cymru a/neu wedi eu cynnal ar yr un pryd dros y blynyddoedd - gan gynnwys hyfforddiant yn sgil adroddiad penodol er enghraifft, neu archwiliadau ymarfer yn seiliedig ar gyfresi allweddol o ganfyddiadau.

Er y cyfyngiadau hyn, mae'r cyflwyniad yn ddefnyddiol i gyfleu mewn ffordd gryno led a chymhlethdod y gwaith a gyflawnwyd yn rhan o raglenni gwaith blynyddol Nacro Cymru, ac i amlygu i ba raddau y mae elfennau'r rhaglen honno yn rhyng-gysylltiedig yn ymarferol.

Cyflwynir rhagor o fanylion yn ymwneud â phob un o'r ffrydiau gwaith hyn ar wahân isod, yn seiliedig ar y dystiolaeth ansoddol a dogfennol y cyfeiriwyd ati yn adran 2.2.

3.1.1 Hyfforddiant

O'r holl ffrydiau gwaith a gyflawnwyd gan Nacro Cymru, mae'n debyg mai hyfforddiant oedd y mwyaf cyfarwydd i'r amrywiaeth ehangaf o'r rhai a gyfwelwyd, ac nid yw hyn yn synod o ystyried bod Nacro wedi bod yn ymwneud â hyfforddiant ym maes cyfiawnder ieuenctid a throeddol ers blynyddoedd lawer.

Mae diben a chynnwys yr hyfforddiant a ddarparwyd gan Nacro Cymru yn rhan o'i raglen waith flynyddol wedi amrywio'n eang. Mewn rhai achosion, cafodd ei gynllunio a'i ddarparu mewn ymateb i geisiadau penodol gan Dimau Troseddau Ieuenctid unigol er enghraifft (trwy nifer o lwybrau cyfathrebu). Mewn achosion eraill, fe'i cynlluniwyd yn fwy rhagweithiol neu strategol i ganolbwyntio ar flaenoriaethau ehangach (megis y “cyfranogiad” sy'n ymddangos yn Strategaeth Troseddwr Ifanc Cymru Gyfan (STICG), er enghraifft).

Cyfeiriwyd at bynciau megis y canlynol yn y dogfennau a'r adborth gan ymatebwyr:

- cyfranogiad pobl ifanc ac ymgysylltiad â nhw;

- asesu perygl;
- adroddiadau cyn dedfrydu ac ysgrifennu adroddiadau eraill;
- trefniadaethau neu orchmynion penodol, fel Gorchmynion Adsefydlu Ieuenctid;
- cymorth mechnïaeth, mechnïaeth a remánd, a chyflwyniad i'r darpariaethau remánd newydd yn Neddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012;
- cynllunio a dylunio ymyriadau;
- iechyd meddwl a phobl ifanc, a
- rheoli risg.

Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r hyfforddiant a ddarparwyd gan NC wedi'i dargedu at ymarferwyr, er bod rhywfaint hefyd wedi bod yn fwy strategol ei natur neu wedi ei dargedu at gynrychiolwyr Timau Troseddau Ieuenctid ar lefel reoli, er enghraifft. Roedd rhywfaint o'r hyfforddiant hefyd yn cynnwys cyfranogwyr o amrywiaeth o asiantaethau.

O ran amseroedd y digwyddiadau hyfforddi a pha mor aml yr oeddynt yn cael eu cynnal, yn amlwg bu rhai cyfnodau o weithgarwch hyfforddi mwy dwys nag eraill ond, ar gyfartaledd, mae'r cofnodion a'r adborth yn awgrymu y darperir tua 10-15 digwyddiad y flwyddyn (h.y. yn rhan o raglenni gwaith blynyddol NC).⁴

Cynigodd yr ymatebwyr sylwadau manwl ar hyfforddiant a ddarparwyd gan NC, ac roedd rhan helaeth yr adborth hwn yn gadarnhaol (er nad oedd yn eglur mewn rhai achosion pa un a gomisiynwyd yr hyfforddiant gan y Tîm Troseddau Ieuenctid perthnasol, ynteu a oedd yn rhan o raglenni gwaith blynyddol NC). Amlygwyd nodweddion cadarnhaol o hyfforddiant NC, er enghraifft y canlynol:

- yn wahanol i hyfforddiant "oddi ar y silff" a gynigir gan rai darparwyr, dywedwyd bod cynnwys hyfforddiant NC wedi'i deilwra'n dda iawn i fuddiannau ac anghenion y sefydliad a oedd yn gofyn amdano, ac i'r cyd-destun y mae'r derbynwyr yn cyflawni eu gwaith oddi mewn iddo;
- o ran arddull cyflwyno, mae'n hygyrch i'r grwpiau y'i bwriadwyd ar eu cyfer fel rheol;
- ceir pwyslais ymarferol iddo, ond un a hysbysir hefyd gan ddealltwriaeth o ddatblygiadau ehangach ym maes cyfiawnder ieuenctid a meysydd cysylltiedig.

Mae sylwadau fel y canlynol yn dangos hyn:

Rydym wedi derbyn hyfforddiant o'r blaen ac yn ymddiried ynddo. Rydym yn gwybod beth fyddwn yn ei gael.

⁴Rydym yn cyfeirio yma at ddigwyddiadau hyfforddi ar gyfer grwpiau cyfan, yn hytrach na chyfarfodydd grwpiau bach iawn i drafod neu fynd i'r afael â materion penodol; nid yw cofnodion sy'n ymwneud â chyfarfodydd ar raddfa lai yn eglur bob amser, er ei bod yn ymddangos y bu cryn dipyn o gyfarfodydd o'r fath dros y blynyddoedd – mae'n ymddangos y cynhaliwyd nifer fawr o gyfarfodydd grwpiau bach yn cynnwys aelodau grŵp Rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru er enghraifft, ond ni chofnodwyd y manylion bob amser, ac nid ydynt wedi'u hadlewyrchu'n gywir yn y tabl yn Atodiad 3.

ymatebwr 22

Mae Nacro wedi darparu rhywfaint o hyfforddiant i ni - yn ôl pan roeddwn i'n ymarferwr hefyd. Hyfforddiant ar adroddiadau cyn dedfrydu, a oedd yn hynod werthfawr. Cafodd ei ddarparu i bob rheolwr achos. . . .Roedd hyn yn help i ni o ran sicrhau ansawdd. . . . Cafwyd hyfforddiant ar y Ddeddf Mechnïaeth, a dderbyniwyd gan fy holl ymarferwyr. Roedd o ansawdd da iawn meddai fy staff. Cynhwysfawr hefyd. Mae ansawdd yr hyfforddiant yn dda iawn bob amser. Maent hefyd yn gofalu eu bod yn ymwybodol o ddatblygiadau diweddar.

ymatebwr 12

Yn ddiweddar, e.e. darparwyd hyfforddiant ar y Ddeddf Mechnïaeth . . . Dilynodd fy staff yr hyfforddiant. Roedden nhw'n brofiadol eisoes ond roedd dal yn dda iawn. Mewn maes lle mae busnes yn lleihau - mae llai a llai o waith llys a dweud y gwir, ac mae'n hawdd iddynt ddatgilio. Byddai'n anodd meddwl pwy arall fyddai wedi gallu gwneud hynny.

ymatebwr 16

Roedd rhai o sylwadau'r ymatebwyr ar hyfforddiant NC yn fwy cymysg, ond fel y nodwyd yn gynharach, lleiafrif oedd y sylwadau negyddol a dderbyniwyd yn gyffredinol:

Rydym yn derbyn adborth da yn gyffredinol. Ond ceir problemau o dro i dro. Rydym wedi derbyn hyfforddiant yn y gorffennol a oedd braidd yn uchel-ael i rai aelodau staff. Roedd angen rhywbeth ar lefel ychydig yn is arnynt. Efallai nad oedd Nacro wedi cael briff digon da. . . . Rhoddwyd gwybod i Nacro ac roedden nhw'n cydymdeimlo. Nid oeddem yn siomedig, ond roedd angen gwneud pethau'n gywir y tro nesaf. Mae'r lefel gyffredinol yn amrywio o dda i dda iawn.

ymatebwr 26

Roedd llawer o'u hyfforddiant i ni yn seiliedig ar stwff ar lefel ddamcaniaethol, a'r ddeddfwriaeth. Mae hynny'n ddefnyddiol gan fod angen i chi wybod hynny, ond roedd angen rhywfaint o gyfarwyddyd arnom hefyd o ran beth i'w wneud â hynny yn ein harferion gwaith. . . . Rwy'n credu bod gan ymarferwyr ragor o wybodaeth, ond bu'n rhaid i ni, fel rheolwyr, ystyried sut y dylai ymarferwyr weithio gyda'r deunydd hwnnw a roddwyd i ni gan Nacro.

ymatebwr 24

Nid yw'n synod bod nifer o ymatebwyr o Dimau Troseddau leuenctid hefyd wedi cyfeirio'n gadarnhaol at y ffaith na fu raid iddynt ddefnyddio'u cyllideb eu hunain ar gyfer rhywfaint o'r hyfforddiant a ddarparwyd gan NC dros y blynyddoedd, gan ei fod wedi'i ariannu yn rhan o raglen waith flynyddol NC. Awgrymodd rhai na fyddai rhywfaint o'r hyfforddiant wedi cael ei gynnal o bosibl pe na bai'r adnodd hwnnw ar gael. Cynigodd yr ymatebwr dilynol ei sylwadau ar y gost, a chyfeiriodd hefyd at y ffordd y gall NC "deilwra" ei hyfforddiant ar gyfer anghenion lleol:

Un peth sy'n rhoi'r fantais i Nacro yw eu bod yn adnabod Timau Troseddau leuenctid yng Nghymru yn dda iawn. Maen nhw'n adnabod y staff, maen nhw'n adnabod y wlad ac maen nhw'n adnabod yr ymarferwyr. Felly gallant gyflwyno'r hyfforddiant yn union fel sydd angen. . . . Wrth gwrs, byddai darparwyr eraill wedi codi ffi arnom hefyd. A fyddem ni ddim wedi bod yn siŵr a fydden nhw'n ei wneud yn iawn – ond rydym yn gwybod y bydd Nacro'n darparu'n gywir bob amser. Dosberthir y math hwnnw o waith fel "cymorth i Dimau Troseddau leuenctid".

ymatebwr 16

Rydym yn dychwelyd at faterion yn ymwneud â'r ddarpariaeth wahanol bosibl yn adran 4.1, isod.

3.1.2 Prosiectau

Fel y nodir yn y cyflwyniad i adran 3.1, y ffrydiau gwaith a roddir yn y categori "prosiectau" yn yr adroddiad hwn yw'r rhai a oedd yn gymharol annibynnol ac yr oedd ganddynt friff penodol ac ar wahân y cytunwyd arno rhwng NC a Llywodraeth Cymru (a rhanddeiliaid allweddol eraill weithiau).

Roeddent yn amrywio o ran eu cymhlethdod a'u hyd. Ymarferion cwmpasu ar raddfa fach oedd rhai (yn cynnwys cynhyrchu adolygiad cryno o lenyddiaeth er enghraifft, neu ymgynghoriad cyflym yn canolbwyntio ar feysydd penodol o ymarfer Timau Troseddau leuenctid), ac eraill yn fwy hirdymor ac yn ddarnau llawer mwy manwl o "ymchwil cymhwysol" â ffrydiau gwaith lluosog, weithiau'n cynnwys casglu data sylfaenol helaeth a dadansoddiad eilaidd manwl o ddata swyddogol.

Darperir nifer o enghreifftiau isod ar ffurf gryno; gellir dod o hyd i rai eraill yn nhair colofn "ffrwd gwaith" gyntaf y gronoleg sydd wedi ei chynnwys fel *Atodiad 3 – Gwaith Nacro Cymru: amserlen gryno ynghyd â ffrydiau gwaith*, 2009-2011.

Dychwelir at yr enghreifftiau isod yn adran 3.5, lle'r ydym yn cynnig rhai sylwadau ar gostau.

Prosiect	<u>Llety a throseddwy'r ifanc yng Nghymru (1) – Timau troseddau ieuenctid, pobl ifanc a llety</u>
Diben, amcanion	Fel rhan o'i raglen waith gyda Llywodraeth Cymru, cynhaliodd Nacro Cymru waith ymchwil mewn dau gam yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag anghenion llety pobl ifanc sy'n troseddu. Roedd y gwaith yn gysylltiedig â thargedau strategol a nodwyd yn Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan: ➤ <i>gwerthuso i ba raddau yr aed i'r afael ag anghenion troseddwy'r ifanc o fewn y strategaethau digartrefedd lleol</i> ➤ <i>asesu i ba raddau yr eir i'r afael ag anghenion pobl ifanc o fewn y Cynlluniau Gweithredol Cefnogi Pobl</i> ➤ <i>cynghori'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Timau Troseddau Ieuenctid ynglŷn â phennu targedau priodol ar gyfer pob troseddwr ifanc a ryddheir o'r ddalfa i lety addas a drefnwyd</i> ➤ <i>sicrhau bod yr holl Dimau Troseddau Ieuenctid, drwy'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac awdurdodau lleol, yn gweithio i nodi anghenion troseddwy'r ifanc yn eu hardaloedd o ran tai, a sicrhau bod hyn yn llywio eu cyfraniad a'u cysylltiad â phrosesau cynllunio digartrefedd a "chefnogi pobl" yn lleol</i>
Ffrydiau allweddol, cyfres ddata derfynol	➤ ymwelwyd â phob Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru llenwyd holiadur gyda'r ymatebwyr (n=22); ➤ archwiliwyd data Timau Troseddau Ieuenctid ar bobl ifanc a ddedfrydwyd i'r ddalfa yn 2004 i nodi materion penodol yn ymwneud â llety neu dai; ➤ archwiliwyd priodweddau ac amgylchiadau'r bobl ifanc hynny yr amlygwyd bod ganddynt broblemau llety, i weld sut roedd y materion hyn yn hysbysu prosesau cynllunio ar ôl rhyddhau.
Lleoliadau ymchwil	Pob un o'r 18 Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru
Amserlen	Gwnaed y gwaith ymchwil yn 2005, er y gwnaed rhywfaint o waith cynllunio cynharach yn 2004. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf a ddeilliodd o'r gwaith ymchwil yn 2005, gan ganolbwyntio ar faterion tai a llety o safbwynt Timau Troseddau Ieuenctid - http://www.nacro.org.uk/data/files/nacro-2007121901-105.pdf

Prosiect	<u>Llety a throseddwy'r ifanc yng Nghymru (2) – Y ddalfa a threfniadau byw pobl ifanc</u>
Diben, amcanion	Roedd gan yr ail gam yr un amcanion cyffredinol â'r prosiect uchod, ond roedd yn canolbwyntio'n fwy penodol ar y berthynas rhwng digartrefedd, trosedd a'r ddalfa, fel y'i hadlewyrchir yn nata swyddogol Timau Troseddau Ieuenctid.
Ffrydiau allweddol, cyfres ddata derfynol	➤ roedd prif ffrwd y gwaith ymchwil yn cynnwys darllen a dadansoddi data ASSET o bob cwr o Gymru, yn ymwneud â 452 o bobl ifanc a ddedfrydwyd i'r ddalfa yn ystod 2004; ➤ canolbwyntiodd y dadansoddiad ar fanylion yn ymwneud â threfniadau byw'r bobl ifanc hyn yn ASSET, fel y'u cofnodwyd gan weithwyr Timau Troseddau Ieuenctid ar adegau amrywiol yng nghyswllt pobl ifanc a ddedfrydwyd i gael eu cadw yn y ddalfa; ➤ roedd angen glanhau a diwygio'r data ASSET yn sylweddol cyn y gellid ei ddadansoddi (oherwydd trafferthion yn ymwneud â ffurflenni dyblyg, er enghraifft, ond hefyd oherwydd bod yr amryw Dimau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru yn defnyddio gwahanol fformatau).

Amserlen	Fel y prosiect uchod, er y gwnaed rhan helaeth o'r gwaith dadanoddi ASSET yn ystod 2005. Cyhoeddwyd yr ail adroddiad ar y gwaith yn 2006 - http://www.nacro.org.uk/data/files/nacro-2007121902-258.pdf
----------	--

Prosiect	<u>Swyddogaeth ymarferwyr iechyd meddwl mewn timau troseddau ieuenctid yng Nghymru</u>
Diben, amcanion	Diben y gwaith ymchwil oedd archwilio'r trefniadau sydd gan Dimau Troseddau Ieuenctid ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc y maent yn dod i gysylltiad â nhw ac, yn fwy penodol, i asesu sut y mae Timau Troseddau Ieuenctid yn cael gafael ar arbenigedd iechyd, i ba raddau y cefnogir y trefniadau gan brotocolau a threfniadau gweithio, pa hyfforddiant a ddarperir i arbenigwyr iechyd mewn Timau Troseddau Ieuenctid ac ymhlith ymarferwyr, y defnydd o ddulliau sgrinio, y gwasanaethau iechyd meddwl sydd ar gael i blant a phobl ifanc a'r dull o'u darparu ac adolygu a monitro perfformiad.
Ffrydiau allweddol, cyfres ddata derfynol	➤ adolygiad llenyddiaeth cryno (yn cynnwys y ddarpariaeth ym maes iechyd meddwl y tu mewn a'r tu allan i Gymru, swyddogaeth ymarferwyr iechyd meddwl, ac iechyd meddwl a chyfiawnder ieuenctid); ➤ cyfweiliadau (n=26) a gynhaliwyd gyda phob Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru (rheolwyr, gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol neu aelodau staff eraill); roedd y broses o gasglu data yn cynnwys holiadur hir wedi'i strwythuro (a oedd hefyd yn cynnwys rhai cwestiynau ymateb agored); ➤ adborth "astudiaethau achos" - gofynnwyd i rai a gymerodd ran ystyried dwy astudiaeth achos a roddwyd iddynt gan yr ymchwilwyr, a chynnig sylwadau ar y materion a godir gan y rhain (a sut y byddent yn mynd i'r afael â nhw).
Lleoliadau ymchwil	Pob un o'r 18 Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru
Amserlen	Dechreuodd y gwaith ymchwil ganol 2007, a chynhaliwyd cyfweiliadau rhwng mis Medi 2007 a mis Chwefror 2008. Dosbarthwyd adroddiad drafft i'r Timau Troseddau Ieuenctid ym mis Mehefin 2008, a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol yn 2009 - http://www.nacro.org.uk/data///files/nacro-mh-practitioners-in-yots-in-wales-09-762.pdf

Prosiect	<u>Gwerthusiad o brosiect 'Outreach' Cymdeithas Cadetiaid y Fyddin (ACFA) Cymru gyfan yng Nghymru yn 2007</u>
Diben, amcanion	Yn ystod 2007-08, darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyllid i ACFA weithio mewn partneriaeth â Thimau Troseddau Ieuenctid ac ysgolion uwchradd i ymgysylltu â phobl ifanc a oedd mewn perygl o droseddu a chael eu hallgáu'n gymdeithasol. Comisiynwyd NC i werthuso'r prosiect. Nod y gwerthusiad oedd: ➤ archwilio effaith y gwaith hwn ar bobl ifanc a gymerodd ran yng Nghymru yn 2007; ➤ archwilio'r rhesymau dros eu hatgyfeirio i'r rhaglen, ac ➤ asesu a wnaeth eu hymddygiad (troseddol ac fel arall) wella o ganlyniad i gymryd rhan.

Ffrydiau allweddol	➤ cynhaliwyd cyfweiliadau wedi'u lled-strwythuro gan ddefnyddio holiadur gydag aelodau staff ACFA (arweinwyr prosiect ac aelodau staff allweddol eraill) sy'n gweinyddu ac yn rhedeg y cyrsiau; cynhaliwyd cyfweiliadau wedi'u lled-strwythuro gydag asiantaethau partner (ysgolion a Thimau Troseddau Ieuencid) hefyd; ➤ derbyniwyd sylwadau pobl ifanc a nifer fach o rieni trwy: • grwpiau ffocws • holiaduron • cyfweiliadau; ➤ cynhaliwyd cyfweiliadau ffôn gyda Thimau Troseddau Ieuencid eraill ➤ casglwyd a dadansoddwyd data meintiol ar atgyfeiriadau a'u canlyniadau; ➤ aseswyd ffurflenni atgyfeirio a ffurflenni gwerthuso tri a naw misol ar gyfer pawb a gymerodd ran ac a oedd wedi dilyn rhaglen 'Outreach'. Roedd y rhain yn cynnwys manylion gwelliannau i ymddygiad a oedd yn peri problemau cyn yr atgyfeiriad.
Cyfes ddata derfynol	➤ cyfweilwyd 27 aelod o staff; ➤ cymerodd 44 o bobl ifanc ran mewn grwpiau ffocws gan lenwi holiaduron; ➤ anfonwyd 43 o holiaduron drwy'r post at y rhai nad oeddent wedi mynd i'r grwpiau ffocws (dychwelwyd 13, sef 30 y cant); ➤ cynhaliwyd un cyfweiliad wyneb yn wyneb gydag unigolyn ifanc o Dîm Troseddau Ieuencid Sir Fynwy a Thorfaen, gan ddefnyddio'r un holiadur ag ar gyfer y grŵp ffocws; ➤ derbyniwyd sylwadau cyfanswm o 58 o bobl ifanc a gwblhaodd gyrsiau yn 2007 (37%); ➤ cynhaliwyd grŵp ffocws gyda chwe rhiant/gofalwr i bobl ifanc a oedd wedi cymryd rhan ym mhrosiect <i>Partnership for Youth ACF</i> Morgannwg a Thîm Troseddau Ieuencid Rhondda Cynon Taf
Lleoliadau ymchwil	➤ Clwyd, Dyfed, Morgannwg, Gwent, Powys Cynhaliwyd cyfweiliadau ffôn ag ymatebwyr yn: ➤ Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd, Môn, Merthyr Tudful, Casnewydd, Sir Benfro, Powys
Amserlen	Cynhaliwyd y gwaith ymchwil yn ystod 2008, a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol yn 2009. Rhoddir crynodeb o'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwnnw: http://www.nacro.org.uk/data/files/acfa-outreach-project-in-wales-2007-761.pdf

Prosiect	<u>Lleihau'r Niferoedd a Gedwir yn y Ddalfa – Merthyr Tudful/Pen-y-bont ar Ogwr</u>
Diben, amcanion	Er mwyn dysgu mwy am faterion allweddol yn ymwneud â nifer y bobl ifanc sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yng Nghymru (sy'n flaenoriaeth bwysig ei hun yng nghynllun cyflenwi STICG), gwnaed penderfyniad i gynnal astudiaeth yn canolbwyntio ar ddwy ardal â chyfraddau cymharol uchel, yn hytrach na chynnal astudiaeth yn cymharu ardaloedd â lefelau uchel ac isel yng Nghymru. Diben yr astudiaeth oedd archwilio ffactorau a allai fod yn gysylltiedig â chyfraddau uchel y bobl ifanc a oedd yn cael eu dedfrydu i'w cadw yn y ddalfa yn yr ardaloedd hyn.

Ffrydiau allweddol, cyfres ddata derfynol	➤ adolygiad llenyddiaeth ffurfiannol (ar gael yn: http://www.nacro.org.uk/data/files/welsh-custody-literature-review-dec09-828.pdf); ➤ archwiliad o ddata cyhoeddedig ynglŷn â llwyth gwaith y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid rhwng 2004/5 a 2009/10; ➤ cyfweiliadau gyda rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid, uwch ymarferwyr a rheolwyr gweithrediadau ym mhob Tîm Troseddau Ieuencid, a chyda swyddogion llys a mechnïaeth, ynadon y llys Ieuencid, barnwyr a chynghorwyr cyfreithiol (cyfanswm o 35 ar y ddau safle). Cynhaliwyd yr holl gyfweiliadau gan ddefnyddio holiaduron wedi'u lled-strwythuro; ➤ dangoswyd astudiaeth achos i'r holl ynadon a gyfweilwyd a gofynnwyd iddynt gynnig eu sylwadau ar ba ganlyniad dedfrydu fyddai'n briodol a sut y daethant i'r penderfyniad hwn; ➤ dadansoddiad o gyfanswm o 40 adroddiad cyn dedfrydu o'r ddwy ardal; ➤ archwiliwyd data yn ymwneud â phobl ifanc unigol o system rheoli achosion pob Tîm Troseddau Ieuencid rhwng 2004/5 a 2009/10; ➤ cyfweilwyd nifer fach o bobl ifanc yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc am gydymffurfiaid, gorfodi a diffyg cydymffurfiaid.
Lleoliadau ymchwil	Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr
Amserlen	Dechreuodd y gwaith ymchwil yn ystod trydydd chwarter 2009, a chyhoeddwyd dau adroddiad terfynol ar wahân ym mis Mawrth 2011 (un yn canolbwyntio ar Ben-y-bont ar Ogwr - http://www.nacro.org.uk/data/files/bridgend-custody-study-mar11-904.pdf a'r llall yn canolbwyntio ar Ferthyr Tudful - http://www.nacro.org.uk/data/files/merthyrtydfil-custody-study-mar11-905.pdf).

Roedd gan yr holl ymatebwyr o leiaf rywfaint o brofiad uniongyrchol o brosiectau a ddarparwyd gan NC, a chynigodd cynrychiolwyr Timau Troseddau Ieuencid yn benodol sylwadau ar brosiectau iddynt gymryd rhan ynddynt. Tynnwyd sylw yn aml yn adborth yr ymatebwyr at yr astudiaeth ar y niferoedd sy'n cael eu cadw yn y ddalfa, ac mae'n ymddangos iddi gael ei thrin o ddifrif gan gynulleidfa eang iawn yng Nghymru. Dywedodd llawer o ymatebwyr ei bod wedi cael effaith ar ymarfer ac ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid cyfiawnder Ieuencid allweddol (rhoddir mwy o wybodaeth yn adran 3.4). Mae'n werth nodi bod y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid wedi cymryd rhan weithredol iawn yn yr astudiaeth benodol hon a'i goruchwyllo, ac y cafwyd cyfraniad cryf gan dîm Cyfiawnder Ieuencid Llywodraeth Cymru. Yn wahanol i rai o'r prosiectau eraill a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn, roedd yr astudiaeth ar ddedfrydu yn cynnwys grŵp llywio pwrpasol a sefydlwyd i sicrhau bod amrywiaeth eang o randdeiliaid yn goruchwyllo ac yn cyfrannu at y gwaith.

Unwaith eto, roedd rhan helaeth y sylwadau ynglŷn â'r prosiectau a ddarparwyd gan NC yn gadarnhaol, ac roeddent yn dueddol o fod yn fwy amrywiol na dim ond sylwadau ar ansawdd y prosiectau hyn neu'r ffordd y'u darparwyd. Mae'n debyg bod llawer o ymatebwyr yn teimlo y bu'r ddarpariaeth yn dda o ran lledaenu gwybodaeth a chwblhau gwaith dilynol. Honnwyd yn aml nad oedd prosiectau'n dod i ben trwy wneud dim mwy na ffeilio adroddiad terfynol yn y swyddfa, er enghraifft, ond bod rhanddeiliaid allweddol yn cymryd canfyddiadau prosiectau cwmpasu a/neu gymhwysol amrywiol NC ac yn ymgysylltu â nhw. Roedd rhai ymatebwyr o Dimau Troseddau Ieuencid yn teimlo bod ymrwymiad i'r math hwn o waith dilynol ac ymgysylltu gan NC yn golygu ei fod yn wahanol i rai darparwyr cynhyrchion ymchwil

cymhwysol eraill (y gellid tybio eu bod yn ddarparu'r hyn y maent yn cael eu talu i'w ddarparu, ac yna'n gadael fel petai).

3.1.3 *Gwaith i gefnogi Timau Troseddau Ieuentid*

Mae Nacro Cymru hefyd wedi ymwneud â chefnogi Timau Troseddau Ieuentid unigol dros y blynyddoedd – o ran ddarparu gwybodaeth a chynghor i'r rhai sy'n gofyn i'r sefydliad am hynny, ac o ran rhaglenni cymorth â phwyslais mwy penodol sy'n cynnwys sawl gwahanol ffrwd waith. Er enghraifft, defnyddiwyd rhaglenni cymorth â phwyslais mwy penodol ar gyfer Timau Troseddau Ieuentid y nodwyd eu bod yn cael "trafferth" â materion ymarfer penodol, neu y nodwyd mewn adroddiadau arolygu bod ganddynt wendidau penodol o ran ymarfer.

Mae'r ffrwd waith hon wedi amrywio'n eang yn ymarferol, o gymorth a chynghor peripatetig hynod anffurfiol i raglenni cymorth amlweddol a chydgyssylltiedig yn cynnwys sawl maes ymarfer rhyng-gysylltiedig. Disgrifir y math hwn o ddarpariaeth yn fwy manwl yn y ddwy adran ganlynol.

3.1.3.1 *Cymorth "yn ôl y galw"*

Mae adborth y cyfweiliadau yn awgrymu bod rhai cynrychiolwyr Timau Troseddau Ieuentid o'r farn bod NC yn rhyw fath o "adnodd gwybodaeth" (fel y dywedodd un ymatebwr) y gallant ei ddefnyddio i gael cynghor cyflym yn dibynnu ar angen unigol. Awgrymodd tua dau o bob tri o gynrychiolwyr Timau Troseddau Ieuentid eu bod yn defnyddio NC fel hyn, ac roedd sylwadau fel y canlynol yn nodweddiadol:

Rydym hefyd yn dal i ddefnyddio Nacro ar sail ad hoc - yng nghyswllt polisïau a chanllawiau, arferion gwaith ac ati. Os oes angen rhywfaint o wybodaeth arnom, neu gymorth gydag ymholiad.

[Cyfwelydd] Ydych chi'n golygu eich bod yn codi'r ffôn ac yn siarad â nhw am y pethau hyn?

Ydw. Gallwn godi'r ffôn i gael cynghor. Nid drwy'r amser, ond nawr ac yn y man. Rwyf wedi ei wneud fy hun ambell waith [yn ddiweddar].

ymatebwr 19

Byddwn yn eu ffonio'n aml i gael cynghor neu wybodaeth.

[Cyfwelydd] A fyddai pobl eraill yn eich tîm yn gwneud hyn hefyd?

Weithiau, bydden - byddwn yn dweud "ffoniwch [NC] a gofynnwch iddyn nhw". . . . Mae'n sicr yn hawdd mynd at Nacro - fel rwy'n dweud, gallwn eu defnyddio dros y ffôn ac mae aelodau eraill y tîm yn eu defnyddio hefyd. Os nad yw Nacro'n gwybod yr ateb, byddant yn dod o hyd iddo, neu'n ein cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth cywir. . . . maen nhw'n arbed amser i ni. Ac rydym yn ymddiried ynddyn nhw, heb os.

ymatebwr 14

Roedd yn ymddangos hefyd bod rhai a wnaeth sylwadau o'r fath o'r farn ei bod yn rhan o raglen waith NC i ddarparu'r math hwn o gymorth (ac efallai bod hynny'n wir yn y gorffennol, ond ni nodwyd hyn yn y rhaglen waith yn fwy diweddar):

Felly byddwn yn gofyn cwestiynau [iddyn nhw] – a oes gennych chi unrhyw achosion prawf? Unrhyw enghreifftiau, ac ati? Rydym yn eu defnyddio [nhw] fel yna. . . Rydym yn rhoi galwad [iddyn nhw]. Maen nhw wedi bod yn barod i helpu bob amser. [Maent] yn darparu'r wybodaeth bob tro. . . . Mae hynny'n ased gwerthfawr. Mae fy rheolwyr gweithrediadau yn eu defnyddio hefyd. Fyddwn ni ddim yn gwneud hynny bob diwrnod, ond mae angen hynny arnom. Rwy'n cymryd ei fod yn rhan o'u rhaglen waith.

ymatebwr 17

Mae rhai o fy nhîm yn defnyddio Nacro fel bwrdd seinio – e.e. ar faterion yn ymwneud ag ymgysylltu â phobl ifanc. Rydym yn codi'r ffôn. Nid oes problem i ni wneud hynny. Mae'r math yna o gymorth cyflym yn rhan o'r rhaglen waith.

ymatebwr 22

Fel y nodwyd uchod, nododd rhai cynrychiolwyr Timau Troseddau leuenctid nad ydynt "erioed" wedi defnyddio NC yn y ffordd hon, a chynigodd un neu ddau resymau mwy penodol am hyn hefyd:

Dwi ddim yn eu defnyddio yn ôl y galw o gwbl. Dwi ddim yn codi'r ffôn ac yn gofyn y math yna o bethau iddyn nhw, a dwi ddim yn credu bod pobl eraill yn fy nhîm yn gwneud hynny chwaith. Rwy'n credu y byddwn i'n gwybod pe baem yn gwneud hynny. Ond nid wyf i wedi.

ymatebwr 15

Ddim mewn gwirionedd. Byddwn yn ffonio'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid yn hytrach na Nacro i gael atebion i gwestiynau am ddeddfwriaeth neu faterion ymarfer anodd. Gallai [NC] roi barn i ni ar y pethau hynny, ond y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid sy'n gyfrifol, a nhw yw'r awdurdod. Y peth arall i'w ddweud yw [nad yw aelodau staff NC] yn ymarferwyr cyfredol.

ymatebwr 25

Cafodd NC a'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid eu cymharu hefyd gan ymatebwyr eraill o Dimau Troseddau leuenctid, fel ffynonellau cyngor posibl ar faterion ymarfer ac, yn fwy cyffredinol, o ran y mathau o faterion y byddent yn cysylltu â'r naill neu'r llall i holi yn eu cylch:

Pe bawn i eisiau siarad gyda'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid, rwy'n gwybod pa faterion y byddwn yn eu trafod – perfformiad, ac ati. Ond pe bawn i eisiau siarad gyda rhywun am faterion ymarfer, byddwn yn dewis Nacro. Byddwn yn mynd atyn nhw am faterion ymarfer bob amser.

ymatebwr 20

Roedd sylwadau eraill yn awgrymu bod cwestiynau am "bwy i droi atynt" yr un mor berthnasol i dybiaethau ynglŷn â pha mor ymatebol a dibynadwy yw'r sefydliad, ag i dybiaethau am arbenigedd penodol:

Wrth ddefnyddio unrhyw un arall, byddai'n rhaid i chi ddatblygu'r ymddiriedaeth yna eto ac mae'n cymryd amser. Weithiau, rwy'n ffonio'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid ac yn gofyn, 'ydych chi'n gwybod unrhyw beth am hyn?' Nid yw eu hymatebion yn agos at fod mor ddefnyddiol. . . . Ni fyddwn yn defnyddio'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid o

anghenraid ar gyfer y pethau y byddwn yn ffonio Nacro amdanynt - dim ond weithiau. . . . Yn hytrach, gallem e-bostio rheolwyr Timau Troseddau leuenctid eraill am bethau o'r fath, gan ein bod yn adnabod ein gilydd yn dda iawn. Felly weithiau rydych yn gofyn i'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid ond maen nhw'n dweud 'beth am ofyn i reolwyr y Timau Troseddau leuenctid eraill? Os byddwch yn clywed hynny unwaith, yna'r tueddiad yw peidio â gofyn eto.

ymatebwr 22

Mae [NC] yn gweithredu fel ffynhonnell wybodaeth. Gallwn eu ffonio a gofyn "a ydych chi'n gwybod am unrhyw Dimau Troseddau leuenctid sy'n gwneud xyz?" Felly yn y ffordd honno, maen nhw wedi chwarae rhan yn y broses o rannu arferion da. . . Oherwydd y trosiant yn Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid⁵ nid ydym yn tueddu i wneud hynny gyda nhw.

ymatebwr 23

Rydym yn dychwelyd at rai o'r materion hyn yn adran 3.3 (ar asesu ansawdd), ac adran 4.1 (sy'n canolbwyntio ar ddarparwyr eraill).

3.1.3.2 Rhaglenni â phwyslais penodol i gynorthwyo Timau Troseddau leuenctid unigol

Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r adran hon, mae rhaglen waith NC wedi cynnwys cyfnodau o waith mwy dwys gyda Thimau Troseddau leuenctid unigol, yn canolbwyntio weithiau ar ganfyddiadau Adroddiadau Arolygu beirniadol, neu er mwyn paratoi ar gyfer arolygiadau neu adolygiadau'r dyfodol.

Mae gwaith o'r math hwn wedi cynnwys:

- archwiliadau o ffrydiau ymarfer penodol (e.e. defnyddio dulliau safonol a ddefnyddir gan Arolygwyr);
- cymorth i aelodau staff allweddol Timau Troseddau leuenctid i ddrafftio polisïau a gweithdrefnau;
- "ffug" adolygiadau o gofnodion/adroddiadau achosion sy'n bodoli eisoes, a
- hyfforddiant wedi'i dargedu (e.e. ar ysgrifennu adroddiadau, asesiadau, dulliau o ymgysylltu â phobl ifanc a rheoli risg).

Mewn rhai achosion, mae'n ymddangos bod yr elfen hyfforddiant yn y math hwn o gymorth â phwyslais penodol wedi bod yn eithaf dwys – dywedodd rheolwr un Tîm Troseddau leuenctid ei fod wedi derbyn cyfanswm o rhwng 10 a 15 diwrnod hyfforddiant yn ystod un o'r rhaglenni cymorth hyn, er enghraifft.

⁵ Roedd y siaradwr yn yr achos hwn yn cyfeirio at y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid yng Nghymru yn hytrach na Llundain.

Roedd rhanddeiliaid a oedd wedi derbyn cymorth o'r fath yn weddol gadarnhaol ynglŷn ag ef yn gyffredinol, a pha mor berthnasol ydoedd i rannau penodol o'u hymarfer. Ond er i rai o'r ymatebwyr hyn gynnig sylwadau hirfaith ar y cymorth hwnnw, roedd yn anodd cynnwys sylwadau penodol yn yr adran hon am resymau cyfrinachedd.

Archwiliodd y tîm gwerthuso Adroddiadau Arolygu ar gyfer Timau Troseddau Ieuencid ledled Cymru hefyd, er mwyn cadarnhau rhai o'r honiadau a nodwyd am ddiffygion o ran Timau Troseddau Ieuencid unigol, ac i roi rhai o'r disgrifiadau a roddwyd i ni am gyfraniadau NC a'u heffeithiau yn eu cyd-destun. Roedd y wybodaeth o'r ddwy ffynhonnell hyn yn weddol gyson.

Rhoddir rhagor o sylwadau am ansawdd y gwaith hwn yn adran 3.3 ac am ei effaith yn adran 3.4.

3.1.4 Gwaith gyda grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuencid Cymru

Sefydlwyd Rheolwyr Timau Troseddu Ieuencid Cymru yn 2000 i weithredu fel fforwm ambarél lle gallai Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru, fel grŵp, ystyried datblygiadau ym maes cyfiawnder ieuencid, ac effaith y rhain ar arferion Timau Troseddau Ieuencid, a lle gallent hefyd drafod a chytuno ar safbwynt ar y cyd ar bynciau allweddol.

Mae'r grŵp yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn fel rheol, a chynhelir y cyfarfodydd (sy'n parhau dros gyfnod o ddau ddiwrnod) ar sail gylchol mewn lleoliadau amrywiol ym mhob cwr o Gymru. Etholir Cadeirydd ac Is-gadeirydd y grŵp am gyfnod o ddwy flynedd, ac mae aelodau'r grŵp hefyd yn cynrychioli rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru mewn pwyllgorau a rhwydweithiau eraill.

Roedd 17 o'r 18 o Dimau Troseddau Ieuencid yng Nghymru yn cael eu cynrychioli gan y grŵp ar adeg y gwaith ymchwil (nid oedd Tîm Troseddau Ieuencid Bro Morgannwg yn cymryd rhan).

Mae Nacro Cymru wedi gweithio gyda grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuencid Cymru ers ei sefydlu, ac mae'r grŵp wedi bod yn rhan bwysig o rwydwaith cyfiawnder ieuencid NC yng Nghymru ers yr adeg honno. Mae NC hefyd wedi darparu sawl ffrwd allweddol o gymorth i'r grŵp dros y blynyddoedd:

- cymorth gweinyddol/logistaidd ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau Rheolwyr Timau Troseddu Ieuencid Cymru,
- cymorth i ddatblygu a chynnal a chadw gwefan y grŵp, a
- chymorth i ddatblygu a dosbarthu papurau sefyllfa ac ymatebion y grŵp i ymgynghoriadau.

Mae'n sicr bod y ffaith bod NC yn gweithio gyda grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuencid Cymru wedi codi materion dadleuol yn ystod y gwerthusiad, ac roedd adborth ar y ffrwd hon o waith NC hefyd yn tueddu i amrywio'n eang yn ôl "buddiant y rhanddeiliad". Roedd sylwadau cynrychiolwyr Timau Troseddau Ieuencid yn dueddol o fod yn gadarnhaol iawn ac yn debygol o ganmol cyfraniad Nacro Cymru at y gwaith hwn, er enghraifft, ac roedd

ymatebwyr ar wahân i'r Timau Troseddau Ieuencid yn fwy tebygol o gwestiynu a ddylai sefydliad fel Nacro Cymru fod yn darparu gwasanaethau o'r fath o gwbl, o ystyried ei fod yn cyflawni gwaith a ariennir i Lywodraeth Cymru.

Roedd yr anghytuno'n fwyaf eglur efallai o ran darpariaeth y ffrwd gyntaf uchod (ac o ran cymorth fel cymryd cofnodion yng nghyfarfodydd grŵp Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru yn benodol), ond roedd hefyd yn amlwg o ran cymorth a ddarparwyd gan Nacro Cymru i ddatblygu papurau sefyllfa ac ymatebion i ymgynghoriadau perthnasol.

O ran yr olaf hwn, cafwyd awgrym nad oedd aelodau grŵp Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru bob amser mor ymwybodol o gynnwys penodol ymatebion swyddogol y grŵp ag y byddent pe nai bai NC yn eu cynorthwyo i'w drafftio. Mae'n debyg bod y mater hwn yn gysylltiedig ag ymddiriedaeth y grŵp yn NC yn fwy cyffredinol. Roedd yn ymddangos i'r tîm ymchwil bod hyn yn debyg i achosion lle mae arweinwyr awdurdodau lleol yn dirprwyo'r gwaith o ddrafftio dogfennau allweddol i aelodau staff a ddewisir yn ofalus ac yna'n ystyried bod y mater wedi'i ddatrys – heb gymryd fawr o ran yn y broses wedi hynny, o bosibl gan wneud dim mwy na “chymradwyo” mewn modd gweddol arwynebol. O'r safbwynt hwn, gall aelodau staff cymwys yr ymddiriedir ynddynt beri i'r sefydliad orffwys ar ei rwyfau i ryw raddau, er bod yr hunanfodlonrwydd wedi'i seilio'n gadarn ar ddyfarniadau blaenorol ynglŷn â gallu a'r hyn a gyflawnwyd. I'w roi mewn ffordd arall, roedd yn ymddangos o rywfaint o'r adborth gan ymatebwyr yr ystyriwyd bod NC yn “ddwylo diogel” o'r safbwynt hwn.⁶

Roedd safbwyntiau yn amrywio'n eang ymhlith yr ymatebwyr ynglŷn â chadw cofnodion, fel y nodwyd yn gynharach, ac roedd yr ymatebwyr nad oeddent o Dimau Troseddau Ieuencid yn dueddol o dynnu sylw at y sefyllfa ryfedd, yn eu tyb nhw, bod sefydliad gwirfoddol yn darparu ysgrifenyddiaeth i grŵp Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru, a sefydlwyd gan ei aelodau ar gyfer ei ddibenion a'i fuddiannau eu hunain wedi'r cwbl. Roedd aelodau grŵp Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru ar y llaw arall, yn dueddol o nodi pa mor anodd a thechnegol oedd y ffrwd hon o waith NC, a sut y mae angen sgiliau cymharol unigryw y byddai'n anodd dod o hyd iddynt yn unrhyw le arall.

Yn gryno, roedd yr adborth ar y materion hyn yn dueddol o amrywio nid o ran tybiaethau am ansawdd neu werth y gwaith hwn i grŵp Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru eu hunain, ond am ei statws neu pa mor briodol ydyw – rydym yn dychwelyd at y mater hwn ar ddiwedd yr adran hon.

Fel y nodwyd uchod, roedd sylwadau ymatebwyr o'r Timau Troseddau Ieuencid yn gyson gadarnhaol am gymorth NC i grŵp Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru yn gyffredinol, er ei bod yn werth nodi mai ymatebwyr o'r Timau Troseddau Ieuencid oedd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd, fel y mae'r ffigurau yn Nhabl 1 yn ei awgrymu.

⁶ Fel y nodwyd yn adran 3.2, eglurodd Llywodraeth Cymru yn fwy diweddar i Nacro Cymru nad yw'n rhan o'r rhaglen waith flynyddol a ariennir i gynorthwyo grŵp Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru gyda dogfennau ymgynghori a gwaith tebyg.

Cynigiodd mwyafrif aelodau grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru sylwadau ar “annibyniaeth” NC, ac ar y wybodaeth gefndir a’r arbenigedd a gyfrannwyd at y ffrwd waith hon:

Maen nhw’n bartner allweddol i Reolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru. Maen nhw’n cyflawni swyddogaeth bwysig iawn i hwyluso’r gwaith y mae rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid yn ceisio ei wneud. Mae ganddynt swyddogaeth unigryw yn y cyswllt hwn gan eu bod ar y tu allan; nid ydym yn atebol i’n gilydd. Ond maen nhw’n ffrind beirniadol i reolwyr Timau Troseddau Ieuenctid, ac yn hwylusydd proffesiynol. Mae gan reolwyr Timau Troseddau Ieuenctid barch mawr tuag at yr unigolion hynny. Maen nhw’n ffrind beirniadol sy’n cael ei barchu’n fawr. . . . mae Nacro yn gofalu ein bod yn canolbwyntio ar y dasg, yn broffesiynol iawn. Nid oes ganddynt unrhyw agenda. . . . Heb Nacro, byddem yn cilio i wneud dim mwy na rhedeg ein gwasanaethau ein hunain. Byddai’r gwaith strategol yn dioddef.

ymatebwr 16

Mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn i mi. Llygaid annibynnol, ac mae’r amser [ganddynt] i wneud hynny i ni.

ymatebwr 11

Mae [NC] wedi gweithio gyda ni ar y wefan ac wedi ein helpu i ddod at ein gilydd o ran dogfennau ymgynghori. [Maent] yn edrych ar y pethau hynny â llygaid newydd, ac yn ein herio hefyd. . . . [Maent] yn dweud wrthym “Dwi ddim yn siŵr a yw hyn yn iawn” ac yn rhoi gwybod i ni pam. Mae [ganddynt] feddyliau eglur ac maent yn helpu i’n llywio i gasgliad y gall pob un ohonom ei dderbyn. . . .Rwy’n credu bod [eu] hannibyniaeth yn rhan allweddol o pam [maent] yn gallu cyflawni’r swyddogaeth hon.

ymatebwr 14

Ond y prif gyfraniad sy’n effeithio ar fy swyddogaeth i yw’r gwaith y mae Nacro Cymru yn ei wneud gyda grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru. . . . Mae’r swyddogaeth y maent yn ei chyflawni o ran y grŵp hwn yn hollbwysig. Heb fod yn bersonol, rwy’n credu bod cryfder yno o ran yr unigolyn sy’n gwneud y gwaith. [Mae’n] gwybod beth sy’n digwydd gyda Llywodraeth Cymru a phethau eraill ym maes Cyfiawnder Ieuenctid. [Mae’n] adnabod y maes yng Nghymru mor dda, felly rydym yn cael rhywfaint o werth o’r cyfranogiad [hwnnw] yn anuniongyrchol mewn ffordd. . . . Ond mae’n teimlo fel bod llygaid ffres yno. Rhywun sydd ychydig yn fwy gwrthrychol ac yn gallu ein herio fel ffrind beirniadol.

ymatebwr 19

Cafwyd anhawster o ran y ffaith nad oedd cyfiawnder ieuenctid wedi’i ddatganoli wrth gwrs. Felly roedd Nacro yn sicr yn gynghreiriad i Dimau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru ar yr adeg honno, ac roedden nhw yn deall y cyd-destun Cymreig. . . . Fe wnaethom ni fel rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru ffurfio grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru fel y gallem ddechrau dylanwadu ar bolisi’r Llywodraeth yn ogystal â lleisio agenda Cymru er mwyn cael blaenoriaeth gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. . . . Helpodd Nacro ni gyda hyn, ein helpu i gymryd cam yn ôl a dweud wrthym beth ddylem ni fod yn ei wneud. Nhw oedd ein brocer didwyll yn hynny, a darparwyd gwasanaeth hwyluso o ansawdd uchel ganddynt. . . . Ar ôl ychydig, roedd

gennym grŵp o bobl a oedd yn gwybod ble roedden nhw eisiau mynd, ond nid oedd gan y grŵp yn ei gyfanrwydd yr arbenigedd mewn rhai meysydd i ddechrau cyflawni. Felly roeddem ni am i Nacro ein helpu gyda hynny hyd yn oed yn fwy. . . . Cydnabuwyd gennym wedyn bod angen datblygu ein cymorth gweinyddol ar gyfer grŵp Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru. Felly cytunwyd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i ni gael rhywfaint o'r amser a gomisiynwyd gan Nacro. . . . Yna, unwaith roedden nhw gennym ni, fe wnaethom ni eu defnyddio.

ymatebwr 18

Mae'r sylw diwethaf yn ddiddorol, yn rhannol oherwydd ei fod yn awgrymu bod yr ymatebwr yn deall bod "darpariaeth weinyddol" yn rhan o fath o gymorth y cytunwyd arno'n swyddogol, er bod darpariaeth o'r fath yn ymddangos braidd yn ddadleuol ymhlith yr amrywiaeth o adborth. Cyfeiriodd ymatebwyr eraill o Dimau Troseddau Ieuencid at y "trefniant" hwn hefyd:

Mae'r gwaith hwn wedi bod yn hollbwysig. Ni fyddem erioed wedi gallu creu'r gallu i wneud hynny. Heb [NC], ni fyddai wedi datblygu mewn ffordd gystal o gwbl. . . . Roeddem ni yng Nghymru yn arfer cael ein cynnwys yn y ffordd o feddwl a oedd yn canolbwyntio ar Lundain, wrth ystyried Cyfiawnder Ieuencid. Dyna pam y sefydlwyd grŵp Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru; roedd angen i ni wneud hynny. Ond rydym wedi gorfod ariannu hynny rhyngom. Rydym ni'n rhoi darnau bach i mewn bob amser. Nid yw'r un math o adnoddau gennym â'r gymdeithas yn Lloegr. . . . Wn i ddim gwybod sut y digwyddodd hi fod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n fodlon rhoi'r adnodd hwnnw ar sail fwy cytundebol. . . . Roedd hwn yn adnodd hynod werthfawr. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o Gyfiawnder Ieuencid, ond hefyd o'r cyd-destun Cymreig.

ymatebwr 15

Awgrymwyd hefyd gan aelodau grŵp Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru bod cyfraniad NC at waith y grŵp mewn cyfarfodydd yn cynnwys amrywiaeth llawer ehangach o sgiliau nag y byddai eu hangen ar gyfer "cadw nodiadau" mwy arferol:

Mae swyddogaeth [NC] yna'n ddefnyddiol iawn. Yn ogystal â chadw'r cofnodion a gwneud y gwaith cydgysylltu, [maent] yn dod [â'u] gwybodaeth gyda [nhw] hefyd. Ond [maen nhw'n] llawer mwy annibynnol – na'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, Llywodraeth Cymru ac yn y blaen. [Byddant] bob amser yn gwneud gwaith dilynol ac yn cysylltu'n ôl â ni. . . . Byddwn i'n poeni am gael pethau'n anghywir. Cofnod gweithredoedd er enghraifft. Nid yw'n hawdd deall rhai o'r trafodaethau, hyd yn oed fel rheolwr Tîm Troseddau Ieuencid. Felly mae eu cael [nhw] yn wych. Mae'n dda bod y cofnodion yn cael eu hystyried yn annibynnol ac yn gytbwys. Mae'n arfer hynod fedrus. . . . Maen nhw'n gwneud yn siŵr ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, ac mae angen hynny arnom. . . . Mae angen y cymorth.

ymatebwr 21

Mae [NC] yn cadw'r cofnodion, ond [maent] yn debycach i reolwr busnes. [Maent] yn cyflawni math o swyddogaeth cymorth strategol. Dyna'r ffordd i'w ddisgrifio. . . . Byddai gweithiwr gweinyddol safonol yn ei chael yn anodd cynnig y cymorth ysgrifenyddiaeth hwn. Mae [NC] yn gwneud mwy na dim ond cadw nodiadau. [Maent]

yn atgoffa pobl o bethau, yn defnyddio [eu] gwybodaeth i hysbysu'r drafodaeth. Rydym weithiau'n cael trafodaethau chwyrn mewn cyfarfodydd grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuencid Cymru (sy'n gyfarfodydd dau ddiwrnod), ac mae [NC] yn gallu llywio hynny. [Maent] yn darparu rhywfaint o ffocws. Byddem yn colli llawer hebbynt.

ymatebwr 25

Disgrifiodd ymatebwr arall waith cymorth NC yn fwy cyffredinol fel “glud” sydd wedi helpu'r grŵp i gytgordio gweithgareddau amrywiol:

Mae eu swyddogaeth wedi bod yn un gadarnhaol erioed. Yn darparu'r cysondeb, y profiad. Rhyngwyneb â Llywodraeth Cymru. Mae wedi bod yn ddefnyddiol o ran cydgysylltu ymatebion i ymgynghoriadau hefyd. Maent wedi cefnogi dull o weithio ar lefel Cymru gyfan a dweud y gwir. Ceir problemau, wrth gwrs, yn yr ystyr nad oes gan Dimau Troseddau Ieuencid yng Nghymru (a grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuencid Cymru yn benodol) lawer o adnoddau. Nacro Cymru fu rhywfaint o'r glud y bu ei angen i ddal pethau at ei gilydd.

ymatebwr 23

Fel y mae'r sylwadau diwethaf hefyd yn awgrymu, roedd rhai ymatebwyr yn ymwybodol iawn o'r hyn allai ddigwydd yn sgil colli'r math yna o swyddogaeth gefnogi:

Mae'r cymorth i grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuencid Cymru yn wych, ac mae Nacro yn helpu gyda hynny. Rydym yn rhannu ein hatebion ymgynghori er enghraifft. Bydd Nacro yn cynorthwyo gyda hynny. . . byddai'n gas gen' i ei golli.

ymatebwr 13

Cynorthwyo gydag ymatebion i ymgynghoriadau ar ran grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuencid Cymru, mae hynny'n enfawr.

ymatebwr 20

Mae'r grŵp yn hollbwysig i ni. . . . mae'n golygu bod â'r wybodaeth ddiweddaraf, ac mae o fudd mawr. Mae'r ffaith bod Nacro ar gael yn ased gwirioneddol.

ymatebwr 12

Mae [NC] yn derbyn llawer o waith gan y grŵp. [Maent] yn gweithio gyda grwpiau bach weithiau, i lunio papur sefyllfa o dro i dro. Yna rydym yn trafod. Allem ni ddim gwneud hynny hebbynt nhw a dweud y gwir.

ymatebwr 17

Mae'r ffaith eu bod yn ein cadw ar y trywydd cywir yn dda. [Maent yn] annibynnol hefyd; a gallant helpu i'n cydgysylltu a hwyluso rhai o'r trafodaethau. . . . Rydym wedi trafod o'r blaen beth fyddem yn ei wneud heb Nacro - nid y byddai'r arian gennym. Mae'r cymorth wedi bod yn fuddiol. Mae'n debyg y byddai'n rhaid i ni brynu rhywbeth, NEU, byddai'n rhaid i ni ei wneud ein hunain. Efallai y gallai rhai elfennau gael eu gwneud gan rywun arall. Efallai y gallai cyn-reolwyr Timau Troseddau Ieuencid ei wneud er enghraifft. Ond ceir manteision eraill i rai o'r pethau rydym yn eu cael gan Nacro hefyd - maen nhw'n gwneud gwaith cyfiawnder troseddol er enghraifft.

ymatebwr 15

Yn olaf, er ei bod yn ymddangos bod aelodau grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru yn gwbl ymwybodol o werth cael cymorth gan Nacro Cymru (yn enwedig yn yr hinsawdd sydd ohoni o ran gwariant cyhoeddus), nid oedd unrhyw dystiolaeth eu bod yn cymryd adnodd o'r fath yn ganiataol.

A dweud y gwir, awgrymodd rhai bod y ffaith bod adnodd o'r fath yn bodoli yn dystiolaeth o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i arfer da ym maes cyfiawnder ieuenctid – ac efallai hefyd i grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru yn fwy uniongyrchol, fel “ased” allweddol ar gyfer cyflawni amrywiaeth o ymrwymadau polisi ac ymarfer ym maes cyfiawnder ieuenctid. Fodd bynnag, roedd yn amlwg hefyd bod y posibilrwydd y gellid cwtogi ar wasanaeth o'r math hwn yn yr hinsawdd sydd ohoni yn cael ei dderbyn. Daeth hyn i'r amlwg yn enwedig mewn adborth ar fanteision ac anfanteision cynnal proses dendro agored ar gyfer darpariaeth y gwaith hwn (a gwaith arall) (gweler 4.3).

I ddychwelyd at sut y mae ymgysylltiad NC â grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru wedi bod yn gysylltiedig â rhaglenni gwaith blynyddol NC mewn gwirionedd, roedd yn her benodol i'r tîm ymchwil ddehongli'r dystiolaeth gyffredinol. Fel y nodwyd yn gynharach, roedd adborth o'r cyfweiliadau yn arbennig yn cynnwys canfyddiadau a oedd yn gwbl groes i'w gilydd, ac roedd diffyg manylion yn y dystiolaeth ysgrifenedig weithiau hefyd.

Fodd bynnag, mae'n eglur y cyfeiriwyd at *rywfaint* o ymwneud â grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru yn rhaglenni gwaith NC - mae gwaith gyda'r grŵp wedi ei gynnwys fel rhes yn rhaglen 2010-2011, er enghraifft, ac un o'r gofynion a restrir yw datblygu hyfforddiant cynefino/gwybodaeth i reolwyr newydd Timau Troseddau Ieuenctid. Mae'r rhaglen honno hefyd yn cynnwys cyfeiriad at ofyniad cymharol benagored i weithio gyda Thimau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru ar sail genedlaethol, ranbarthol ac unigol ac ymateb i geisiadau gan Dimau Troseddau Ieuenctid am wasanaeth ymgynghori, hyfforddiant a chymorth unigol ar sail a gytunir gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru. Mae rhaglenni eraill yn cynnwys cyfeiriadau tebyg - mae rhaglen 2011-2012 yn cynnwys gofyniad i wneud rhagor o waith ar “adroddiadau arolygu datganoledig”, ac i weithio gyda grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru a Thîm y Fro i hwyluso darlun cyffredinol o'r camau a gymerwyd ledled Cymru mewn ymateb i Adroddiad yr Arolygiaethau Datganoledig o Dimau Troseddau Ieuenctid.

Mae'r dystiolaeth gyffredinol yn ei gwneud yn eglur hefyd y byddai pob parti yn amlwg yn tybio bod rhai mathau o ymgysylltiad â grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru, nad ydynt yn cael eu crybwyll yn uniongyrchol yn y rhaglen waith, yn berthnasol i ffrydiau gwaith eraill sydd yn cael eu crybwyll yn benodol. Pe byddai cyswllt â'r grŵp yn cynorthwyo NC gydag ymarfer mapio er enghraifft, mae'n amlwg y byddai'n ffordd fwy cost effeithiol i gyflawni'r dasg honno, yn hytrach na chysylltu â rheolwyr pob Tîm Troseddau Ieuenctid yn unigol.

Yn fwy cyffredinol, pe bai gwaith cyfiawnder ieuenctid strategol yn cael ei gynorthwyo'n fawr trwy hwyluso perthynas gadarnhaol gyda rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid ledled Cymru, er enghraifft, mae'n debyg y byddai'r holl randdeiliaid yn cytuno y dylai'r darparwr gymryd camau i wneud hynny mewn ffordd a fyddai'n debygol o arwain at berthynas gynhyrchiol - a byddai'n ymddangos bod cysylltu â nhw trwy grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid

Cymru yn ffordd gost effeithiol ac effeithlon o wneud hyn. Mewn geiriau eraill, nid yw'r dulliau o feithrin cysylltiadau da yn cael eu nodi'n uniongyrchol yn y rhaglen waith, ond efallai y gellid eu cyfiawnhau yn sgil yr angen i roi ffrydiau eraill a nodir ynddi ar waith yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Mae'n eglur hefyd y cyfeiriwyd at ymgysylltiad â grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru yn rheolaidd mewn adroddiadau a gyflwynwyd i'r cyllidwr - yn benodol, nodwyd y mynychwyd cyfarfodydd, y cynhaliwyd trafodaethau ag is-grwpiau, y defnyddiwyd cyfarfodydd y grŵp i gychwyn proses o gasglu adborth, ac yn y blaen. Felly, mae'n rhaid bod pob parti wedi bod o'r farn bod rhywfaint o ymgysylltiad â grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru yn briodol.

Fodd bynnag, y materion pwysicaf a godwyd gan y dystiolaeth o ran y ffrwd waith hon yw pa mor bell y dylid ymestyn ymgysylltiad NC â grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru yn rhan o'r rhaglen waith swyddogol. Cyflwynwyd dadl gref a llawn perswâd gan rai ymatebwyr bod rhai agweddau ar y cymorth a amlinellir uchod ym mynd y tu hwnt i'r hyn a fyddai'n ofynnol fel rheol i gynnal proses rwydweithio gynhyrchiol. Wrth gwrs, mae gan y cyllidwr bob hawl i nodi pa fathau o waith y dylid defnyddio ei gyllid ar eu cyfer, ac o ystyried bod anawsterau eraill yn gysylltiedig â pherthynas hynod anffurfiol ac ymatebol rhwng NC a grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru (gweler rhagor yn adran 4), mae'n ddealladwy bod y cyllidwr wedi cymryd camau yn ystod cyfnod y gwerthusiad i nodi'n llawer mwy eglur beth ddylai cwmpas ymgysylltiad NC â'r grŵp fod.

3.1.5 Gwaith strategol

Yn amlwg, nid yw llawer o'r "gwaith strategol" a ddarperir gan NC fel rhan o'i raglenni gwaith blynyddol yn ffrwd waith ar wahân (e.e. yn y ffordd y gellir disgrifio hyfforddiant neu waith ymchwil). Yn hytrach, mae'n haws ei ddisgrifio fel fframwaith y gellid rhoi llawer o'r ffrydiau eraill ynddo. Cafodd llawer o'r ymarferion cwmpasu a'r prosiectau ymchwil cymhwysol a gynhaliwyd gan NC eu blaenoriaethau yn union oherwydd bod cysylltiad pendant rhyngddynt ag amcanion strategol penodol, er enghraifft.

Ond derbyniwyd llawer o sylwadau gan randdeiliaid cyfiawnder ieuenctid ar yr amgylchedd strategol y cyflawnir rhaglen waith NC ynddo (a STICG a pholisïau cysylltiedig yn benodol). Mae'r amgylchedd hwn hefyd yn darparu "grid" allweddol ar gyfer rhoi'r gwaith hwnnw mewn cyd-destun ac asesu ei gyfraniad neu ei effaith, felly mae'n werth gwneud rhai sylwadau ar hyn ar wahân, ac amlygu rhywfaint o adborth ymatebwyr ar y materion hyn.

Cyhoeddwyd *Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan* (STICG) yn 2004 ar ôl i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ei datblygu ar y cyd. Roedd cyswllt pendant rhwng y Strategaeth a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac roedd yn rhoi pwyslais mawr ar atal troseddu ac ar hawliau plant a phobl ifanc. Gan bwysleisio "hawliau" a mabwysiadu agwedd gyfannol, y nod hefyd oedd ceisio sicrhau bod y strategaeth yn cyd-fynd â deddfwriaeth ac ymarfer ehangach y tu allan i Gymru a chyda meysydd allweddol eraill o bolisi cymdeithasol yng Nghymru a'r strwythurau darparu sy'n gysylltiedig â'r rhain.

Amlinellodd STICG bum lefel allweddol o ymyriad (h.y. ataliol, ymyriad cynnar, dedfryd gymunedol, y ddalfa ac adsefydlu) gan nodi amrywiaeth o fesurau a thargedau perfformiad ar gyfer y rhain.

Ar ôl adolygiad dilynol o STICG a'r hyn a gyflawnwyd, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Gynllun Cyflenwi yn 2009 yn canolbwyntio ar chwe maes blaenoriaeth allweddol:

- Blaenoriaeth 1: Atal troseddu tro cyntaf;
- Blaenoriaeth 2: Lleihau aildroseddu;
- Blaenoriaeth 3: Cadwraeth ddiogel lle bo angen, yn arwain at adsefydlu effeithiol;
- Blaenoriaeth 4: Cynyddu ymgysylltiad â dysgu a chyflogaeth;
- Blaenoriaeth 5: Cynyddu mynediad i lety addas, a
- Blaenoriaeth 6: Mynediad amserol at wasanaethau sgrinio, asesu a thriniaeth am gamddefnyddio sylweddau.

Roedd y ddogfen yn rhoi crynodeb o'r llwyddiannau ym mhob maes blaenoriaeth ac yn nodi mesurau perfformiad allweddol ar gyfer pob blaenoriaeth yn ystod y cyfnod 2009-11. Amlinellodd hefyd strwythurau darparu penodol a'r swyddogaeth i'w chyflawni gan bartneriaid allweddol er mwyn gweithredu'r mesurau hyn.

Nodir yn benodol yn y Cynllun bod Nacro Cymru yn cyfrannu at gefnogi Timau Troseddau Ieuenctid ac arfer da ym maes cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, a chyfeirir ato hefyd yng nghyswllt prosiectau penodol fel yr astudiaeth ar bobl ifanc a'r ddalfa.

Roedd y gefnogaeth i STICG gan amrywiaeth eang o randdeiliaid allweddol yn eithaf trawiadol yn ystod y gwaith ymchwil, er bod anghytuno o ran y graddau yr oedd modd i rai o'r amcanion fod yn fwy na rhethreg neu ddyhead – yn enwedig yng nghyd-destun cyfyngiadau difrifol ar wario gan awdurdodau cyhoeddus.

Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn "gyfatebiaeth" eglur rhwng y strategaeth a blaenoriaethau ac ymrwymïadau Nacro Cymru fel sefydliad, gan wneud cysylltiadau hefyd rhwng ffrydiau gwaith allweddol a gyflawnir gan NC a datblygiad STICG yn fwy cyffredinol.

Mae cyfatebiaeth yna, oes yn wir. Mae'n golygu cael dull gwaith cyffredin, dysgu am ymarfer effeithiol. Osgoi "cyfiawnder trwy ddaearyddiaeth". . . . Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r strategaeth trwy ddefnyddio Nacro Cymru yn y swyddogaeth honno. . . . Felly dylai'r stwff Nacro fod yn seiliedig ar weithrediad Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan. Mae wedi bod wrth gwrs – e.e. y gwaith cyfranogi. Mae hynny'n ymateb i gyd-destun Cymru hefyd. Oherwydd nid oedd y gwaith hwnnw yn digwydd yn Lloegr ar y pryd chwaith. Ac ers hynny, mae pobl yn Lloegr wedi cymryd sylw o'r agenda hon hefyd. Rwy'n poeni am golli hynny. Efallai nad rhaglen waith Llywodraeth Cymru yw'r unig ffordd o gyflawni hynny. Wn i ddim a gafodd ei threfnu yn fwriadol i gyflawni hynny, ond dyna'r ffordd y mae pethau wedi digwydd.

ymatebwr 23

Ond dylai cyflawni Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru fod yn un o'r amcanion canolog – mae'n ddogfen y cytunwyd arni, gwnaed llawer o waith ymgynghori arni ac mae pobl wedi ymrwymo iddi. Felly dylai'r hyn a gyflawnir mewn rhaglen waith gefnogi'r nodau a'r targedau yn y Strategaeth.

ymatebwr 15

Awgrymwyd gan un ymatebwr hefyd efallai fod tensiwn rhwng cefnogaeth NC i weithredu STICG a'u gwaith i gefnogi grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuencid Cymru - gan y gallai'r broses o nodi a rhannu arferion da olygu weithiau y bydd achosion unigol o arfer Timau Troseddau Ieuencid yn destun beirniadaeth ofalus - beirniadaeth a allai beryglu cysylltiadau sy'n agos fel arall ac sydd wedi datblygu dros flynyddoedd lawer (ac, mewn rhai achosion, y "gweithiwyd yn galed" i'w sicrhau, fel y dywedodd un ymatebwr o Dîm Troseddau Ieuencid). Un awgrym cysylltiedig a wnaed gan ymatebwr arall oedd mai gwella canlyniadau i bobl ifanc yw amcan allweddol STICG, ac na ddylid fyth roi blaenoriaeth i gynnal perthynas gadarnhaol rhwng NC a grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuencid Cymru ar draul y canlyniadau hynny.

Fodd bynnag, nid oedd adborth gan aelodau grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuencid Cymru yn awgrymu bod NC wedi "dal yn ôl" o ran nodi arferion da neu feirniadu arferion gwael, ac roedd eraill hefyd yn teimlo bod gan NC fel sefydliad ymrwymiad cryf iawn i STICG ei hun:

Mae gan Nacro fuddiant o'r safbwynt eu bod wedi ymrwymo i bethau fel Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan, i hawliau'r plentyn ac yn y blaen. Ond, mewn gwirionedd, mae hynny'n ein helpu i ymddiried mwy ynddynt, gan fod y pethau hynny yn rhan o'r safbwynt cyfiawnder ieuencid yng Nghymru (ac yn rhan o'r hyn y mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo iddo yma).

ymatebwr 14

Roedd ffrwd gysylltiedig o waith strategol NC yn ymwneud â'r adroddiad ar brofiad plant a phobl ifanc Cymru sydd mewn sefydliadau diogel (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2010), a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.⁷ Roedd yr adroddiad hwnnw yn cynnwys 28 o argymhellion mewn amrywiaeth eang o feysydd ac, ar ôl i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymateb i'r rhain⁸, roedd yr argymhellion yn rhoi ffocws rhannol i raglen waith NC (e.e. rhagor o waith yn canolbwyntio ar lety, ac ar anghenion dysgu ac addysgol ymhlith pobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol).⁹

⁷ Sefydlwyd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar 26 Mehefin 2007 fel un o bwyllgorau craffu'r Cynulliad; fe'i terfynwyd ar 31 Mawrth 2011.

⁸ Cyhoeddwyd yr ymateb ym mis Mehefin 2010, ac mae ar gael yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-third-assembly/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-ccc-home/cc_inquiries/cc_3_youth_justice/cc-yj-wag_response.htm. Derbyniwyd holl argymhellion y Pwyllgor ac eithrio Argymhelliad 24, a oedd yn ymwneud ag adolygiad arfaethedig o dargedau a dangosyddion perfformiad a symud tuag at fesurau "pellter a deithiwyd". Gwrthodwyd yr Argymhelliad oherwydd bod adolygiad o fframweithiau perfformiad eisoes wedi'i gynnal yn ddiweddar.

⁹ Mae adroddiad y Pwyllgor ei hun hefyd yn cynnwys 10 cyfeiriad at gyflwyniadau blaenorol i'r Pwyllgor gan NC, yn canolbwyntio ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys costau dalfa ddiogel, problemau logistaidd yn ymwneud â darparu gwasanaeth i blant Cymru yn y ddalfa, tensiynau rhwng gofal a rheolaeth a materion yn ymwneud â llety ar ôl rhyddhau.

3.1.6 Gwaith rhwydweithio/lledaenu gwybodaeth

Yn olaf, mae adroddiadau NC i Lywodraeth Cymru ar ei raglenni gwaith blynyddol wedi cynnwys cyfeiriad at amrywiaeth eang o ddigwyddiadau rhwydweithio a digwyddiadau eraill dros y blynyddoedd, er nad yw bob amser yn eglur o'r cofnodion beth yw'r gwahaniaeth rhwng gwaith o'r math hwn sydd wedi'i seilio'n benodol ar y rhaglen waith fel y'i pennir ar y cyd gan NC a'r cyllidwr, a'r hyn y mae NC wedi ei wneud yn draddodiadol fel sefydliad beth bynnag (ac yr adroddir arno fel gwaith cefndir a fyddai o ddiddordeb i'r cyllidwr, yn hytrach nag fel eitemau penodol i'w cyflawni).

Ond mae lled y gwaith hwn wedi gwneud cryn argraff, ac mae'n awgrymu i ddarllenwr o'r tu allan bod "ymwybyddiaeth o'r datblygiadau diweddaraf" yn flaenoriaeth gref i NC, fel y nodwyd gan un ymatebwr.

Rydym hefyd wedi cynnwys gwaith uniongyrchol gyda grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru yn rhan o'r ffrwd hon, ac wedi cynnwys manylion yn y golofn berthnasol yn *Atodiad 3*.

3.2 Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru a Nacro Cymru – disgrifio swyddogaethau

Roedd rhai o'r materion mwy diddorol a amlygwyd yn y dystiolaeth - ac yn y cyfweiliadau yn benodol - yn ymwneud â'r ffordd y mae swyddogaethau gwahanol randdeiliaid allweddol ym maes cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru wedi datblygu ac yn cael eu deall.

Mae'r ffordd y mae'r swyddogaethau hyn wedi datblygu dros y blynyddoedd yn ymwneud â'r ffaith bod cyfiawnder ieuenctid ei hun yn faes nad yw wedi'i ddatganoli yng Nghymru er bod amrywiaeth eang o feysydd eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ymarfer cyfiawnder ieuenctid, wedi'u datganoli, fel y nodir yn aml mewn dogfennau¹⁰.

Amlygwyd rhai o'r materion hyn eisoes yn rhai o'r sylwadau blaenorol (e.e. yn ymwneud â darparu cymorth "yn ôl y galw" yn adran 3.1.3.1, a'r swyddogaeth ysgrifenyddiaeth i grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru yn adran 3.1.4), ac o ganlyniad gofynnodd y tîm ymchwil gwestiynau manylach ynglŷn â "thensiynau" posibl rhwng y swyddogaethau hyn.

Roedd yn amlwg bod mwyafrif yr ymatebwyr yn sylweddoli bod gan y gwahanol randdeiliaid wahanol "fuddiannau" sefydliadol, ond nid oeddynt yn tueddu i alw'r rhain yn densiynau:

Dim i mi ei weld. Mae'n debyg bod rhywfaint o densiwn rhwng grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid bob amser. Am eu bod

¹⁰ Trafodwyd materion yn ymwneud â datganoli a strwythurau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru yn drylwyr mewn mannau eraill – i gael disgrifiad defnyddiol o gyfiawnder ieuenctid yn y cyd-destun Cymreig, gweler Neal (2007) ac, yn fwy diweddar, Drakeford (2010); cyhoeddwyd adroddiad hynod ddefnyddiol ar wahân yn canolbwyntio ar ddatganoli gan Morgan (2010) hefyd, ac mae ymateb y Llywodraeth ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (2011).

nhw'n trosglwyddo pethau i ni eu gwneud, felly mae wastad dipyn o densiwn am hynny. Ond maen nhw'n densiynau cynhyrchol bob amser. Nid wyf yn teimlo ein bod yn cael ein cyfarwyddo. Mae'n fwy hyblyg nag yr oedd yn arfer bod.

ymatebwr 19

Na. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn dda am gynhyrchu syniadau, ond heb fod yn rhy lym. Mae'n monitro, yn rhoi cyfarwyddyd ac ati. Ond o fewn hynny, mae'n gadael i'r Timau Troseddau Ieuenctid ffynnu ar eu pen eu hunain. Gall Nacro ganolbwyntio ar y manylion a dweud dyna beth allwn ni ei wneud gyda hyn. Mae'n rhaid i Dimau Troseddau Ieuenctid fod yn ddyfeisgar ac yn greadigol - mae llawer ohonom yn gyfrifol am ardaloedd gwledig mawr, ac mae angen hyblygrwydd arnom. Ond gall Nacro ddweud, 'iawn, mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid angen i hyn gael ei wneud, a dyma sut y gallech chi ei wneud'. Felly nid oes tensiwn mewn gwirionedd - mwy o rannu dyletswyddau.

ymatebwr 12

Na. Fyddwn i ddim yn dweud hynny. Mae'r rhain yn wahanol swyddogaethau. Gall y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid fod yn cyfeirio'r hyn rydym yn ei wneud, ac maent yn gyfrifol am rywfaint o'r cyllid, felly mae'n rhaid i ni wrando, yn amlwg. Mae Nacro yn annibynnol.

A yw hynny'n ddefnyddiol?

Ydy, ond dim ond oherwydd bod ganddyn nhw'r wybodaeth a'r sgiliau. Nid yw erioed wedi bod yn gwbl eglur beth yw'r cysylltiadau - rhwng Nacro a Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac yn y blaen.

ymatebwr 15

Na. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw densiwn. Wn i ddim pam y byddai tensiwn. Mae Nacro mewn sefyllfa unigryw gan eu bod yn annibynnol iawn. Mae hynny'n ddeniadol i ni gan nad ydyn nhw'n ceisio gwrthio barn benodol. Mae gennym wahanol berthynas â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn amlwg. Ceir amodau grant ar gyfer eu cyllid. Pe bai'r cyllid yn mynd i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, byddai'r cynnyrch yn wahanol. Weithiau, nid yw'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn deall bod Timau Troseddau Ieuenctid yn atebol iawn yn lleol. Rwy'n atebol i bob math o bobl yn lleol. Nid y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yw cyllidwr mwyaf Timau Troseddau Ieuenctid mewn gwirionedd.

ymatebwr 16

Nodwyd yn aml fod y “byd cyfiawnder ieuenctid” yng Nghymru yn cynnwys cysylltiadau ar draws rhanddeiliaid allweddol sydd â dimensiwn personol cryfach na'r hyn y byddai rhywun yn ei weld yn Lloegr, er enghraifft. Mae llawer o'r “ffigyrau allweddol” wedi adnabod ei gilydd ers blynnyddoedd lawer, ac roedd tueddiad i ymatebwyr feddwl o safbwynt unigolion penodol sydd mewn swyddi allweddol, yn ogystal â swyddogaethau sefydliadol rhanddeiliaid allweddol.

Roedd hyn yn ychwanegu hefyd at y “diffyg eglurder” tybiedig o ran swyddogaeth i ryw raddau ac, yn fwy cyffredinol, roedd rhai o weithgareddau ffigyrau allweddol yn y maes yn edrych yn rhyfedd iawn i rywun a oedd yn edrych o'r tu allan.

O ran dogfennau ymgynghori er enghraifft, mae NC wedi gweithio gydag aelodau grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuencid Cymru i ddrafftio ymatebion a phapurau sefyllfa, ond mae hefyd wedi parhau i fod yn weithgar fel sefydliad yn drafftio rhai eu hunain. O ran y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant y cyfeiriwyd ato'n gynharach er enghraifft, darparodd grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuencid Cymru ymateb i lythyr ymgynghori blaenorol y Pwyllgor,¹¹ ac ymateb uniongyrchol i'r Pwyllgor yn bersonol.¹²

Cyflwynodd NC hefyd (yn annibynnol) ei ymateb ei hun i'r ymgynghoriad,¹³ a rhoddodd dystiolaeth uniongyrchol i'r Pwyllgor yn bersonol.¹⁴ Ers hynny, fe'i gwnaed yn eglur i NC gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru nad yw'n rhan o'r rhaglen waith a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuencid Cymru gydag ymatebion i ymgynghoriadau.

3.3 Gwaith Nacro Cymru – asesu ansawdd

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr am eu sylwadau ar ansawdd y gwaith a ddarperir gan Nacro Cymru, a rhoddir crynodeb o'r adborth hwnnw yma ynghyd ag enghreifftiau; asesodd y tîm gwerthuso ansawdd rhai o gynhyrchion penodol NC hefyd – e.e. adroddiadau ymchwil – a chynigir sylwadau yn ymwneud â'r rhain isod.

Rhoddwyd rhai sylwadau am ansawdd gwaith hyfforddiant NC yn adran 3.1.1 eisoes, a nodwyd hefyd yn adran 3.1.2 bod ymatebwyr yn cael gwerth mawr o gynhyrchion ymchwil NC yn arbennig.

Daeth un feirniadaeth i'r amlwg yn y cyfweiliadau, yn ymwneud â pha un a oedd yn briodol i NC fod yn gwneud gwaith ymchwil o gwbl, a'r farn oedd y dylai gwaith ymchwil gael ei wneud gan ymchwilwyr wedi'u hyfforddi. Gofynnodd y tîm i'r rhai a fynegodd y safbwyntiau hyn am unrhyw enghreifftiau o gynhyrchion ymchwil NC y gellid eu beirniadu'n benodol, ond ni roddwyd unrhyw enghreifftiau.

Fel y nodwyd yn gynharach, archwiliodd y tîm gwerthuso rai o'r prosiectau ymchwil allweddol a gynhaliwyd gan NC ac a oedd â phwyslais ar "adolygiad gan gymheiriaid" hefyd, ac roedd yn ymddangos i'r tîm ymchwil yn gyffredinol bod y dulliau, y dadansoddiad ac arddull yr adroddiad yn gwbl briodol. Fodd bynnag, roeddem o'r farn bod rhai o'r adrannau adolygu llenyddiaeth mewn adroddiadau penodol yn llai cynhwysfawr nag y gallent fod, a nodwyd

¹¹ Ar gael yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-third-assembly/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-ccc-home/cc_inquiries/cc_3_youth_justice/cc_3_youth_justice-responses/cc_3_youth_justice-responses-yj003.htm

¹² Ar 9 Gorffennaf 2009; ar gael yn: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-third-assembly/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-ccc-home/bus-committees-third-ccc-agendas.htm?act=dis&id=138205&ds=7/2009>

¹³ Ar gael yn: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-third-assembly/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-ccc-home/bus-committees-third-ccc-agendas.htm?act=dis&id=131708&ds=7/2009>

¹⁴ Ar 11 Mehefin 2009; ar gael yn: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-third-assembly/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-ccc-home/bus-committees-third-ccc-agendas.htm?act=dis&id=132942&ds=7/2009>

gennym hefyd broblemau cymharol fân o dro i dro ar yr ochr ddylunio¹⁵. Er hynny, o ran safonau sefydledig mewn meysydd megis samplu, dadansoddi, cysondeb gweithdrefnau casglu data ac, yn bwysicaf oll, y ffordd y mae adroddiadau ymchwil NC yn cyflwyno casgliadau neu argymhellion penodol ar sail y dystiolaeth, nid oedd yr adroddiadau a archwiliwyd gennym ni yn awgrymu unrhyw ddiffygion difrifol (a hyd yn oed o ran mân feirniadaethau, yn sicr dim mwy nag y byddai gan lawer o astudiaethau academiaidd wedi'u cyhoeddi).

Os unrhyw beth, gellid dadlau bod gan adroddiadau ymchwil NC fantais bendant dros lawer o'r adroddiadau ymchwil cysylltiedig sy'n bodoli eisoes, yn yr ystyr eu bod ar gael i amrywiaeth ehangach o gynulleidfaoedd, heb aberthu safonau ymchwil sefydledig na chyflwyno casgliadau neu argymhellion nad yw'r dystiolaeth yn eu cyfiawnhau. Mewn achosion lle mae'n anodd dehongli'r gyfres ddata oherwydd bod nifer o "fygythiadau i'w dilysrwydd", mae'r adroddiadau yr edrychwyd arnynt wedi bod yn ofalus i sicrhau bod y darllenwr yn deall bod dehongliad penodol yn betrus neu'n destun amodau. Mae'r adroddiadau ar ddedfrydu yn cyfeirio at rai agweddau allweddol (ond anodd eu diffinio) ar ethos neu "ddiwylliant" proffesiynol er enghraifft, a allai fod yn gysylltiedig â'r ffordd y mae cadwyni o unigolion sy'n gwneud penderfyniadau yn gweithredu o ran pobl ifanc unigol a ddedfrydir i'r ddalfa. Nid yw'r honiad hwn yn ddadleuol mewn gwirionedd, ac mae wedi'i hen sefydlu hefyd yn y llenyddiaeth ehangach, ond mae NC yn gwneud defnydd cwbl briodol o dermau sy'n awgrymu bod dehongliadau penodol o'r math hwn yn eu gwaith ymchwil yn gredadwy er nad ydynt wedi'u profi.

Beth bynnag, mae NC wedi bod yn dda iawn am sicrhau cymorth neu gyfraniad ychwanegol os oedd yn teimlo bod angen hyn wrth ddarparu ei waith ymchwil, fel y gwelir yn y cydnabyddiaethau i rai o'u hadroddiadau terfynol - lle y nodir yn eglur pan fyddant wedi derbyn cyngor ar faterion penodol yn ymwneud â dull gwaith neu faterion ymchwil.

Ac eithrio'r cyfeiriad uchod at "bwy ddylai fod yn gwneud gwaith ymchwil", cafwyd cytundeb sylweddol ymhlith yr holl ymatebwyr bod cynhyrchion ymchwil NC yn arbennig wedi bod yn gyson ddefnyddiol ac yn uniongyrchol berthnasol i fuddiannau gweithwyr cyfiawnder ieuenctid a gweithwyr proffesiynol eraill yng Nghymru. Cymharodd un ymatebwr waith ymchwil NC a gwaith ymchwil "safonol", gan nodi yng nghyswllt yr olaf:

ni fyddech yn cael llawer ar ben hynny - y cwbl fyddech chi'n ei gael fyddai ymchwilydd, ond nid rhywun a allai wneud yr hyn y mae Nacro yn ei wneud . . . Pan fydd gennych ymchwilydd, ni fydd gennych rywun sy'n cysylltu pethau at ei gilydd o anghenraid. Dyma beth rydym ni ei eisïau, a dyna'r rhan o waith Nacro sydd o werth gwirioneddol.

ymatebwr 20

¹⁵ Gwelwyd yr hyn y byddem yn eu hystyried yn gamgymeriadau achlysurol hefyd o ran pethau fel llunio holiaduron, er bod y rhain yn fân ar y cyfan – roedd un holiadur ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid yn defnyddio graddfa Likert â'r categorïau "da iawn", "da", "digonol", "eithaf gwael", a "gwael", er enghraifft, ac nid hon yw'r gyfres orau ar gyfer graddau ansawdd. Bwriadwyd i'r holiadur gael ei lenwi gan nifer fach iawn o ymatebwyr fodd bynnag, ac archwiliwyd eu hatebion yn ansoddol hefyd. Byddai hyn wedi lleihau'r effeithiau andwyol ar ansawdd y data.

3.4 Asesu effaith gwaith Nacro Cymru

Er na fwriadwyd i'r gwaith ymchwil hwn fod yn werthusiad o effaith (ac ni fyddai hyn yn bosibl, o ystyried yr amserlen ar gyfer y gwaith), rhoddwyd pwyslais allweddol, yn amlwg, ar gwestiynau ynglŷn ag effaith gwaith Nacro Cymru wrth gasglu'r data. Fel y nodwyd yn 2.1, roedd gan y tîm ddiddordeb mewn sawl math allweddol o effaith, ac rydym wedi canolbwyntio yn yr adran hon ar effeithiau yn ymwneud ag:

- ymarfer cyfiawnder ieuenctid (ac ymarfer Timau Troseddau Ieuenctid yn benodol);
- tueddiadau ym maes cyfiawnder ieuenctid (o ran troseddu a/neu ganlyniadau adsefydlu, a "phrosesu" cyfiawnder ieuenctid), a'r
- cydgysylltiad strategol (a newidiadau cysylltiedig i lefelau ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid allweddol am faterion allweddol ac ati).

Daw tystiolaeth yn ymwneud ag effaith o sawl ffynhonnell, fel y nodir ar wahân isod, ond mae'n werth cynnig rhai sylwadau rhagarweiniol ynglŷn ag asesu effaith.

Y gwerthusiadau mwyaf defnyddiol yw'r rhai sydd wedi'u seilio ar ddisgrifiadau damcaniaethol credadwy (a fynegir yn eglur), o'r cyswllt rhwng ymyriadau penodol a newidiadau cadarnhaol neu newidiadau eraill y mae'n ymddangos bod yr ymyriadau hyn yn eu sicrhau mewn cyd-destunau penodol. Er mwyn bod yn "ddefnyddiol" yn yr ystyr hwn, mae'n rhaid i werthusiad wneud mwy na dim ond mesur newidiadau cyn ac ar ôl ymyriad (er y gall hyn fod o werth ar ei ben ei hun yn amlwg). Rhaid iddo ganolbwyntio ar y cadwyni achos hynny sy'n esbonio unrhyw wahaniaethau mewn gwahanol gyfresi o fesuriadau dros amser.¹⁶

Mae'n rhaid i werthusiad o effaith gynnwys rhyw ffordd hefyd o ffurfio cysyniad o'r hyn a allai fod wedi digwydd pe na byddid wedi cynnal yr ymyriad sy'n cael ei werthuso neu ei asesu.

I ddangos rhai o'r materion hyn trwy roi enghraifft, efallai y byddai Tîm Troseddau Ieuenctid sy'n hynod effeithiol o ran ymgysylltu â phobl ifanc yn sicrhau lefelau cydymffurfiaid uwch a, thros amser, gallai hyn effeithio ar sgoriau Adroddiadau Arolygu a thueddiadau lleol o ran aildroseddu a phrosesu. Gallai'r ffaith ei fod yn "effeithiol" yn y ffordd hon fod yn ganlyniad i drefn reoli gref a phwrpasol, ethos proffesiynol, cydgysylltiad effeithiol â phartneriaid, aelodau tîm brwdfrydig sy'n deall eu swyddogaethau ac wedi ymrwymo i fonitro a gwella ymarfer, a dull o hyfforddi a darparu sgiliau sydd wedi'i gysylltu'n agos â nodau a thargedau sefydliadol a fynegwyd yn eglur.

Byddai angen i werthusiad o'r Tîm Troseddau Ieuenctid hwnnw ganolbwyntio ar yr holl feysydd hyn (a meysydd eraill) sy'n berthnasol i newidiadau mewn ymarfer o'r math a ddisgrifir. Byddai angen casglu data yn "eang ac yn ddwfn" er mwyn ein galluogi i ddisgrifio'r

¹⁶ Mae rhai o'r materion hyn yn dal i arwain at drafodaethau bywiog yn y llenyddiaeth fodd bynnag, a cheir y prif ddadleuon rhwng y rhai sydd o'r farn mai dulliau arbrolfod mewn gwaith ymchwil cymdeithasol yw'r dulliau mwyaf cadarn sy'n bodoli – ac mai hap-brofion dan reolaeth yw'r ffynhonnell fwyaf dibynadwy o dystiolaeth yn ymwneud ag effaith – a'r rhai sy'n credu mewn dulliau realaeth wyddonol neu ddulliau "damcaniaeth newid" eraill. Gweler ARCS UK (2008) a Liddle (2008) am drafodaethau cryno ar y ddadl ynglŷn â safonau ansawdd.

newidiadau cyffredinol hynny mewn perfformiad a'u cysylltu â'r prosesau sydd, yn ôl pob golwg, yn eu cynhyrchu (a'r rheiny'n brosesau cymhleth, deinamig a rhyng-gysylltiedig fel rheol). Yn amlwg, byddai swyddogaeth darparwyr fel Nacro Cymru yn bwysig i'r "gymysgedd" honno, o ran newidiadau mewn ymarfer mewn rhai Timau Troseddau leuenctid.

Ceir sawl her allweddol o ran asesu effaith gwaith NC yn yr ystyr uchod:

➤ *mae'r mathau o ymyriadau eu hunain yn amrywio'n sylweddol*

Er bod llawer o werthusiadau o effaith yn canolbwyntio ar ymyriadau sy'n gymharol hunangynhwysol a chydlynol – fel rhaglen ymddygiad gwybyddol er enghraifft, neu ddedfryd gymunedol benodol – yn achos gwaith NC, mae'r "ymyriadau" yn amrywio'n eang, o hyfforddiant wedi'i deilwra neu ddarnau penodol o waith ymchwil cymhwysol er enghraifft, i gyswllt a chymorth â phwyslais penodol iddo i Dimau Troseddau leuenctid unigol (sydd wedi bod yn eithaf amrywiol ei hun mewn rhai achosion), i ddarpariaeth "yn ôl y galw" a gweithgareddau rhwydweithio llawer llai ffurfiol.

➤ *mae'r ymyriadau'n amrywio'n sylweddol o ran eu hamseru, eu dwyster a'u hyd*

Gweithredir ymyriadau megis hyfforddiant dros gyfnod byr iawn o amser fel rheol (un digwyddiad yn unig weithiau), ac yn yr ystyr hwn gellir ystyried ei fod yn ymyriad byr ond dwys. Gall cymorth i Dîm Troseddau leuenctid unigol, ar y llaw arall, fod yn ddwys iawn ac yn amrywiol o ran hyd - fel y nodwyd yn gynharach, mae rhai rhaglenni cymorth i Dimau Troseddau leuenctid wedi bod yn amlweddol ac wedi cynnwys llawer mwy nag un digwyddiad (ac mae'n ymddangos y'u rhoddwyd ar waith dros fisoedd lawer).

Mewn cyferbyniad, mae cymorth a chynghor "yn ôl y galw" yn ymyriad llai dwys, ond yn un sydd hefyd yn amrywio o ran hyd, tra bod gwaith cymorth i grŵp Rheolwyr Timau Troseddau leuenctid Cymru yn fwy hirdymor, ond o ddwyster isel i ganolig.

➤ *mae'r ymyriadau yn amrywio'n sylweddol o ran y ffordd y gallent sicrhau newid, a'r amser sydd ei angen i gyflawni'r newidiadau hyn*

Mewn rhai achosion, byddech yn disgwyl i ymyriad gael effaith fwy neu lai'n syth, sy'n datblygu wedyn dros amser hefyd - pe bai aelodau staff Timau Troseddau leuenctid yn derbyn hyfforddiant i newid eu dull o gynnal asesiadau er enghraifft, byddai'n ymddangos yn rhesymol disgwyl gweld newidiadau mewn ymarfer fwy neu lai ar unwaith, ac i'r newidiadau hyn fod yn amlwg dros gyfnodau hirach pe byddai'r sgiliau newydd yn briodol, yn cael eu targedu'n effeithiol, ac yn cael eu "hymwreiddio" wedi hynny. Os bydd aelodau staff yn derbyn hyfforddiant sydd â'r nod o'u hannog i fabwysiadu ffyrdd newydd o ymgysylltu â phobl ifanc ar y llaw arall, byddech yn disgwyl gallu mesur yr effeithiau tebygol yn y tymor canolig neu'n fwy hirdymor – pryd y gallai'r ymyriadau hyn fod yn gysylltiedig â thystiolaeth yn ymwneud â newidiadau i lefelau cydymffurfiaid er enghraifft (e.e. ffigurau ar ddiffyg cydymffurfio). Ac yn olaf, efallai y byddai gwaith ar y cyd gan weithgorau bach i lunio ymateb i ymgynghoriad yn cynorthwyo'r rhai sy'n cymryd rhan i egluro a blaenoriaethu materion perthnasol, ond ni fydddech yn disgwyl i hyn gael effaith "yn y maes" yn y byrdymor.

Yn amlwg, mae'r holl ffactorau hyn o gryn bwysigrwydd wrth asesu effaith gwaith NC. Yn gryno, er mwyn cynnal asesiad amddiffynadwy a chadarn o effaith gwaith Nacro Cymru, byddai angen datblygu darn o waith ymchwil yn ofalus iawn (a thros gyfnod hirach o amser) er mwyn cysylltu newidiadau mesuradwy ag ymyriadau penodol, ond hefyd er mwyn cael gwared ar y bygythiadau allweddol i ddilysrwydd (h.y. ffactorau gwahanol a allai esbonio'r newidiadau hyn yn annibynnol ar waith NC).

Er yr holl gafeatau hyn fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hon yn awgrymog iawn o'i hystyried yn ei chyfanrwydd ac, yn ein barn ni, mae'r honiad bod gwaith NC wedi cynhyrchu (neu wedi cyfrannu at gynhyrchu) rhai newidiadau cadarnhaol yn y maes yn gredadwy iawn, er nad yw wedi'i brofi.

Rydym yn gwneud rhagor o sylwadau am y mathau penodol o effaith yn yr adrannau canlynol.

3.4.1 Ymarfer cyfiawnder ieuenctid

Gall diffiniadau o “ymarfer cyfiawnder ieuenctid” amrywio'n amlwg, ond rydym wedi dehongli'r term yn weddol eang yma, fel y modd y mae gweithwyr cyfiawnder ieuenctid proffesiynol yn cyflawni eu gwaith. Caiff ymarfer yn yr ystyr hwn hefyd ei fesur mewn amrywiaeth eang o ffyrdd, er nad yw rhai agweddau ar ymarfer, yn amlwg, yn cael eu mesur o gwbl (e.e. nid yw rhai o fanylion y cysylltiadau unigol rhwng gweithwyr proffesiynol a throseddwy'r ifanc yn cael eu mesur fel mater o drefn – er eu bod yn debygol o fod yn bwysig iawn i ganlyniadau achosion).

O ran data swyddogol, mae'n ofynnol i Dimau Troseddau Ieuenctid yn benodol gyflwyno llawer iawn o wybodaeth am eu hymarfer a'u llwythi achosion i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn rheolaidd (gweler Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid 2011), a defnyddir gwybodaeth o'r cyflwyniadau hynny ar gyfer amrywiaeth eang o ddadansoddiadau canolog ac ar gyfer adroddiadau sydd ar gael yn gyhoeddus gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Defnyddir rhywfaint o'r deunydd hwn i gyflwyno adroddiadau ar dueddiadau eang ym maes cyfiawnder ieuenctid (fel newidiadau i nifer y rhai a dderbynnir i'r system am y tro cyntaf, newidiadau i'r defnydd o'r ddalfa ac yn y blaen), a chynigir sylwadau ar ddeunydd o'r math hwn yn adran 3.4.3.

Caiff “ymarfer Dimau Troseddau Ieuenctid” ei fesur a'i asesu hefyd yn rhan o arolygiadau lleol parhaus ac, fel y nodir yn adran 2.2.1, darllenodd y tîm ymchwil sampl o adroddiadau arolygu i weld a fyddai modd dangos bod newidiadau mewn ymarfer wedi'u hadlewyrchu yn y cyfresi data hynny, a chysylltu'r rheiny wedyn â gwaith gan NC.

Yn y pen draw, ni fu'n bosibl gwneud cysylltiadau o'r math hwn mewn ffordd arbennig o gadarn am rai o'r rhesymau a amlinellir uchod (gweler adran 3.4), ond hefyd oherwydd bod yr adroddiadau hyn eu hunain wedi'u cyhoeddi dros gyfnod rhy hir o amser i allu cymharu newidiadau ac ymyriadau.

Mae hefyd yn werth nodi bod ymarfer gwael a gwelliannau i ymarfer yn aml yn cael eu hachosi gan amrywiaeth o ffactorau, ac y gall fod yn eithaf anodd eu hystyried yn unigol.

Mae ymarfer gwael yn gysylltiedig weithiau ag anawsterau yn ymwneud â throsiant neu salwch staff er enghraifft, er y gall hefyd fod yn gysylltiedig â diffygion yn y drefn reoli neu mewn hyfforddiant. Adlewyrchir rhywfaint o'r cymhlethdod hwnnw yn yr adroddiadau arolygu swyddogol y cyfeirir atynt uchod – yn adroddiad arolygu 2010 ar gyfer Tîm Troseddau Ieuencid Bro Morgannwg er enghraifft, nodwyd:

Daethom ar draws tîm lle roedd nifer o faterion yn ymwneud â staffio yn llesteirio perfformiad y tîm. Roedd defnyddio staff anghymwys i reoli achosion cymhleth pan oedd pobl yn absennol yn achosi pryder. Gwelwyd tystiolaeth bod rheolwyr gweithredol yn ceisio eu gorau glas i sicrhau ansawdd yr ymarfer ond nid oeddent yn gwneud hyn yn effeithiol bob amser. Cawsom ein calonogi gan y ffordd gadarnhaol yr oedd rheolwyr achosion yn pwysu a mesur eu hymarfer ac yn ymateb i adborth yr arolygiad. Er bod ambell welliant pwysig wedi'i wneud ers yr ailarolygiad diwethaf, nodwyd bod dal angen rhagor o waith wrth asesu a rheoli *Risg o Niwed* a Diogelu. (Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi; 2010a).

Mewn achos fel hwn, ni fydddech yn disgwyl gweld effaith ar unwaith yn sgil darparu cymorth pwrpasol ym maes hyfforddiant er enghraifft, neu hyd yn oed os gwneir gwaith archwilio a chysgodi gofalus iawn gydag aelodau staff allweddol. Mae “problemau staffio” fel rheol yn deillio o amrywiaeth o ffactorau sydd, gyda'i gilydd, yn creu diffyg cyfatebiaeth rhwng cyfrifoldebau darparu craidd a'r adnoddau a'r sgiliau sydd ar gael i'w darparu.

Mewn achosion lle mae'r dystiolaeth yn awgrymu symudiad cryf iawn oddi wrth wendidau a nodwyd a thuag at welliannau mesuradwy mewn ymarfer, gallwn weld hefyd sut yr oedd cymorth gan NC yn rhan o “gymysgedd” gymhleth iawn o ffactorau a hwylusodd y gwelliannau gyda'i gilydd, yn ôl pob golwg. Yn Sir Benfro er enghraifft, arweiniodd adroddiad arolygu gwael iawn yn 2007 at ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau, a bu gwelliannau amlwg eisoes erbyn adeg ei ailarolygiad yn 2008. Erbyn adroddiad arolygu 2010, roedd y Tîm Troseddau Ieuencid wedi gwneud gwelliannau sylweddol unwaith eto¹⁷, a dywedodd yr arolygwyr fod y llwyddiant hwn “wedi'i gyflawni drwy arweiniad Rheolwr y Tîm Troseddwr Ifanc, gyda chefnogaeth ei bwrdd rheoli a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol. Cawsom fod ymarferwyr wedi gweithio'n galed i godi safonau ac i ddarparu gwaith o ansawdd da, gyda chefnogaeth asiantaethau partner.” (Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi; 2010b). Ni chyfeirir yn benodol at Nacro Cymru yn yr adroddiad hwnnw, ond awgrymwyd gan ymatebwyr a oedd yn gyfarwydd â gwaith y sefydliad yn y maes hwn ei fod wedi cyflawni swyddogaeth allweddol i sicrhau newidiadau o'r fath.

Cynigodd ymatebwyr eraill sylwadau ar “effeithiau ar ymarfer” yn fwy cyffredinol:

Mae eu cyfeiriad yn llygad ei le. Yn cael ei barchu a'i ymddiried. . . . Mae popeth y maen nhw'n ei wneud yn effeithio ar eich ymarfer.

ymatebwr 13

¹⁷ Fel y nodwyd yn yr Adroddiad, “Bu inni farnu bod yr agweddau Diogelu y gwaith wedi'u cyflawni'n ddigon da 91% o'r amser. Gydag agweddau Gwarchod y Cyhoedd, gwnaethpwyd y gwaith i leihau *Risg pob unigolyn o achosi Niwed i Eraill* ei wneud yn ddigon da 76% o'r amser, a gwnaethpwyd y gwaith i wneud pob unigolyn yn llai tebygol o aildroseddu yn ddigon da 85% o'r amser” (Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi; 2010b).

Dros y blynyddoedd, yn sicr. Maen nhw wedi cefnogi arfer da erioed.

Unrhyw effaith ar dueddiadau?

Dwi ddim yn credu ein bod cyrraedd y sefyllfa honno eto.

ymatebwr 21

Mae wedi cael effaith ar ymarfer yn bendant. Mae Nacro wedi bod yn hollbwysig i ddatblygu ymarferwyr unigol yn ogystal â diwylliant ymarfer. Ceir diwylliant o arfer gorau.

ymatebwr 12

Onid rydym yn trafod newid diwylliant tîm yma hefyd. . . . Ydym. Fy mhrofiad personol yw bod ymarfer Cyfiawnder leuenctid wedi newid. Mae rheolwyr eraill wedi dweud yr un fath. Ond i sicrhau newid ymarfer fel hyn, mae'n rhaid cael hygyrdd ac arbenigedd y darparwr yn ogystal â pharodrwydd ar ran y cwsmer i fyfyrion ar hyn a newid ymarfer. Mae angen y ddau arnoch a dweud y gwir, ac mae Nacro yn helpu i gael yr ail hefyd – oherwydd eu dulliau gwaith, gallant ennyn ymroddiad.

ymatebwr 18

Roedd eraill yn fwy amwys, ac yn teimlo bod effaith o'r math hwn yn fwy o "syniad" na rhywbeth y gallent ei ddangos gyda thystiolaeth eglur:

O ran ymarfer Cyfiawnder leuenctid, maen nhw wedi rhannu arfer da mewn ffordd gadarnhaol. Maen nhw wedi gwneud cyfraniad. Mae'n anodd dweud pa mor arwyddocaol yw hynny, ond maen nhw'n sicr wedi cael effaith.

ymatebwr 17

Byddwn yn llai uchel fy nghloch am y math yna o effaith. Bydd rhywfaint o'r hyn y maent wedi ei wneud i ni wedi cael ei gomisiynu gyda'r nod o wella ymarfer, ond allaf i ddim dweud a yw'r hyn y maen nhw wedi ei wneud wedi gwella ymarfer. . . . Felly nid dyna fyddai'r peth cyntaf sy'n dod i'm meddwl. Y stwff strategol rwy'n meddwl amdano gyntaf, a bu effaith o'r safbwynt hwnnw. Efallai bod hyn wedi treiddio lawr i ymarfer, ond mae hwnnw'n gysylltiad anodd ei ddisgrifio.

ymatebwr 15

Yn gryno, roedd yn ymddangos bod mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn bod gwaith NC yn cael effaith gadarnhaol ar ymarfer, ac aeth rhai ymhellach i awgrymu na fyddai amryw o welliannau mesuradwy (fel adroddiadau arolygu gwell er enghraifft) wedi digwydd heb gyfraniad NC. Nid oedd y tîm gwerthuso yn gallu cadarnhau'r math hwn o effaith trwy ddadansoddiad ystadegol o'r data a oedd ar gael.

Fodd bynnag, nid yw'r ffaith bod y dystiolaeth o effaith ar ymarfer yn ansoddol ar y cyfan yn golygu nad oes pŵer ganddi i ddarbwylllo - er y byddai'n amlwg yn well cael digon o ddata i'n galluogi i ddangos effaith yn ystadegol ac o ran data dwfn a fyddai'n ein helpu i wneud cysylltiadau â newidiadau mesuradwy ac i ddeall achos.

Roedd ein grŵp o ymatebwyr yn cynnwys pobl a ddewiswyd yn union oherwydd bod eu profiad a'u cefndiroedd yn golygu y byddent yn gallu cynnig adborth y gellid ei gymryd o ddifrif. Rydym yn dychwelyd at rai o'r materion hyn yn yr adran olaf.

3.4.2 Cydgysylltiad strategol

Mae rhywfaint o'r adborth y cyfeiriwyd ato yn yr adrannau blaenorol wedi cynnwys cyfeiriad at "waith strategol" NC eisoes.

Ceir problemau tebyg wrth asesu effaith gwaith NC yn y maes hwn, yn yr ystyr bod gwahanol achosion i'r effeithiau. Ymgynghorwyd yn eang iawn, er enghraifft, ynglŷn â STICG a pholisïau allweddol eraill, ac mae'n debyg y bydd y gwaith ymgynghori hwnnw ei hun wedi cael rhywfaint o effaith ar safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol ym maes cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru.

Ond mae cyfranogiad NC mewn gwaith o'r fath yn amlwg wedi bod yn bwysig a pharhaus. Ni ddatgelwyd unrhyw adborth negyddol gennym ar waith strategol NC, ac roedd yn ymddangos bod y grwpiau ymatebwyr i gyd yn meddwl y byddai'n bwysig i'r math hwn o waith barhau (ar ryw ffurf neu'i gilydd).

3.4.3 Tueddiadau ym maes troseddau ieuenctid a phenderfynu achosion

Fel y nodwyd yn 2.1, gofynnwyd i'r tîm ymchwil asesu effaith gwaith NC o ran tueddiadau ehangach ym maes cyfiawnder ieuenctid hefyd, er y cydnabuwyd o'r cychwyn y byddai'n anodd gwneud cysylltiadau rhwng unrhyw newidiadau i dueddiadau a nodwyd ac ymyriadau a wnaed gan NC. Rydym wedi crynhoi rhai o'r anawsterau hyn yn adran 3.4.

Astudiodd y tîm ystadegau swyddogol ar dueddiadau cyfiawnder ieuenctid mewn ymdrech i'w dadansoddi yn ôl Timau Troseddau Ieuenctid unigol, ac yna ymdrechwyd i gategoreiddio Timau Troseddau Ieuenctid o ran lefel eu hymgysylltiad â NC, a'u mapio yn erbyn y data tueddiadau. Fodd bynnag, ni fu'n bosibl gategoreiddio ardaloedd Timau Troseddau Ieuenctid mewn ffordd gredadwy - ceisiwyd defnyddio cyfranogiad NC "uchel", "canolig" ac "isel" fel categorïau syml i'w neilltuo i Dimau Troseddau Ieuenctid a dadansoddiad o ffigurau swyddogol, ond yr adeg orau i ddefnyddio graddfeydd o'r math hwn yw pan fydd cynnwys y mewnbynnau yr un fath ac yn amrywio o ran nifer yn unig. Am resymau tebyg, nid oedd dull dau gategori (e.e. "rhywfaint o fewnbwn", "dim mewnbwn", neu debyg) yn bosibl chwaith, gan nad oedd unrhyw Dimau Troseddau Ieuenctid y gellid eu rhoi'n gywir yn yr ail gategori.

Mae'r wybodaeth yn ddiddorol ynddi'i hun fodd bynnag, ac rydym wedi ei hamgáu yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn. Yn *Atodiad 4 - Ymyriadau yn ôl Timau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru, fesul blwyddyn* rydym wedi cynnwys tablau yn crynhoi nifer yr ymyriadau cyn cyrraedd y llys, haen gyntaf, cymunedol a'r ddalfa fesul Tîm Troseddau Ieuenctid a blwyddyn rhwng 2007 a 2011, ac rydym wedi cyfrifo newidiadau canrannol fesul blwyddyn (ac yn gyffredinol).

Mae angen cymryd rhywfaint o ofal wrth ddehongli rhai o'r newidiadau, gan i'r categorïau o fewn pob un o'r meysydd eang uchod newid o flwyddyn i flwyddyn. Er mwyn ei gwneud yn

eglwur beth yw'r gwahaniaethau hynny, rydym wedi cynnwys dadansoddiad ar wahân yn yr Atodiad hwnnw.

Yn Atodiad 5 – Nifer y rhai a dderbyniwyd am y tro cyntaf fesul ardal awdurdod lleol yng Nghymru, fesul blwyddyn rydym wedi cyflwyno ffigurau fesul ardal awdurdod lleol rhwng 2000 a 2011 ac, yn yr un modd ag yn *Atodiad 4*, wedi cyfrifo newidiadau canrannol o flwyddyn i flwyddyn (ac yn gyffredinol). Mae'n werth nodi mai amcangyfrifon yw'r ffigurau - mae'r dadansoddwyr wedi mapio pobl ifanc i Awdurdodau Lleol unigol gan ddefnyddio cyfeiriad neu god post eu cartrefi fel y'u cofnodir yn nata Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Mewn achosion lle nad oes unrhyw gyfeiriad wedi'i gofnodi, mae'r dadansoddwyr wedi neilltuo pobl ifanc i ardaloedd yn seiliedig ar gysylltiadau mewn data arall ar sail "patrymau troseddwy'r ymdriniwyd â nhw gan orsafoedd heddlu". Mae'r dadansoddwyr hefyd wedi seilio ffigurau ar gyfer nifer y plant a phobl ifanc 10-17 mlwydd oed yn y boblogaeth ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn (a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.)

Mae mwyafrif y newidiadau a awgrymir yn y ddau Atodiad yn anodd eu dehongli, er bod rhai hefyd yn ymddangos yn fwy arwyddocaol nag y maent mewn gwirionedd – mae niferoedd bach mewn rhai achosion yn golygu y gall hyd yn oed amrywiadau bach iawn arwain at newidiadau mawr i ganrannau. O ran Ceredigion er enghraifft, mae'r manylion yn *Atodiad 4* yn awgrymu y bu gostyngiad o 67% i'r nifer a gadwyd yn y ddalfa rhwng 2007-08 a 2009-10 – ond, mewn gwirionedd, gostyngiad o dri achos yn y flwyddyn gyntaf i un achos yn y drydedd yw hwn.

Wedi dweud hynny, mae rhai o'r newidiadau ehangach yn amlwg yn gadarnhaol – mae gostyngiadau i niferoedd y rhai a dderbyniwyd i'r system am y tro cyntaf yn eithaf cadarnhaol mewn rhai ardaloedd, er enghraifft (a chyfeiriwyd atynt yn rhai o ddogfennau Llywodraeth Cymru fel tystiolaeth o effaith gwaith ataliol gwell dros amser).

Gellir gweld ei bod yn anodd iawn dehongli newidiadau o'r fath ar eu pen eu hunain (heb son am yng nghyswllt gwaith a wneir gan NC) trwy edrych ar enghreifftiau eraill, megis niferoedd a gedwir yn y ddalfa ym Merthyr Tudful er enghraifft. Mae'r cyfraddau dan sylw yn anghyffredin (ac felly hefyd sawl cyfradd arall sy'n ymwneud â Merthyr) ac efallai eu bod yn rhannol gysylltiedig â'r ffaith bod yr ardal yn un o amddifadedd uchel ac efallai hefyd oherwydd bod demograffeg y boblogaeth yno'n weddol unigryw. Ond mae wedi bod yn her i lawer o bartion ddeall tueddiadau o'r fath - nodwyd hyn yn adolygiad Merthyr Tudful yn 2010 er enghraifft:

Fel ardal mae gan Merthyr Tudful lefel gymharol uchel o amddifadedd a phroblemau cymdeithasol. Yn ôl gwybodaeth gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, mae gan Merthyr Tudful niferoedd uchel o blant yn cael eu dedfrydu'n gyson i unedau dan glo. Mae hyn wedi bod yn destun pryder i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ac mae cyllid ychwanegol wedi cael ei roi i'r Tîm Troseddwy'r Ifanc.

Nid yw ein methodoleg yn arolygu dedfrydu, ac felly ni allwn wneud sylw ar y rhesymau dros y cyfraddau uchel o ddedfrydau dan glo. Fodd bynnag, gallwn gadarnhau bod y Tîm Troseddwy'r Ifanc yn cyflawni asesiadau trylwyr yn y cam cyn-dedfrydu a bod yr asesiadau hyn yn sail ar gyfer adroddiadau o ansawdd da sy'n amlinellu cynlluniau dedfrydu realistig. Mae'r ymyriadau hefyd o ansawdd uchel a, lle

bo angen, yn gyfyngus a dwys fel bo'n briodol. (Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi; 2010c).¹⁸

Mae'n debyg y parhaodd y cyfraddau uchel y cyfeirir atynt, er gwaethaf arfer da gan Dimau Troseddau leuenctid a nodwyd gan yr arolygwyr.¹⁹

O ran adborth gan ymatebwyr, fel y nodwyd yn flaenorol, roedd rhai cynrychiolwyr yn teimlo bod gwaith NC wedi cael effaith ar newidiadau ehangach o'r math a ddisgrifir yma, er eu bod hefyd yn ei chael yn anodd mesur hyn:

Mae rhai o'r ffigurau o ran gostyngiadau yn y niferoedd sydd yn y ddalfa, pobl ifanc yn mynd drwy'r llys ac ati, yn dda iawn. Nid wyf yn honni mai Nacro sy'n gyfrifol am hyn, ond mae'n rhaid eu bod wedi chwarae rhan. . . . Rydym wedi gweld y gostyngiadau mwyaf i'r boblogaeth yn y llys, y rhai a dderbyniwyd i'r system am y tro cyntaf – ar draws y maes cyfan. Mae'n anodd iawn deall y sefyllfa honno ond ni fyddai'n syndod darganfod bod Nacro wedi chwarae rhan.

ymatebwr 20

Rwy'n credu bod Nacro wedi cyfrannu at newid rhai tueddiadau ym maes Cyfiawnder leuenctid yng Nghymru.

Pa rai?

Wel, cyfraddau a gedwir yn y ddalfa er enghraifft. Nid ydyn nhw rhywsut wedi newid y cyfraddau hynny ar eu pen eu hunain wrth gwrs. Ond fe wnaethon nhw gychwyn pethau a arweiniodd at eu gostwng. Fe wnaethon nhw newid y ffordd y mae rhai pobl allweddol yn ystyried pethau, a'r ffordd y maen nhw'n penderfynu ar bethau. Hyd yn oed os gwnaeth iddyn nhw ystyried sut y byddai pethau'n edrych mewn blynyddoedd i ddod pe bai eu cyfraddau yn parhau i fod yn uchel, mae hynny'n newid.

ymatebwr 14

3.5 Gwerth am arian

Yn amlwg, mae'r sylwadau uchod ar ansawdd ac effaith yn berthnasol i faterion yn ymwneud â gwerth am arian, ond roedd y tîm gwerthuso yn meddwl hefyd y byddai'n bwysig cynnwys rhywfaint o ystyriaeth uniongyrchol o gost yn rhan o'r gwaith.

Er na ellir pennu cost yr holl waith a ddisgrifiwyd yn yr adrannau blaenorol mewn ffordd syml, rydym wedi amcangyfrif faint y gallai rhywfaint o waith prosiect unigol NC fod wedi ei gostio pe bai wedi cael ei gaffael ar y farchnad ymchwil agored.

Er mwyn dangos faint y gallai rhai prosiectau penodol y mae Nacro Cymru wedi eu cyflawni yn rhan o'i raglenni gwaith blynyddol fod wedi'i gostio, rydym wedi darparu crynodeb o sawl

¹⁸ Mae'r adroddiad yn mynd yn ei flaen i nodi: "Ar y cyfan, rydym yn ystyried bod y darganfyddiadau hyn yn rhai cymeradwy iawn, yn wir ymhlith y sgoriau gorau hyd yma, yng Nghymru a Lloegr, yn y rhaglen arolygu."

¹⁹ Mae llawer o'r ffigurau eraill ar gyfer Merthyr Tudful hefyd yn eithaf gwahanol i ffigurau ar gyfer ardaloedd eraill ac yn anodd eu dehongli.

prosiect ar wahân isod ac wedi rhoi amcangyfrif o gostau trwy eu cymharu â phrosiectau eraill y mae eu costau'n hysbys.

Gellir amcangyfrif costau darn o waith ymgynghori neu ymchwil a gomisiynir trwy “weithio yn ôl” o fanylion yn ymwneud ag:

- amserlen y gwaith;
- y mathau a'r amrywiaeth o waith maes sy'n ofynnol (gan gynnwys nifer y safleoedd maes i'w cynnwys, faint o waith y byddai angen ei wneud i gasglu data sylfaenol, gan gynnwys dulliau fel cyfweld, cynnal grwpiau ffocws a gwaith arsylwi);
- i ba raddau y mae angen ymdrin â llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes, a'r
- mathau a'r amrywiaeth o waith dadansoddi data sy'n ofynnol.

Mae rhai enghreifftiau o brosiectau ymchwil eraill y mae eu costau'n hysbys hefyd wedi'u hamgáu fel *Atodiad 6*, ynghyd â disgrifiadau cryno o “ffrydiau allweddol”, a “chyfresi data terfynol”. Gan ddefnyddio enghreifftiau o'r math hwnnw, mae'r tîm wedi ailystyried detholiad o brosiectau a gyflawnwyd gan NC gyda'r nod o amcangyfrif beth fyddai cost y rhain, pe baent wedi cael eu comisiynu ar y farchnad agored.

Tabl 2 – Amcangyfrif o gostau sampl o brosiectau Nacro Cymru ar y farchnad

Prosiect	Amcangyfrif o'r costau ar y farchnad
Llety a throseddwy'r ifanc yng Nghymru (1) – <i>Timau troseddau ieuenctid, pobl ifanc a llety</i>	£20,000
Llety a throseddwy'r ifanc yng Nghymru (2) – <i>Y ddalfa a threfniadau byw pobl ifanc</i>	£20,000
Swyddogaeth ymarferwyr iechyd meddwl mewn timau troseddau ieuenctid yng Nghymru	£30,000
Gwerthusiad o brosiect 'Outreach' Cymdeithas Llu Cadetiaid y Fyddin Cymru yng Nghymru yn 2007	£70,000
Lleihau'r Nifer a Gedwir yn y Ddalfa – Merthyr Tudful/Pen-y-bont ar Ogwr ²⁰	£90,000

Mae'n amlwg y ceir costau ychwanegol wrth gomisiynu prosiectau ymchwil ar y farchnad agored, er bod y rhain yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar ffactorau fel cymhlethdod y prosiect a maint (a math) yr ymateb gan ddarparwyr gwasanaethau (rydym yn dychwelyd at y mater hwn yn adran 4, isod).

Mae cyfrif bras iawn yn awgrymu bod NC wedi cynnal rhwng 2.5 a 3 phrosiect y flwyddyn, yn amrywio o'r rhai mwy (a mwy hirdymor) i rai canolig a bach (a mwy byrdymor).

²⁰ Roedd astudiaeth NC ar leihau'r niferoedd a gedwir yn y ddalfa yn seiliedig i ryw raddau ar yr astudiaeth flaenorol a gynhaliwyd gan Bateman a Stanley (2002); tua £100,000 oedd cost yr astudiaeth flaenorol.

Mae costau hyfforddiant yn amrywio'n enfawr, o achosion lle mae aelod unigol o staff yn teithio i leoliad yr hyfforddwr ac yna'n rhannu'r hyfforddiant o fewn ei dîm ei hun, i achosion lle mae mwy o aelodau staff yn gwneud yr un fath, i achosion lle y comisiynir hyfforddiant pwrpasol ar gyfer grwpiau cyfan "ar y safle" mewn lleoliad a drefnir gan y comisiynydd. Gall costau hyfforddiant o'r fath amrywio o £300 y diwrnod yn ogystal â chostau teithio a llety, hyd at sawl mil o bunnau'r diwrnod am hyfforddiant pwrpasol ar gyfer grŵp cyfan. Mae aelodau'r tîm ymchwil yn gwybod am ddigwyddiadau hyfforddi pwrpasol ar gyfer grŵp cyfan sydd wedi costio £15,000 am ddigwyddiad 2 ddiwrnod, yn ogystal â chostau teithio a llety, er y byddai costau ar gyfer hyfforddiant o'r fath yn amrywio fel rheol o £400 i £500 cant y diwrnod pan y'i darperir gan fasnachwyr neu ymgynghorwyr unigol annibynnol, i sawl mil y diwrnod ar gyfer hyfforddiant grŵp mawr a ddarperir gan dimau.

Mae'n anodd amcangyfrif costau gwaith â phwyslais penodol iddo, sy'n mynd y tu hwnt i ddarparu hyfforddiant, gyda Thimau Troseddau leuenctid gan nad oedd modd gwybod yn union faint o ddiwrnodau a dreuliyd ar waith o'r fath. Fodd bynnag, rydym yn gwybod o amrywiaeth o waith arall a gomisiynwyd y gall gwaith o'r fath gostio o £300-£550 y diwrnod fel rheol, yn dibynnu ar lefel y profiad sy'n ofynnol i'w ddarparu, er bod rhai cwmnïau sector preifat yn codi mwy na hyn. Mae cyfraddau dyddiol prifysgolion yn debyg i'r uchod yn gyffredinol, ac mae'r rhai sydd tua'r pen uchaf yn nodweddiadol am staff lefel athro ("wedi'u costio'n llawn yn economaidd"), a'r rhai is am gymdeithion ymchwil profiadol, er enghraifft. Mae awdurdodau cyhoeddus yn cyfrifo eu gorbenion mewn ffordd wahanol, ac nid ydym wedi ceisio gwneud unrhyw gymhariaeth â'r cyfraddau dyddiol y mae awdurdodau cyhoeddus yn eu defnyddio (er ein bod yn amau na fyddant yn wahanol iawn i'r uchod pe baent yn cael eu gwneud yn gywir).

Os tybiwn fod tua 20% o amser aelodau staff NC yn cael ei dreulio yn darparu cymorth i Dimau Troseddau leuenctid unigol yn uniongyrchol (h.y. 4 diwrnod gwaith y mis i bob aelod o'r tîm, yn gwneud gwaith sydd ar wahân i'r gwaith prosiect a hyfforddi y cyfeirir ato uchod - er, yn amlwg, nad yw'n hawdd gwahanu rhywfaint o'r gwaith hyfforddi oddi wrth gymorth â phwyslais penodol iddo), yna byddai hyn yn golygu cost o £28,800 - £52,800 (h.y. pe bai gwaith o'r fath wedi cael ei gomisiynu ar y farchnad agored).

Mae'r cyfrifiadau diwethaf hyn yn gyffredinol ac yn ansoffistigedig yn amlwg, ond fe'u cyflwynir i roi "teimlad" cyffredinol i'r darllenwr o tua faint fyddai gwerth yr amrywiaeth o waith a wneir gan NC yn rhan o'i raglenni gwaith blynyddol mewn punnoedd ar y farchnad agored. Nid ydym wedi ceisio pennu cost gwaith NC gyda grŵp Rheolwyr Timau Troseddu leuenctid Cymru (gan nad oedd y wybodaeth oedd ar gael yn ddigon manwl i ganiatáu hyn), ond crynhoir amcangyfrifon ar gyfer y ffrydiau gwaith allweddol eraill yn y tabl canlynol.

Ffrwd waith	Gwerth bras ar y farchnad, yn flynyddol
Prosiectau – cost 2.5-3 o brosiectau'r flwyddyn am gyfartaledd o £40,000 yr un	£100,000 - £120,000
Hyfforddiant – 12 digwyddiad y flwyddyn am gyfartaledd o £15,000 yr un	£18,000
Gwaith cymorth i Dimau Troseddau Ieuenctid (4 diwrnod gwaith y mis, i bob aelod o dîm NC; am £300-£550 y diwrnod)	£28,800 - £52,800

I grynhoi, roedd yn ymddangos yn eglur i'r tîm gwerthuso nad oedd rhaglen waith NC yn amlwg yn ddrutach na'r hyn y gellid ei brynu trwy ffyrdd eraill o leiaf, er mai'r cyllidwr, yn amlwg, sydd i benderfynu a yw hyn hefyd yn golygu bod y ddarpariaeth hon yn cynnig gwerth am arian (yng ngoleuni tystiolaeth yn ymwneud ag ansawdd ac effaith a drafodwyd yn yr adrannau blaenorol).

Mae angen gwybod mwy na chostau'r gwasanaethau a ddarperir a chostau cymharol gwahanol ffynonellau eraill, wrth gwrs, er mwyn gwneud dyfarniadau o ran gwerth am arian. Mae dyfarniadau o'r fath hefyd yn gofyn am asesu a yw'r cyllidwr wedi derbyn gwasanaethau sy'n berthnasol i *anghenion* a nodwyd, ac a yw'r gwasanaethau hyn wedi bodloni trothwy ansawdd sydd o leiaf yn dderbyniol.

I gloi, hyd yn oed os gwneir dyfarniad cadarnhaol o ran gwerth am arian, nid yw'n dilyn y dylai darpariaeth y dyfodol edrych yr un fath ag y mae wedi edrych hyd yn hyn. Dychwelwn at y mater hwn yn adran 4.

4 CRYNODEB O GANFYDDIADAU A GOBLYGIADAU AR GYFER DARPARIAETH YN Y DYFODOL

Rhodddwyd disgrifiad cyffredinol yn adran 3.1 o'r amrywiaeth o waith a wneir gan NC yn rhan o'i raglenni gwaith blynyddol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn seiliedig ar wybodaeth o'r dogfennau a oedd ar gael ac adborth gan ymatebwyr. Cyflawnwyd y gwaith hwnnw ar sawl ffurf a sawl lefel, ond â phob ffrwd waith ar wahân yn cyd-fynd â'r gweddill fel rheol. Yn gryno, mae'r rhaglenni wedi bod yn amlweddol, ond hefyd yn gydlynol yn gyffredinol ac wedi'u seilio ar fframwaith rhesymol o eglur ar ochr y cyllidwr, ac eglurder pwrpas ac ymrwymiad sefydliadol ar ran NC.

Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod y model wedi gweithio'n dda o ran ymdrechion allweddol i wella ansawdd ymarfer cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru ac i'w wneud yn fwy cydlynol, er bod y dystiolaeth yn awgrymu na chafwyd cydbwysedd llwyddiannus bob amser rhwng hyblygrwydd ac eglurder manylebau – yn yr ystyr bod rhywfaint o waith NC wedi esblygu'n organig yn hytrach nag yn strategol o safbwynt y cyllidwr ac, i ryw raddau, mewn ffordd a oedd yn golygu bod y cysylltiad uniongyrchol rhwng NC a rhanddeiliaid allweddol yn cael lle mwy blaenllaw na chyfraniad y cyllidwr. Mewn geiriau eraill, fe allai'r ffaith fod Nacro Cymru yn ymateb yn uniongyrchol i geisiadau gan Dimau Troseddau Ieuenctid unigol a chan grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru yn benodol fod wedi helpu'r sefydliad i gynnal perthynas gadarnhaol sydd wedi bod o gymorth wrth weithredu rhai o'r ffyrddau gwaith allweddol a ddisgrifir uchod. Er hynny, gellir dadlau ei fod hefyd wedi tueddu i rwystro

cyfleoedd i aelodau staff Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn benodol gynyddu eu gwybodaeth eu hunain am ymarfer cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, ac ymateb yn uniongyrchol i gyfleoedd i ddylanwadu ar yr ymarfer hwnnw.

Yn adran 3.3, trafodwyd materion yn ymwneud ag ansawdd gwaith NC, ar sail adborth ymatebwyr a'n hasesiadau ein hunain. Fel y nodwyd trwy gydol yr adran honno, roedd "defnyddwyr" gwaith a gyflawnwyd gan NC yn gadarnhaol iawn yn gyffredinol ynglŷn â'i ansawdd a'r ffaith ei fod yn berthnasol i'w hanghenion tybiedig. Cafwyd rhywfaint o adborth negyddol mewn rhai achosion, er y lliniarwyd hwn i ryw raddau gan y ffaith ei bod yn ymddangos i NC ymateb yn ffafriol ac yn gyflym i feirniadaeth o'r fath ar ôl cael gwybod amdani.

Yn adran 3.4, trafodwyd effaith gwaith NC ac, er nad oedd modd cadarnhau rhywfaint o adborth yr ymatebwyr trwy ddadansoddiad ystadegol, roedd yn ymddangos yn gyffredinol bod y dystiolaeth yn awgrymu i'r gwaith gael amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol. Mae'n werth nodi yn y cyswllt hwn bod disgwyliad i allu dangos effaith rhaglen waith amlweddol fel hon yn sicr yn ddisgwyliad uwch nag y byddai rhywun yn ei weld fel rheol – prin yw'r ymyriadau hyfforddi a asesir ar gyfer eu heffaith y tu hwnt i'r ymateb uniongyrchol iddynt, er enghraifft,²¹ ac o ran gwaith ymchwil, prin iawn yw'r astudiaethau academiaidd sy'n destun craffu neu asesiad o'u heffaith gwirioneddol ar faes ymarfer. Fe'u hasesir yn ôl eu teilyngdod eu hunain o safbwynt ymchwil, ac fe'i gadewir i'r rhai sy'n llunio polisi ac yn comisiynu gwasanaethau wneud penderfyniadau am unrhyw oblygiadau ar gyfer y dyfodol.

Trafodwyd materion yn ymwneud â gwerth am arian yn adran 3.5.

Yn yr adran olaf hon, gan ddefnyddio deunydd o'r holl adrannau blaenorol, rydym yn canolbwyntio ar ddulliau allweddol o ddarparu'r gwasanaeth yn y dyfodol, ac yna'n dwyn y rhain ynghyd ar ffurf crynodeb ar ddiwedd yr adran hon.

4.1 Darparwyr eraill

Wrth ystyried sut y gallai darpariaeth y dyfodol edrych yn y meysydd a gyflawnwyd gan NC yn y gorffennol, roedd y cynllun ymchwil yn cynnwys ystyried darparwyr eraill yn ein trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol, a chynhaliwyd ymarfer (braidd yn *ad hoc*) i bennu cwrdd darparwyr cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. (Rydym yn trafod darpariaeth fewnol mewn adran ar wahân.)

O ran prosiectau, mae'n amlwg bod marchnad iach a chystadleuol sy'n cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau academiaidd ac annibynnol ar yr ochr ymchwil a allai gyflawni darnau penodol o waith ymchwil sy'n ymwneud â chyfiawnder ieuenctid (ac sydd wedi gwneud hynny yn y gorffennol).

²¹ Er hynny, mae hyfforddiant weithiau yn destun gwerthusiad mwy hirdymor, â phwyslais mwy penodol – comisiynwyd aelodau o'r tîm gwerthuso yn flaenorol i werthuso effaith hyfforddiant cyfiawnder adferol ar arfer dilynol un o heddluoedd mawr Lloegr, er enghraifft, ond cynlluniwyd y gwerthusiad hwn yn benodol i asesu effeithiau ar ymarfer ac agweddau (ac am gost o £80,000).

Mae hyfforddiant yn faes sydd ag amrywiaeth eang o ddarparwyr posibl hefyd, er bod y rhain i'w gweld yn amrywio'n enfawr o ran ansawdd, a hefyd o ran eu gwybodaeth gefndir a'u profiad.

Mae'r maes yn culhau rhywfaint wrth ystyried darparwyr cymorth i Dimau Troseddau leuenctid, neu waith ar lefel strategol i hwyluso'r broses o weithredu STICG, er enghraifft, gan fod y math hwn o waith yn gofyn am sgiliau a gwybodaeth gweddol unigryw. Yn amlwg, ceir sefydliadau eraill a allai gymryd drosodd pe baent yn cael y cyfle, a gellid cyflawni rhai o'r ffrydiau gwaith hyn yn fewnol gan Lywodraeth Cymru, neu gan y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid. Mae tîm y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid eisoes yn gwneud amrywiaeth o waith "yn ôl y galw" gyda Thimau Troseddau leuenctid er enghraifft, a'r cwbl fyddai'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ei wneud er mwyn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am rywfaint o'r cymorth i Dimau Troseddau leuenctid fyddai sicrhau'r sgiliau perthnasol (neu ddefnyddio aelodau staff cyfredol sy'n meddu ar rai o'r sgiliau hynny eisoes).

Roedd safbwyntiau'r ymatebwyr yn tueddu i gadarnhau'r arsylwadau cyffredinol hyn am ddarparwyr eraill ar gyfer ffrydiau gwaith amrywiol, ac mae'r sylwadau hyn yn adlewyrchu rhai o'r sylwadau blaenorol am fanteision ac anfanteision tendro agored:

Ydyn, maen nhw'n deall y cyd-destun polisi yng Nghymru. Mae angen i chi ddeall y ffordd y darperir Cyfiawnder leuenctid yma yng Nghymru. Mae darparwyr a gomisiynir wedi'u lleoli yn Lloegr yn aml, ac nid ydynt yn deall pethau yma o anghenraid. Hyd yn oed y swyddogaeth o gefnogi grŵp Rheolwyr Timau Troseddau leuenctid Cymru, allech chi ddim dod o hyd i rywun arall a allai ei chyflawni. Efallai'n wir fod darparwyr eraill yn dda ar y pwnc, ond heb y dull cyfannol sydd gan Nacro. Rwy'n credu y byddech yn ei chael yn anodd iawn dod o hyd i hynny yn rhywle arall. Hyfforddiant yw'r un hawddaf i feddwl amdano o ran tendro agored. Ond o ran monitro deddfwriaeth, yr ymgynghori, dwi ddim yn credu y gallech ddod o hyd i rywun arall i ddarparu cymorth yn hynny o beth.

ymatebwr 21

Efallai na fyddai llawer wedi cynnig eu hunain yng Nghymru pe baen nhw wedi rhoi rhywfaint o hyn allan ar dendr bedair neu bum mlynedd yn ôl. Mae'r sefyllfa honno wedi newid. Mae Catch-22 yn weithredol bellach²², er enghraifft, ac yn awyddus iawn i gymryd mwy o ran ym maes Cyfiawnder leuenctid yng Nghymru. Mae CRI²³ yn weithredol hefyd, ac yn awyddus i gymryd rhan ym maes Cyfiawnder leuenctid yng Nghymru.

ymatebwr 15

Roedd mwy o ddarparwyr Gwasanaethau Dioddefwyr flynyddoedd yn ôl. Tynnodd rai o'r rhain yn ôl ychydig a dechrau edrych ar bethau eraill. Diflannodd Crime Concern, a Fairbridge hefyd yng Nghymru²⁴. Felly lleihaodd nifer y sefydliadau a allai gyflawni

²² Crëwyd Catch-22 trwy uno Crime Concern a Rainer yn 2008.

²³ Yr elusen Crime Reduction Initiatives.

²⁴ Cafodd Fairbridge ei ymgorffori'n rhan o'r Prince's Trust ddechrau 2011. Parhaodd i ddarparu gwasanaethau yng nghanolfannau'r Prince's Trust.

swyddogaeth ym maes Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru. Felly roedd Nacro yn bwysicach fyth. Oherwydd eu bod yn annibynnol ac yn froceriaid gonest.

ymatebwr 23

Y cwestiwn yw pwy fyddai'n gwneud hynny heblaw Nacro. Rydym ar wahân fel Timau Troseddau Ieuenctid, yn gweithio i Awdurdodau Lleol. Mae llawer o'r hyn rydym yn ei wneud wedi ei ddatganoli, felly mae angen cyfeiriad strategol cryf yng Nghymru. Ond mae angen hyblygrwydd a gwasanaethau wedi'u teilwra arnom yn lleol. Mae Nacro yn sefydliad, ond hefyd yn frand y gallwch ymddiried ynddo. Rydych yn gwybod eich bod yn cael gwerth da am arian ganddynt.

Fel arall, rydym yn boddi dan daflenni hyfforddiant bob wythnos gan bobl nad ydym wir yn eu hadnabod. Bydd Nacro yn dod atoch chi a gallwch ymddiried eu bod yn gwybod sut i'w ddarparu. Maen nhw'n deall y problemau, y ddaearyddiaeth ac yn y blaen. Maen nhw'n gweithio o'ch amgylch chi, yn hytrach na'ch bod chi yn gorfod gweithio o'u hamgylch nhw. Maen nhw'n meddwl am yr anghenion a sut i'w diwallu ar gyfer y rhai a fydd yn mynychu. Maen nhw hefyd yn datrys problemau mewn ffordd greadigol (e.e. cynnig rhagor o ddiwrnodau os bydd y digwyddiadau'n llawn). Nid yw llawer o'r taflenni yn cynnig gwasanaethau hygyrch sydd wedi'u teilwra.

ymatebwr 12

4.2 Y posibilrwydd o ddarparu'r gwaith yn fewnol

Un o'r dewisiadau y gofynnwyd i'r tîm ei ystyried yn rhan o'i adolygiad oedd i rai o'r ffrydiau gwaith allweddol a ddarperir gan NC ar hyn o bryd gael eu darparu "yn fewnol" h.y. gan aelodau'r tîm yn sefydliad y cyllidwr ei hun.

Un o fanteision eglur darpariaeth o'r fath yw ei bod yn haws ei rheoli, ond mae hefyd yn galluogi'r sefydliad i wneud ei benderfyniadau ei hun am ba gyfresi sgiliau i'w creu, a sut i gyfateb y rhain yn uniongyrchol i nodau, amcanion a rhaglenni gwaith y sefydliad.

Ceir cyfleoedd eraill hefyd yn sgil meddu ar gyfresi sgiliau mewnol penodol, a gall gynnig adnodd i rannau eraill o'r sefydliad. Os oes gan y cyllidwr nifer fach o ymchwilwyr cyfiawnder ieuenctid hynod fedrus er enghraifft, gellir defnyddio eu harbenigedd at ddibenion eraill, a gallant hefyd wella sgiliau aelodau eraill o'r tîm. Hefyd, os ystyrir eu bod yn adnodd y gellid ei farchnata ynddo'i hun, gallant hefyd ymgymryd â thendro cystadleuol yn yr un modd ag y mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn ei wneud yn Lloegr er enghraifft, lle mae'r tîm ymchwil perthnasol yn cystadlu ar y farchnad agored gyda thimau ymchwil prifysgolion a'r sector preifat.

Mae'r math hwn o drefn hefyd yn galluogi'r cyllidwr i osgoi dibynnu ar ddarparwyr eraill, er nad yw penderfyniadau yn ymwneud â pha gyfresi sgiliau i'w creu neu eu cadw yn hawdd o bell ffordd – ac, yn aml, nid yw'n bosibl i sefydliad sicrhau ei fod yn meddu ar yr *holl* sgiliau a phrofiad y gellid ystyried y bydd eu hangen arno am byth i ddiwallu ei holl anghenion gwasanaeth ei hun.

O ran costau, yn amlwg gellir osgoi'r costau sy'n gysylltiedig â thendro agored trwy ddarparu'r gwasanaeth yn fewnol, er efallai y bydd rhai costau recriwtio yn y byrdymor os na ellir dod o hyd i rai sgiliau allweddol yn fewnol. Ar wahân i gostau caffael, mae'r cwestiwn a fyddai

darpariaeth fewnol yn arbed costau o'i chymharu â darpariaeth ar contract yn dibynnu'n gyfan gwbl ar gostau'r seilwaith a'r argostau i aelodau staff yn y sefydliad, a sut y mae'r rhain yn cymharu â'r costau cyffredinol y mae sefydliadau tendro yn eu cynnwys yn eu cynigion fel rheol. Nid oeddem mewn sefyllfa i gynnal y dadansoddiad hwnnw, ond byddai'n amlwg yn ystyriaeth bwysig i'r cyllidwr yn y dyfodol.

Trwy newid o ddarparwr allanol i ddarpariaeth fewnol, gellir peryglu cysylltiadau proffesiynol sy'n bodoli eisoes fodd bynnag, yn enwedig mewn achosion lle y datblygwyd lefel uchel o ymddiriedaeth rhwng y darparwr blaenorol a'r rhanddeiliaid allweddol perthnasol. Gall newidiadau o'r fath arwain at lai o gydweithrediad neu ddiddordeb yn y byrdymor, gan gymhlethu pethau fel cynnal gwaith ymchwil, er enghraifft, neu fynediad at ddata a gedwir yn lleol. Gall problemau o'r math hwn fod yn fyrhoedlog, yn dibynnu ar rinweddau a phriodweddau aelodau staff newydd, ond yn amlwg mae angen cynllunio ar eu cyfer a'u rheoli'n ofalus.

Gall fod anawsterau eraill sy'n gysylltiedig â darpariaeth fewnol, yn ymwneud â'r *buddiant* a allai fod gan sefydliad. Cyhuddir sefydliadau sy'n gwerthuso eu gwaith eu hunain yn aml o ddangos tuedd, er enghraifft (oherwydd y bydd gan eu sefydliad fuddiant mewn gweld ei waith ei hun yn cael ei ystyried yn effeithiol er enghraifft), a gall tybiaethau ynglŷn â buddiant hefyd effeithio ar y ffordd y gallai rhanddeiliaid ymateb i gymorth proffesiynol. Er enghraifft, roedd yn eglur mewn rhai rhannau o'r adborth uchod gan gynrychiolwyr Timau Troseddau leuenctid eu bod o'r farn bod gan y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid fuddiant mewn monitro eu perfformiad, ac yn amlwg gallai hyn gymhlethu eu hymateb i "gyngor" proffesiynol y gallai'r Bwrdd ei roi.

Yn gryno, gallai annibyniaeth dybiedig ddwyn manteision wrth ddarparu gwasanaethau proffesiynol (pa un a yw'r tybiaethau hynny'n gywir ai peidio), a gall darpariaeth fewnol godi problemau yn ymwneud â buddiant dan rai amgylchiadau.

4.3 Tendro agored

Ceir llenyddiaeth hynod amrywiol (a chynyddol) ar ymarfer ym maes caffael cyhoeddus a'i effeithiolrwydd, ac mae llawer o hyn yn canolbwyntio ar fanteision gwahanol fodolau caffael ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau.

Byddai hyd yn oed crynodeb cyffredinol o'r llenyddiaeth hon y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn, ond mae'n werth amlygu sawl mater sy'n berthnasol i amcanion allweddol yr asesiad hwn.

Gall awdurdodau cyhoeddus gaffael gwasanaethau mewn nifer o ffyrdd allweddol, ac mae'r rhain yn dueddol o amrywio o ran:

- y graddau y mae manyleb y gwasanaeth yn cael ei pharatoi ymlaen llaw a'i dosbarthu i ddarparwyr posibl (neu ei hysbysebu ar y farchnad agored), yn hytrach na chael ei chytuno gyda'r darparwyr eu hunain;

- y dull o nodi ac ymgysylltu â chronfa o ddarparwyr posibl (mae rhai ymarferion yn cynnwys gwahoddiad cwbl agored er enghraifft, ac eraill yn cynnwys “rhestr gyfyngedig” o ddarparwyr posibl yn unig);
- nifer y camau y mae angen i'r rhai sy'n tendro fynd drwyddynt cyn y dyfernir contract (mae rhai ymarferion yn cynnwys cam cyn cymhwyso er enghraifft, sy'n didoli'r darparwyr posibl, ac yna cais am gynigion, ac efallai cam trafod terfynol gyda'r rhai sydd wedi cyflwyno'r tendrau gorau), a'r
- sail a ddefnyddir ar gyfer asesu a marcio'r rhai sy'n tendro (bydd dewisiadau terfynol mewn rhai ymarferion yn seiliedig ar bris bron yn gyfan gwbl, er enghraifft –darparu cynhyrchion penodol y mae eu hansawdd yr un fath ac yn hysbys – ac eraill yn seiliedig llawer mwy ar gyfuniad o bris ac ansawdd – darparu gwasanaethau cymorth i bobl hŷn sy'n agored i niwed er enghraifft).

O ran paratoi manylebau, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod angen sicrhau cydbwysedd fel rheol rhwng cynyddu cystadleuaeth (gyda'r nod o ostwng prisiau), a lleihau costau cyffredinol (gan y gall amrywiaeth o gontractau ar wahân â nifer o ddarparwyr fod yn ddrutach i'w sefydlu na nifer fach o gontractau neu un contract yn unig gyda chyflenwr a ffefrir er enghraifft; gweler PricewaterhouseCoopers (PwC); London Economics ac Ecorys, 2011). Mae llenyddiaeth fel yr olaf hefyd yn amlygu tensiwn rhwng disgrifiad manwl gywir o'r gwaith sy'n cael ei gomisiynu, a'r posibilrwydd o fod yn hyblyg os bydd y pwyslais yn debygol o newid yn ystod cyfnod y contract. Mae hyn yn amlwg yn berthnasol i rywfaint o'r gwaith a wnaed gan NC dros y blynyddoedd. Er enghraifft, efallai y byddai Tîm Troseddau Ieuencid unigol yn derbyn adroddiad arolygu llawer mwy negyddol nag a ragwelwyd ac, fel rheol, byddai'r “cynllun adfer” – a fyddai'n cael ei lunio dros gyfnod cymharol fyr ar ôl yr arolygiad fel rheol – yn cynnwys rhywfaint o gynllunio ar gyfer hyfforddiant neu gymorth adfer arall. Felly, efallai y byddai angen cadw disgrifiadau o'r gwasanaeth yn gymharol gyffredinol fel y gallai darparwr barhau i ymateb yn gyflym i achosion o'r fath.

Yn yr un modd, mae awdurdodau lleol yn dymuno weithiau gallu ymateb yn gyflym iawn i ddigwyddiadau allanol neu newidiadau i bolisi gan sefydliad rhanddeiliad allweddol.

Fel y mae'r pwyntiau diwethaf yn ei awgrymu, mae ymarferion caffael yn cynnwys oedi fel rheol (o sawl mis weithiau) rhwng gwneud penderfyniad i gontractio'r gwaith yn allanol a sicrhau darparwr sy'n gallu dechrau gwneud y gwaith.

Mae tendro agored hefyd yn cynnwys risg anochel o ran sicrhau gwasanaethau o'r ansawdd gorau posibl am bris penodol, gan fod prosesau tendro yn dueddol o ffafrio darparwyr gwasanaethau sy'n gallu cystadlu'n llwyddiannus mewn marchnad agored. Nid yw'r darparwyr sy'n gystadleuwyd llwyddiannus a'r rhai sy'n darparu gwasanaeth o ansawdd uchel bob amser yr un rhai.

Yn yr un modd, mae sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau yn tueddu i amrywio'n sylweddol o ran maint a chryfder ariannol, ac mae prosesau tendro agored yn dueddol o ffafrio'r rhai â'r sail ariannol gryfaf (gan fod y sefydliadau hyn mewn sefyllfa well i gymryd rhan mewn gweithgareddau tendro) – ond, unwaith eto, nid yw sefydlogrwydd ariannol ac arbenigedd yn gorgyffwrdd yn union bob amser.

Mae cost yn ystyriaeth allweddol arall. Mae pob ymarfer tendro yn cynnwys amrywiaeth o gostau a all, fel y nodir yn adran 3.5, amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar gymhlethdod y comisiwn ei hun, a maint a ffurf yr ymateb. Ond mae'r rhan fwyaf o ymarferion caffael yn cynnwys sawl ffrwd waith allweddol:

- datblygu manyleb (a pharatoi'r dogfennau sydd eu hangen i ategu'r fanyleb);
- cynllunio a lansio'r ymarfer caffael ei hun (gan gynnwys hysbysebu, ac ymateb i ymholiadau gan y rhai sy'n tendro);
- derbyn ac asesu cynigion sy'n dod i mewn (yn cynnwys llunio rhestr fer a chynnal cyfweiliadau weithiau);
- cyfarfodydd cychwyn gyda'r darparwr a ddewisir, a
- pharatoi contract a dogfennau ariannol/cyfreithiol cysylltiedig.

Cafodd y tîm ymchwil sawl sgwrs gydag aelodau staff caffael awdurdodau cyhoeddus sy'n ymwneud â chomisiynu gwasanaethau tebyg i'r rhai a ddarperir gan NC, a chawsom rai amcangyfrifon o'r costau sy'n gysylltiedig ag ymarferion caffael.

Byddai creu manyleb, cyflwyno ar gyfer tendr, darllen cynigion, asesu a thrafod a dewis efallai'n cymryd tua 10-15 diwrnod o amser rheolwyr canol ac uwch reolwyr. Wedyn ychwanegwch gostau rheoli'r prosiect, tua 10 diwrnod arall yn y byrdymor. Ychwanegwch at hyn y criw contractau sy'n cynhyrchu'r holl waith papur helaeth, tri neu bedwar diwrnod arall o amser uwch reolwyr efallai. Gan gynnwys costau staff ac argostau, byddwn yn dweud y byddai cyfanswm o tua saith neu wyth mil o bunnoedd yn nodweddiadol ar gyfer contract bach.

Roedd sylwadau fel hyn yn cadarnhau rhai o'r amcangyfrifon cost a ddarparwyd mewn rhannau eraill o'r llenyddiaeth – mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi amcangyfrif y gall costau caffael fod rhwng 10 a 50% o gost y gwasanaeth ei hun, er enghraifft (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, heb ddyddiad).

Nid yw'r berthynas rhwng y costau hyn a maint cyllideb prosiect yn llinellol chwaith – mae'r gwaith o ddrafftio manyleb ar gyfer prosiect gwerth £25,000 yn cymryd mwy na degfed o'r amser staff sy'n ofynnol i ddrafftio manyleb ar gyfer prosiect â chyllideb o £250,000 er enghraifft.

Mae costau caffael hyfforddiant fel rheol yn is nag ar gyfer prosiectau ymchwil penodol er enghraifft, gan nad yw'r gofynion yn gymhleth iawn fel rheol, er bod hyn hefyd yn amrywio yn dibynnu i ba raddau y mae'n hyfforddiant "oddi ar y silff" neu wedi'i deilwra. Roedd y rhan fwyaf o hyfforddiant a ddarparwyd gan NC wedi'i deilwra'n gymharol benodol i ofynion cwsmeriaid unigol, neu wedi'i deilwra'n gyfan gwbl. Awgrymwyd i ni y gallai costau caffael a hyfforddiant fod wedi bod tua 25% o'r costau ar gyfer prosiectau ymchwil, ar gyfartaledd.

Trafododd y rhai a gyfwelwyd yn hirfaith sut y gallai gwasanaethau o'r math a ddisgrifiwyd yn gynharach gael eu darparu yn y dyfodol, a manteision ac anfanteision modelau darparu penodol.

Roedd llawer ohonynt ar lefel uwch reolwyr eu hunain ac roedd ganddynt rywfaint o wybodaeth am gaffael yn eu gwasanaethau eu hunain.

O ran tendro agored, cyfeiriodd y rhai a ymatebodd at yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn fanteision ac yn anfoneision eglur. Cynigodd llawer ohonynt sylwadau ar fuddion cystadleuaeth ar yr un llaw, a'r hyn yr oeddent yn aml yn ei ystyried yn "lefel ansawdd hysbys", ar y llall:

Wel, nid yw byth yn beth drwg. Ond yr hyn rydym yn ei gael gan Nacro a'r unigolion hynny yw llawer o gysondeb. Nid wyf yn siŵr y gallai sefydliad mwy neu wahanol wneud yr un fath. Efallai y byddem yn colli cysondeb. Mae'r enw da yn dod gan eraill. Maen nhw'n ymwybodol o'n hanghenion. O safbwynt Cymru. Ceir gwerth ychwanegol yna. Mae miloedd o rai eraill ar gael, ond dydym ni ddim wedi bod yn gweithio gyda nhw ers 20 mlynedd. Pa mor hir fyddai'n ei gymryd i gyflawni'r un peth? Mae'n debyg mai'r cwestiwn yw a fyddai unrhyw bobl eraill y gallech eu cael yn agored ac yn onest. Rydych yn gwybod yr ateb i'r cwestiwn hwnnw pan rydych wedi adnabod rhywun ers amser maith, sy'n wir o'n safbwynt ni o ran y bobl yn Nacro Cymru.

ymatebwr 19

Gellid rhoi'r rhan fwyaf ohono allan ar dendr agored. Mae'n ddefnyddiol chwilio am bobl â phrofiad ehangach - gallent gyflwyno eu cynigion eu hunain. . . . Ie, mae'n debyg mai'r perygl yw na fyddai darparwyr newydd yn gwneud cystal. Ac mae'n sicr ein bod ni'n ymddiried yn Nacro.

ymatebwr 33

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr yn benodol at y posibilrwydd i gontractau treigl arwain at "hunanfodlonrwydd" ymhlith darparwyr, er bod gwahanol safbwyntiau ynglŷn â NC yn y cyswllt hwn:

Y peth yw, rydym ni'n adnabod Nacro, ac maen nhw wedi bod o gwmpas ers amser maith. . . . Efallai fod pobl yn gorffwys ar eu rhwyfau os byddwch yn cadw'r un sefyllfa. Ie, gall pobl fynd yn hunanfodlon. Efallai fod angen i chi gael eich herio.

ymatebwr 24

Maen nhw'n symud drwy'r amser – dydyn nhw ddim yn hunanfodlon. Fy mhryder i am dendro yw'r ansawdd y byddem yn ei gael. Pa mor hir fyddai'n ei gymryd i ddatblygu'r hyn sydd gennym nawr? Mae angen cysondeb arnom ac mae hynny gennym gyda Nacro. Maen nhw hefyd yn gwybod yr hanes – y cwbl. Nid ydynt yn gorffwys ar eu rhwyfau. Rwy'n deall bod angen prosesau tendro agored weithiau. Gall unrhyw un ysgrifennu tendr yn dweud eu bod yn wych. Ond pam cymryd risg os nad oes angen i chi wneud hynny?

Mae gormod o amser rhagarweiniol pan fyddwch yn newid darparwyr o hyd. Mae ansicrwydd ynglŷn â chyllid yn achosi panig i bobl hefyd. Maen nhw'n dechrau chwilio mewn mannau eraill.

ymatebwr 13

Amlygodd eraill faterion yn ymwneud â bygythiadau posibl i gysondeb a “dilyniant” y gwasanaeth, gan fynegi pryderon a fyddai'r gallu gan y comisiynwyr i gyflawni tasg gaffael a allai fod yn gymhleth:

Yr hyn sydd gennych yn y sefyllfa hon mewn gwirionedd yw sefydliad trydydd sector sydd fel cynigydd a ffefrir - gan nad oes neb arall yn bodoli sydd â'r lefel yna o arbenigedd. Mewn theori, nid oes gen' i broblem gyda thendro agored, yn enwedig os caniateir i gynigwyr bach werthu eu nwyddau. Ond mae'n ymwneud â'r ymddiriedaeth sydd gan y comisiynydd. Mae'n ymwneud â'r hyn rydych yn ei gael. Dywedwch eich bod yn comisiynu 30 awr o gymorth. Byddwch yn cael hynny, ond gyda chynigydd a ffefrir, byddech yn cael stwff ychwanegol. Byddech yn cael budd eu rhwydweithiau, budd eu profiad mewn meysydd cysylltiedig eraill. Ond os yw'r broses dendro yn aml-asiantaeth ac yn gynhwysol. Os bydd pawb a fydd yn derbyn y gwasanaeth (y cwsmeriaid fel petai) yn cymryd rhan yn y broses. Byddai hynny'n well. Ond mae problem o ran a oes gan weision sifil yr arbenigedd i wneud y gwaith comisiynu hynny'n gywir.

ymatebwr 18

Gallai anfanteision fod yn gysylltiedig â diffyg dilyniant. Mae'r swyddogaeth hefyd wedi datblygu dros amser a bu newidiadau i bersonél yn Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid felly mae'r dilyniant hwnnw gan Nacro wedi bod yn dda. Mae'n debyg mai un fantais yw y byddai pobl newydd yn gallu dod yn eu blaenau, gan gynnig dulliau neu syniadau newydd. . . . rwy'n credu mai'r perygl yw i bopeth newid ar unwaith ac y byddwch yn ailddyfeisio'r olwyn yn y pen draw. Mae ailstrwythuro, ad-drefnu ac ati yn cymryd llawer o amser. Ond byddai hynny'n amharu ar yr hyn rydym wedi ei ddatblygu o ran Strategaeth Troseddwy'r Ifanc Cymru Gyfan. Nid yw'n wir fod angen ad-drefnu'r system. Nid oes hunanfodlonrwydd wedi datblygu.

ymatebwr 23

Oherwydd ei sgiliau unigryw, awgrymwyd hefyd ei bod yn debygol y byddai NC yn llwyddiannus hyd yn oed pe bai ffrydiau gwaith allweddol yn cael eu cyflwyno ar gyfer tendr agored, a chyfeiriodd eraill yn fwy penodol at ba ffrydiau y gellid eu sicrhau fel hyn:

Nid wyf yn siŵr beth fyddai'r model tendro. Nid wyf yn siŵr pwy arall fyddai'n gallu ei wneud. Y brand Nacro, rwyf i yn sicr yn ymddiried ynddo, ac rwy'n gwybod y byddwn yn derbyn ansawdd ganddynt. Rwy'n gwybod na fyddwn yn gwastraffu amser yn eu defnyddio. Ni fyddem byth yn gallu gwneud yr hyn maen nhw'n ei wneud. . . . Mae'r amgylchedd comisiynu yn wahanol iawn nawr, ac mae tendro agored yn rhan o'r amgylchedd hwnnw, ond dylai Nacro fod mewn sefyllfa dda i gyflawni'r swyddogaeth honno beth bynnag. . . . Nacro fyddai'r unig un i ddarparu rhywfaint o'r pethau hynny p'un bynnag. Pwy fyddai'n cystadlu â nhw? Efallai y byddai eraill yn gwneud cynnig, ond mae Nacro mewn sefyllfa freintiedig yn y farchnad. Maen nhw mewn sefyllfa dda i fod yn gystadleuol.

ymatebwr 12

Gallai aelodau staff Llywodraeth Cymru wneud gwaith ar stwff polisi ehangach. Mae cymorth uniongyrchol i Dimau Troseddau Ieuencid y tu hwnt i'r hyn y mae

Llywodraeth Cymru yn gyfforddus yn ei wneud. Felly cyflwynwch hyn ar gyfer tendr neu cadwch Nacro'n gwneud y gwaith.

ymatebwr 32

Wn i ddim a dweud y gwir. Mae Nacro yn wybodus, er y gallech ddadlau bod ganddynt safiad gwleidyddol. Yr hyn y'u sefydlwyd i'w wneud. Ond maen nhw'n deall agenda Cymru mewn ffordd. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gennym, sy'n deall y gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol yn genedlaethol, ac yna mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gennych yng Nghymru, lle mae pethau'n wahanol. . . . Mae'n ymddangos bod rhai'n meddwl bod pethau a gomisiynir yn well, ond dwi ddim yn credu bod y sector preifat yn gwneud pethau'n well na'r sector cyhoeddus. Felly pe bai Llywodraeth Cymru'n comisiynu hynny, sut bydden nhw'n cadw [yr holl ffrydiau hynny] yn gyson, gyda'i gilydd? Mae Nacro yn wybodus iawn, ond y perygl yw na fyddai eraill yr un mor wybodus. Mae sefydliadau eraill yn anhyblyg iawn weithiau hefyd - "dyma'r hyn rydym wedi ein comisiynu i'w wneud a dyna'r cwbl wnawn ni". Pe baen nhw'n tendro am bethau ynghyd â sefydliadau eraill, efallai y byddai'n rhaid i Nacro wneud hynny hefyd - felly byddent yn llai hyblyg.

ymatebwr 25

Ac yn olaf, fel yr awgrymwyd eisoes yn rhai o'r sylwadau uchod, roedd rhai ymatebwyr yn poeni y gallai tendro agored gynyddu'r posibilrwydd o erydu'r dull gwaith cyfannol neu "gydgysylltiedig" presennol:

Efallai y byddai rhai o'r pethau eraill yn diflannu. Efallai mai'r demtasiwn fyddai rhannu'r cwbl a'i gyflwyno ar gyfer tendr, ond os gwnewch chi hynny, byddwch yn colli cydgysylltrwydd y peth. Byddai'n ddarniog. O ystyried hyfforddiant – ie, gallech rannu hynny a'i gyflwyno ar gyfer tendr agored. Ond mae Nacro yn adnabod Timau Troseddau Ieuenctid Cymru, yn adnabod amgylchedd cyfiawnder ieuenctid Cymru. Ond mae hefyd yn gallu gwneud gwaith ymarferol gydag ymarferwyr a phobl ifanc. Nid ydynt wedi colli cysylltiad ag ymarfer. Felly pe bai'n cael ei rannu, byddai rhywfaint o hynny'n cael ei golli.

ymatebwr 15

4.4 Darpariaeth gymysg

Byddai'n bosibl hefyd gwneud penderfyniad i rannu'r ddarpariaeth bresennol a darparu rhywfaint ohono'n fewnol, gan gyflwyno ffrydiau eraill ar gyfer tendr (neu beidio â'u darparu) yn ôl y gofyn.

Unwaith eto, mae'r costau y gellid eu harbed trwy wneud hyn yn dibynnu'n gyfan gwbl ar gyfansoddiad y "gymysgedd".

Byddai'r manteision a'r anfanteision eraill yr un fath ag ar gyfer bob un o'r dulliau unigol (ac fel y'u disgrifir uchod), ond un anfantais allweddol yn fwy cyffredinol yw'r hyn a amlygwyd hefyd yn rhywfaint o'r adborth sydd wedi'i gynnwys uchod – y ffaith bod mwy o berygl o ddarpariaeth "ddarniog".

Mae'r pecyn presennol yn gymharol gydlynol, ac mae'r ffrydiau gwaith unigol i gyd yn berthnasol i'w gilydd (ac yn atgyfnerthu'i gilydd i ryw raddau), ond ni ellid gwarantu, per byddid yn torri'r pecyn hwn yn rhannau, y byddai'r rhannau hynny wedi'u cytgordio gymaint ag ar hyn o bryd.

Mae hyn yn rhywbeth y byddai angen ei reoli'n ofalus i sicrhau nad oedd y perygl hwn yn cael ei wireddu.

4.5 Parhau â'r trefniadau presennol

Wrth gwrs, dewis arall fyddai parhau â'r drefn sydd wedi bod ar waith yn ystod y blynyddoedd blaenorol, heb ei diwygio, er bod y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr asesiad hwn yn awgrymu y byddai rhai newidiadau yn amlwg yn ddefnyddiol os penderfynir mai parhad yw'r dewis gorau yn y byrdymor.

Roedd yn ymddangos bod "anffurfioldeb" rhai o'r trefniadau ar gyfer rhaglen waith NC wedi arwain at ryw faint o ddryswch ynglŷn â swyddogaethau - ac ynglŷn â pha weithgareddau oedd wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru, a pha rai nad oeddent. O ran gwaith gyda grŵp Rheolwyr Timau Troseddau Ieuencid Cymru yn benodol, roedd teimlad *ad hoc* i rai o'r gweithgareddau, ac roedd yn eglur y gwnaed ceisiadau uniongyrchol am gymorth i NC gan y grŵp neu gan Dimau Troseddau Ieuencid unigol, heb i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru na'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid fod yn ymwybodol o'r ceisiadau hyn na'r gwaith a gyflawnwyd yn eu sgil.

Nid oes unrhyw awgrym o ddim amhroffesiynol neu esgeulus yn y cyswllt hwn - dim o gwbl - ond roedd yn ymddangos ei fod yn faes a allai fod yn fwy eglur trwy baratoi manylebau gwaith tynnach, ac y gallai hefyd fod yn ddefnyddiol i bob parti pe bai'r manylebau hyn yn cynnwys dyraniadau eglur o ddiwrnodau. Byddai'r olaf yn creu sefyllfa fwy agored ac yn ei gwneud yn haws i'r cyllidwr a'r darparwr ei rheoli.

O ran cadw amser yn fwy cyffredinol, gallai fod yn werth cynnwys hyn yn rhan o ofynion y darparwr i gyflwyno adroddiadau – yn yr un modd ag y mae contractau ymchwil yn aml yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddaparu gwybodaeth o'r fath ar ddiwedd cyfnodau archwilio rheolaidd. Byddai'n bwysig peidio â dilyn yr un llwybr ag y mae rhai ffynonellau ariannu Ewropeaidd yn ei ddilyn fodd bynnag, lle gall y sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau dreulio 20% o'r amser sydd ar gael iddynt yn bodloni gofynion o ran cyflwyno adroddiadau yn hytrach na chyflawni eu gwaith craidd.

O safbwynt diogelu data, roedd y tîm gwerthuso hefyd yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol ychwanegu cymal penodol ynglŷn â thrin, storio a throsglwyddo data sensitif at unrhyw gontract a adnewyddir. Mae hwn yn faes sy'n gallu peri problemau i sefydliadau darparu, a gall cymalau o'r fath arwain at uwchsgilio defnyddiol. Mae ymwybyddiaeth o ofynion cyfreithiol ac arfer da, a hyfforddiant priodol yn y maes hwn, yn amddiffyn rhag unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data yn ogystal â chynorthwyo i gael gwared ar unrhyw bosibilrwydd o fynd yn groes, yn anfwriadol, i ganllawiau proffesiynol yn ymwneud â chyfrinachedd a chadw gwybodaeth yn ddienw.

Mae'n werth pwysleisio na nodwyd unrhyw achosion o'r fath gan y tîm gwerthuso, ond roeddem yn ymwybodol nad yw manylebau gwaith blaenorol ar gyfer NC wedi cynnwys gofynion o'r fath.

Un fantais i'r trefniadau gwaith blaenorol, yn ôl pob golwg, oedd eu bod yn ddigon hyblyg i ganiatáu ymateb cyflym ar ôl nodi angen. Byddai dadleuon da dros gadw rhywfaint o'r hyblygrwydd hwnnw os penderfynir parhau â darpariaeth o'r fath.

4.6 Dewisiadau ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol – crynodeb

Fel y nodwyd yn adran 2.1, rhestrwyd tri phrif ddewis yn y fanyleb, yn ymwneud â darparu gwasanaethau yn y dyfodol a sut y gellid ei strwythuro:

- *“Dewis 1-Peidio â darparu'r gwasanaeth neu ei ddarparu'n fewnol.*
- *Dewis 2-Ystyried costau a manteision mabwysiadu proses dendro agored.*
- *Dewis 3-Gwneud diwygiadau i bwyslais, dull darparu a threfniadau rheoli'r gwasanaeth presennol”*

Rhoddir crynodeb yn y tabl canlynol o'r materion allweddol a drafodwyd yn yr adrannau blaenorol, gan restru'r dewisiadau darparu allweddol yn ôl cost, manteision ac anfanteision.

Tabl 3 – dewisiadau allweddol ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol, yn ôl cost, manteision ac anafanteision

	Terfynu'r gwasanaeth	Darpariaeth fewnol	Tendr agored	Darpariaeth gymysg	Parhau â'r drefn gyfredol
Disgrifiad	Dod â'r drefn bresennol i ben yn gyfan gwbl, heb wneud unrhyw drefniadau eraill.	Aelodau staff mewnol Llywodraeth Cymru i ddarparu ffrydiau gwaith allweddol, fel sy'n briodol.	Caffael ffrydiau gwaith allweddol ar y farchnad agored yn rheolaidd.	Penderfynu ar gymysgedd o ddulliau darparu, â rhai ffrydiau'n cael eu cyflwyno ar gyfer tendr, eraill yn cael eu darparu'n fewnol ac eraill yn cael eu parhau gan NC efallai.	Fel yr uchod.
Costau	Gellid dyrannu'r gyllideb flynyddol o £140,000 i wasanaethau eraill, neu arbed y cwbl.	Mae'n anodd cyfrifo'r goblygiadau heb gymharu argostau darpariaeth o'r fath â'r rhai sy'n gysylltiedig â darpariaeth allanol. Gellid o leiaf osgoi costau caffael yn sgil darpariaeth fewnol.	Mae costau caffael yn ychwanegu at gyfanswm costau'r ddarpariaeth (rhwng 5 a 50%), ac maent yn cynyddu wrth i nifer y tendrau penodol gynyddu.	Ni ellid nodi cyfanswm costau darpariaeth gymysg nes i'r gwahanol elfennau fod yn hysbys (h.y. sawl tendr agored, pa ffrydiau sy'n cael eu darparu'n fewnol, pa rai sy'n cael eu terfynu ac ati).	Byddai costau fwy neu lai yr un fath.
Manteision	Arbed costau sylweddol, fel yr uchod.	Gall darpariaeth fewnol fod yn haws ei rheoli, os mai'r darparwr newydd yw'r cyllidwr hefyd. Gall leihau'r risg o ddibyniaeth.	Byddai llai o bosiblirwydd o "hunanfodlonrwydd" ymhlith cynigwyr a ffefrir. Gellid gostwng prisiau. Mae'r broses o gynllunio'r fanyleb yn codi ymwybyddiaeth yn fewnol (o angen sefydliadol, blaenoriaethau strategol).	Gellir gwneud penderfyniadau am ba ffrydiau gwaith sydd fwyaf addas i ba fathau o ddarpariaeth yn y dyfodol (neu i'w terfynu'n gyfan gwbl). Gellir penderfynu ar y pecyn darpariaeth cyffredinol yn strategol, a'i ganolbwyntio.	Byddai cyflymder yr ymateb yn cael ei gadw, yn ogystal â'r cysylltiadau cadarnhaol â rhanddeiliaid Cyfiawnder Ieuenctid allweddol, a mynediad. Gellid cadw'r dull "cyfannol" o ddarparu. Gellid cynnal lefelau ansawdd hysbys.
Anafanteision, risgiau	Ni ellid cynnal y momentwm y mae'n ymddangos iddo gael ei greu o ran gwaith lefel strategol fel gweithredu STICG, ar ei ffurf bresennol. Byddai grŵp Rheolwyr Timau Troseddu Ieuenctid Cymru yn llai effeithiol yn y byrdymor o leiaf. Byddai gwaith ymatebol i gasglu gwybodaeth yn sail i wneud penderfyniadau a llunio polisi yn cael ei golli.	Mae angen sail sgiliau amrywiol er mwyn darparu rhai ffrydiau gwaith, a gellir ond manteisio ar sgiliau o'r fath yn fewnol os cânt eu recriwtio'n benodol. Gall fod mwy o "oedi" tra bod aelodau staff newydd yn datblygu cysylltiadau. Gallai mynediad fod yn gymhleth i gychwyn. Mae gwaith ymchwil mewnol yn denu beirniadaeth am "ddiffyg gwrthrychedd" weithiau.	Gall fod diffyg hyblygrwydd yn ystod y cyfnod darparu – h.y. bydd contractwyr yn darparu'r hyn sydd wedi'i gontractio; gellir cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd ond mae'n aml yn anodd nodi manylion. Gallai fod diffyg cydlynad cyffredinol ar draws gwahanol ffrydiau gwaith, os cânt eu rhannu'n dendrau ar wahân. Mae caffael yn cymryd amser, a gellir creu oedi yn y ddarpariaeth. Gallai mynediad fod yn gymhleth i gychwyn.	Gallai pecyn darpariaeth "gymysg" olygu diffyg cysylltiad ar draws gwahanol ffrydiau. Byddai anafanteision pob rhan yr un fath ag yn y tair colofn gyntaf.	Ni fyddai unrhyw brofion o'r farchnad o hyd, sy'n golygu y byddai'r posibilrwydd o ddarparu'r un gwasanaethau am gost is yn dal i fod yn anhysbys. Byddai angen mynd i'r afael â diffyg eglurder o ran briff o hyd.

Atodiad 1 – Crynodeb o'r prosiect



CRYNODEB O'R PROSIECT

Gwerthusiad o'r gwasanaethau a ddarperir gan Nacro Cymru i Lywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ARCS LTD, gyda chymorth gan Brifysgol Aberystwyth, i gynnal gwerthusiad cryno o'r gwasanaethau a ddarperir gan Nacro Cymru i Lywodraeth Cymru.

Amcanion cyffredinol y gwerthusiad yw:

- *darparu disgrifiad manwl o'r gwasanaethau a ddarperir gan Nacro Cymru i Lywodraeth Cymru,*
- *archwilio gwerth y gwasanaethau hynny o safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Nacro Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, cynrychiolwyr Timau Troseddau Ieuenctid a'r rhai sy'n cymryd rhan mewn rhwydweithiau cyfiawnder ieuenctid allweddol a rhwydweithiau eraill yng Nghymru, ac*
- *asesu'r effaith y mae'r gwaith uchod wedi ei chael ar: benderfyniadau rhanddeiliaid pwysig yng Nghymru neu eu tybiaethau o faterion allweddol; cytgordio polisiâu cyfiawnder ieuenctid a pholisiâu cysylltiedig; ymdriniaeth o waith ataliol ac, yn ehangach, tueddiadau o ran troseddau ieuenctid a/neu ganlyniadau adsefydlu.*

Bwriedir hefyd i ganfyddiadau o'r gwaith ymchwil fod yn sail i fyfyrddod trylwyr, yn seiliedig ar dystiolaeth ar ddewisiadau ar gyfer darpariaeth yn y maes hwn yn y dyfodol.

Pa ddulliau fydd yn cael eu defnyddio?

Mae'r gwerthusiad yn cynnwys dau brif ffrwd o gasglu data:

1. Casglu a dadansoddi dogfennau/data

Bydd y tîm yn casglu ac asesu deunydd ysgrifenedig a chyfresi data sy'n gysylltiedig â gwaith presennol a blaenorol Nacro Cymru, gan gynnwys: cynlluniau gwaith blyneddol/tri misol, adroddiadau ar gynnydd (cyffredinol ac yn ymwneud â phrosiectau unigol penodol a gyflawnwyd yn rhan o gytundebau ariannu gyda Llywodraeth Cymru); adborth a gwybodaeth asesu arall sy'n gysylltiedig â ffrydiau penodol o waith a gyflawnwyd (e.e. digwyddiadau hyfforddi, gweithdai); adroddiadau ar ddadansoddiad o ddata perthnasol yn ymwneud â materion penodol y canolbwyntiwyd arnynt yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd (e.e. cyfraddau dedfrydu yn y gwahanol

Dimau Troseddau Ieuenctid), a phapurau briffio a deunydd arall yn deillio o rywfaint o'r gwaith uchod (e.e. ar y defnydd o'r ddalfa).

2. Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol

Bydd adborth gan rhanddeiliaid allweddol yn arbennig o bwysig i'r gwaith ymchwil, a bydd y tîm yn cynnal cyfweiliadau trylwyr â phwyslais penodol iddynt gydag amrywiaeth o gynrychiolwyr, gan gynnwys aelodau o'r Tîm Cyfiawnder Ieuenctid ac unigolion allweddol eraill yn Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr o'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, aelodau tîm Nacro Cymru, cynrychiolwyr Timau Troseddau Ieuenctid, aelodau strwythurau a rhwydweithiau cyfiawnder ieuenctid allweddol yng Nghymru, arbenigwyr cyfiawnder ieuenctid o'r cymunedau academiaidd ac ymchwil yng Nghymru, a rhanddeiliaid o feysydd polisi ac ymarfer allweddol cysylltiedig gan gynnwys tlodi plant a gwaith gyda theuluoedd, diogelwch cymunedol, iechyd meddwl a chamdddefnyddio sylweddau.

Bydd canlyniadau'r gwaith ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Llywodraeth Cymru a bydd adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno ym mis Mai 2012.

Staffio

Ceir pum aelod o'r tîm gwerthuso. Mae **Mark Liddle** (Rheolwr Gyfarwyddwr ARCS) a **Sam Wright** (Cyfarwyddwr, ARCS), yn arwain gwaith cynllunio, dadansoddi ac ysgrifennu'r gwerthusiad, gyda chymorth cadarn gan **Kate Williams** (Uwch Ddarlithydd mewn Troseddeg, Prifysgol Aberystwyth), a **Paul Gray** (Rheolwr Ymchwil a Gwerthuso, ARCS).

Mae **Paul** yn arwain y gwaith o ddadansoddi ac adrodd ar y data meintiol, a bydd hefyd yn arwain y dadansoddi ansoddol (NVIVO) a chysylltiedig, gyda chymorth gan **Sam**. Bydd gwaith maes yn cael ei gynnal gan **Lyndsay McAteer** (Swyddog Ymchwil a Gwerthuso, ARCS) a **Paul**, ond bydd aelodau eraill o'r tîm hefyd yn cyflawni swyddogaeth yn y cyfweiliadau â rhanddeiliaid, a fydd yn allweddol bwysig i'r gwerthusiad.

Amserlen

Cynhelir y gwaith ymchwil o fis Ionawr hyd at fis Ebrill 2012, a bydd y tîm yn casglu ac yn dadansoddi data trwy gydol y cyfnod hwnnw.

Manylion cyswllt:

Os oes gennych chi neu eich cydweithwyr unrhyw gwestiynau o gwbl am y gwaith ymchwil, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod. Byddwn yn cysylltu'n ôl â chi cyn gynted â phosibl.

Mark Liddle Rheolwr Gyfarwyddwr ARCS LTD (rhif ffôn symudol) 07435 972850 (rhif ffôn) 01223 370104 (rhif ffacs) 01223 370040 (e-bost) mark@arcs-ltd.com		Sam Wright Director ARCS LTD (rhif ffôn symudol) 07918 673090 (rhif ffôn) 01223 370104 (rhif ffacs) 01223 370040 (e-bost) sam.wright@arcs-ltd.com	
---	--	---	--

Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth:

ARCS LTD
Sheraton House
Castle Park
Cambridge CB3 0AX

Atodiad 2 – Canllaw i bynciau'r cyfweiliadau

GWERTHUSIAD O'R GWASANAETHAU A DDARPERIR GAN NACRO CYMRU I LYWODRAETH CYMRU – CANLLAW I BYNCIAU'R CYFWELIADAU

Cod y cyfweiliad (blaenlythrennau'r cyfwelydd /dyddiad/rhif y cyfweiliad): _____

Teitl yr ymatebwr: _____

Asiantaeth, grŵp: _____

CYN cychwyn y cyfweiliad:

1. Cyflwyniad personol.

Fy enw i yw [] ac rwy'n ffonio o ARCS, yn dilyn llythyr a anfonwyd i'ch swyddfa yn ymwneud â'r gwerthusiad o'r gwasanaethau a ddarperir gan Nacro i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Anfonwyd crynodeb o'r prosiect gyda'r llythyr hwnnw hefyd, sy'n amlinellu diben y gwerthusiad, pwy sy'n ei gynnal a pha ddulliau rydym yn eu defnyddio.

Yn rhan o'r gwerthusiad, yn amlwg mae gennym ddiddordeb mawr mewn clywed sylwadau pobl allweddol sydd wedi ymwneud rhywfaint â gwaith Nacro Cymru, ac rwy'n ffonio i weld a allwn ni gytuno ar amser cyfleus imi ofyn ychydig gwestiynau i chi, gan ganolbwyntio ar rai o'r materion a nodwyd yn y llythyr.

2. Sylwadau ar gyfrinachedd

[Os na thrafodwyd eisoes mewn sgysiau blaenorol gyda'r ymatebwr.]

I ailadrodd cyn i ni gychwyn – byddaf yn cadw beth bynnag a ddywedwch wrthyf yn gyfrinachol, sy'n golygu na fydd neb arall yn gwybod beth rydych chi wedi ei ddweud, ac eithrio aelodau ein tîm ymchwil.

[Os yw'r cyfweiliad yn cael ei recordio'n ddigidol.]

Pan fydd pobl yn gyfforddus â hyn, rydym yn recordio'r trafodaethau hyn fel rheol er mwyn eu trawsgrifio'n ddiweddarach a'u dadansoddi gyda chymorth cyfrifiadur. Bydd yr holl drawsgrifiadau yn ddiennw ac wedi'u hamgryptio, ac ni chaiff unrhyw sylwadau eu priodoli i unigolion penodol mewn unrhyw adroddiadau.

[Os caiff y cyfweiliad ei drawsgrifio'n rhannol ar y pryd.]

Bydd nodiadau o'r cyfweiliad yn cael eu hysgrifennu i'w dadansoddi gyda chymorth cyfrifiadur, ond bydd y nodiadau hyn yn ddienw, ac ni fydd unrhyw sylwadau yn cael eu priodoli i unigolion penodol.

Byddem yn amlwg yn falch pe byddech yn teimlo y gallech siarad yn ddi-flewyn ar dafod wrth roi eich sylwadau i ni, ond wedi dweud hynny, os oes unrhyw bethau nad ydych am eu trafod, yn amlwg nid oes rhaid i chi wneud hynny.

Fel y nodwyd gennym yn y llythyr, dylai'r drafodaeth gymryd rhwng 30 a 40 munud os yw hynny'n iawn.

CYCHWYN Y CYFWELIAD/CYNNAU'R PEIRIANT

[Hoffwn gychwyn trwy ofyn ychydig gwestiynau am eich cefndir chi.....]

- A allwch chi ddweud ychydig am eich cefndir wrthyf - profiad proffesiynol ac ati? Sut daethoch chi i weithio yn eich swydd bresennol?

[Holi er mwyn cael syniad cyffredinol o: gymysgedd profiad yr ymatebwr ar draws gwahanol feysydd; ar wahanol lefelau – e.e. ymarfer/strategol; cyd-destun Cyfiawnder Ieuenctid Cymru]

- Yn fwy cyffredinol, beth fu swyddogaeth eich asiantaeth/grŵp eich hun o ran gwaith Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru?
- A allwch chi ddisgrifio i ni beth fu eich cysylltiad â Nacro Cymru, neu eich profiad ohono, dros y blynyddoedd?

[Ar gyfer pob ffrwd allweddol o waith Nacro y mae'r ymatebwr yn ei ddisgrifio, holwch am ei farn am ei ansawdd a'i effaith]

- Yn fwy cyffredinol, a ydych yn credu bod y gweithgareddau hyn wedi cael unrhyw effaith ar:
 - feysydd ymarfer perthnasol,
 - cytgordio polisïau cyfiawnder ieuenctid a pholisïau cysylltiedig,
 - penderfyniadau rhanddeiliaid pwysig, neu eu canfyddiad o faterion allweddol,
 - patrwm troseddau ieuenctid a/neu ganlyniadau adsefydlu (os gellir dangos hyn), ac
 - ymdriniaeth o waith ataliol?

- Sut byddech chi'n disgrifio gwaith Nacro Cymru o ran rhannu dyletswyddau rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid?

- [Os yw'n briodol] A ydych chi wedi cyfrannu at benderfyniadau am gynnwys darpariaeth gwasanaeth Nacro Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru?
 - Pe bai'r trefniadau presennol yn parhau, beth yn eich barn chi fyddai'r ffordd orau o ddiffinio ei raglen waith flynyddol?

- A oes mathau penodol o gymorth neu ddarpariaeth yr hoffech eu gweld yn cael eu darparu, ond na ddarparwyd hyd yn hyn? (Neu, a hoffech chi i gydbwysedd cyffredinol y gwaith fod yn wahanol?)

- Ar gyfer pob un o'r ffrydiau gwaith allweddol a gyflawnir gan Nacro Cymru, beth yw'r posibilrwydd i ddarparwyr eraill wneud gwaith o'r fath i'r safonau gofynnol yn y dyfodol (ac i wneud hynny am bris cystadleuol)?

- Beth yw manteision ac anfanteision caniatáu i un sefydliad ddarparu amrywiaeth o weithgareddau yn ymwneud â chyfiawnder ieuenctid, yn hytrach na darpariaeth gan wahanol ffynonellau dros amser neu fesul ffrwd waith?

- Beth yw manteision ac anfanteision comisiynu arbenigedd cyfiawnder ieuenctid ac arbenigedd cysylltiedig, hyblyg "yn ôl y galw", o'i chymharu â darpariaeth "fewnol"?

- Pa brofion ddylid eu defnyddio i benderfynu a ddylai mathau penodol o wasanaeth yn y maes hwn gael eu comisiynu trwy broses dendro agored?

- A ydych o'r farn y dylai Nacro Cymru gyflawni swyddogaeth yn y dyfodol, o ran gwaith Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru?

- A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud, neu faterion yr hoffech eu trafod nad ydynt wedi'u codi hyd yn hyn?

[Diolch, ac ati]

Atodiad 3 – Gwaith Nacro Cymru: amserlen gryno ynghyd â ffrydiau gwaith, 2009-2011

<i>blwyddyn</i>	<i>chwarter</i>	<i>Prosiectau</i>	<i>Prosiectau</i>	<i>Prosiectau</i>	<i>Gwaith gyda Thimau Troseddau leuenctid unigol</i>	<i>Hyfforddiant, digwyddiadau, rhwydweithio eraill</i>
2009	Ion-Maw	<u>Gwerthusiad o brosiect ‘Outreach’ ACFA yng Nghymru</u> Nod y gwerthusiad oedd archwilio effaith OUTREACH ar bobl ifanc a gymerodd ran yng Nghymru yn 2007 a darganfod a wnaeth eu hymddygiad (troseddu ac fel arall) wella o ganlyniad i gymryd rhan, a’r rhesymau dros eu hatgyfeirio i’r rhaglen. Drafft cyntaf i’r Cynulliad ym mis Chwefror 2009.	<u>Adolygiad Camddefnyddio Sylweddau</u> Dechreuodd ym mis Ionawr 2009		<u>Tîm Troseddau leuenctid Bro Morgannwg</u> – darparodd tîm NC hyfforddiant ar wneud atgyfeiriadau ataliol ar 26 Mawrth. <u>Tîm Troseddau leuenctid Wrecsam</u> – darparodd tîm NC hyfforddiant ar berygl i Dimau Troseddau leuenctid Sir y Fflint a Wrecsam ar 19 Chwefror. <u>Tîm Troseddau leuenctid Gwynedd Môn</u> – cyfarfod â’r Tîm ar 19 Chwefror i drafod sut y gellid datblygu cyfranogiad. Cytuno i gynnal saith grŵp ffocws i aelodau staff a phobl ifanc.	Mynychu cyfarfodydd grŵp Rheolwyr Timau Troseddu leuenctid Cymru ar 14 Ionawr ac 11 Mawrth 2009. Adolygu cynllun busnes gyda’r grŵp ym mis Mawrth 2009. Ar 13 Chwefror 2009, cafodd NC gyfarfod â grŵp cyfeirio grŵp Rheolwyr Timau Troseddu leuenctid Cymru i drafod Cynllun Gweithredu ar Droseddau leuenctid Cymru.

<i>blwyddyn</i>	<i>chwarter</i>	<i>Prosiectau</i>	<i>Prosiectau</i>	<i>Prosiectau</i>	<i>Gwaith gyda Thimau Troseddau Ieuenctid unigol</i>	<i>Hyfforddiant, digwyddiadau, rhwydweithio eraill</i>
	Ebr-Meh	Adolygu sylwadau ac adborth; bwriadwyd ei gwblhau ym mis Mai 2009. Cyflwyniad i Bwyllgor Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, 5 Mai.			<u>Tîm Troseddau Ieuenctid Sir Benfro</u> - mae NC wedi cwblhau ailarchwiliad ar Adroddiadau Cyn Dedfrydu i Dîm Troseddau Ieuenctid Sir Benfro i'w gynorthwyo i ddatblygu ei ymarfer presennol. Wrthi'n drafftio polisïau a gweithdrefnau i'r Tîm Troseddau Ieuenctid ar hyn o bryd. Y drafft cyntaf ddiwedd mis Ebrill 2009.	Aeth NC i gynhadledd Cynnydd (1 a 2 Ebrill 2009). Aeth NC i gynhadledd troseddau ieuenctid Nacro ar 2 a 3 Ebrill. Cyflwynodd NC weithdy ar gyfiawnder ieuenctid yng nghynhadledd hawliau plant Llywodraeth Cynulliad Cymru – Gwneud Pethau'n lawn – yng Nghaerdydd ar 12 Mai 2009. Cynhaliwyd cyfarfod rhagarweiniol gydag Achub y Plant ar 4 Mawrth.

<i>blwyddyn</i>	<i>chwarter</i>	<i>Prosiectau</i>	<i>Prosiectau</i>		<i>Prosiectau</i>	<i>Gwaith gyda Thimau Troseddau leuenctid unigol</i>	<i>Hyfforddiant, digwyddiadau, rhwydweithio eraill</i>
